GUEDDI'R-ARGLWYDD

Wedi ei

HEGLURO.

Mewn amrŷw ymadroddion, neu Bregetheu Byrrion.

O waith y Gwir Barchedic Dâd
GEOR. GRIFFITH, D. D.
Diweddar Escob Llanelwy.

Printiedig yn y THEATER yn
Rhydychen 1685.

1. g. 39.

AT Y

DARLLENNYDD.

ANrhydeddwyd fi, flynyddoedd tuntu, á gweini (mewn perthynaſau crefydd) i Awdur tra-parchedig y Gwaith ſydd yn canlyn, ac ymmiſc llaweroedd o bethau eraill oi feddwl, a welodd Efe yn dda eu datcuddio i mi, bu hyn yn ûn; Na fynnai Efe i ddim Cyflawnad oi eiddo ei hun (neu i nêb arall) ddyfod ir amlwg er mwyn cynnal coffadwriaeth am dano. Ymddigonodd Efe a bôd Ei *farn gydar Arglwydd, ai wòbr gyda ei ddûw.* Nid ŵyt bellach lefaſus (pe bawn deilwng) i ymhelaethu ynghylch ei ddoniau rhagorawl Ef, ei gelfyddyd ai ddiwydrwydd ym mhob rhan 'oi ſwydd ſanctaidd, ei fyddlondeb i Eglwys Dduw. ai frenin (pan fu doſtaf arnynt yn ein hoes ni) ei aml rinweddau da eraill ef, a chanmoladwy, 'ai radau yſprydol, ei ymddygiad 'or addaſaf ym mhôb lle, a chyflwr y trefmwyd Ef ynddynt, 'au derchafaſant i fôd yn Dâd cyffredinol ac anrhydeddus 'ir Eſcobaeth hon (na allaſai neb araill ei haeddu, 'ai hurddo yn well yn ei amſer) ac 'au cymhwyſaſant Ef i fôd yn ſiampl odidog i eraill, ac i gael ei hun (nid oes ronyn

o ammeu genni fi) *Rhan o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni.* Gwybydd, gan hynnymai 'r inig ddiben o oſod allan y llyfr (yn dy olwg di) ydoedd, i ymegnio er dyfod à gogoniant i Dduw, trwy dy leſſaad di oddiwrtho: ewllſyſſiodd yr hwn, ſydd, yn ſiccr, ganddo gwbl awdurdod 'im gorchymmyn ym mhob peth cyfreithlawn a goneſt, imi wneuthur fy egni (er imi gyfaddeſ wrtho mai llêſc iawn fyddai) yw gymmell ef 'ith gymmeriad da di, yw ddarllain gennit yn fanwl, ac i ymarferu yn gydwybodus ar ei ôl; Wedi bwrw o honof, pa wêdd yr yſpyſſwn fy ymgais tuag at yr unrhyw, ni ddaethum o hŷd i fodd well (yn fy nhŷb i) na rhoddi peth cyfrif i ti, o gyfarwyddyd yr Athraw yn ei alwedigaeth, 'ai ymddygiad trwyddi. gŵyr llaweroedd o barthau eraill (heb law Gŵynedd troſti i gîd) mai *Scrifennydd ydoedd wedi ei ddyſcu i deyrnas nefoedd,* abl *Er dwyn allan oi dryſſor bethau newydd a hen* Os yn 'y rhani ('oth flaen di) ni ddanghoſodd Efe eithaf ei yſgolheigtod, dirnad, mai ei iſelu ei hûn a wnaeth at ſynniad yr anneallus, a bôd (pe ceit gyfrannogi o honynt) laweroedd iawn oi Bregethau (mewn jaith arall) 'ath ddifyrrent, 'ath leſhâent, (er maint a allo dy wybodaeth di fôd eusys) ac â ddeuent a'thi i gydnabod, iddo Ef lefaru yn ei ddyddiau (gyda' rhai 'or rhai pennaf) megis *Oraclau duw.* Dywaid wrthif

wrthif ŵr tradyſcedig, ag urddaſol (etto yn fyw) a fuaſai yn hîr yn Blwyfol iddo, Na chlywſai Efe erioed Bregeth ganddo, nad ydoedd gymmwys yw hadrodd yn yr ûn a fynnid 'or ddwy *Fam yſcol yn lloegr*, Bu'r Athraw parchadwy hwn mor *ddyfal yn ei weinidogaeth*, a phe buaſai gorchymynnion *St. Paul* at Timotheus, wedi eu tueddu atto Ef ei hûn yn unic *Glŷn wrth ddarllein, wrth gynghori, wrth athrawiaethu, Nac' eſceuluſa y dawn ſydd ynot, myfyria ar y pethau hyn, aros* (neu bydd) *ynddynt*. Os dydd, os rhan dda o hîr nôs, yr ymofynnid am dano (pan fyddai teiſtr ar ei amſer) ymmyſc ei Lyfrau, ag ynghylch ei orchwyl, yr oedd taro wrtho. Ni laccaodd Efe fymryn ar ei ofalboen, 'ai aſtudrwydd hyd ei ddiwaethaf, eithir parhâodd yn *Was Fyddlon*, fel un *doeth, a oſododd ei Arglwydd ar ei deulu i roddi bwyd iddynt mewn pryd*, 'ai *Arglwydd* (yw wynfydwch anrhaethadwy) *pan ddaeth*, 'ai *cafodd yn gwneuthur felly*. Tra-mawr fyddai ei ofal am baratôad prydlon tuagat Ddydd yr Arglwydd, oddieithr i achoſion pwysfawr ddigwydd ei wrthwynebu (a llai nai bâth hwy nis gallent ei rwyſtro) gorphennai Efe ei arlwyad pennaf yw erbyn ddau ddiwrnod 'oi flaen. Ac yn gwybod (or yſpyſſaf) na allai na dyſceidiaeth, na diwydrwydd, na gofal, dyccio ûn gronyn heb râd Duw arnynt, ni anturiai Efe ar

ddim,

ddim, cyn goſtwng o honaw ar ei linian, a thaer ymbil ac Ef, am ei gyfarŵyddo, 'ai gymmorth i gyflawni yr hyn a fyddai wiw ganddo ei ddilyn ai fendith gwedi, fel yr anrhydeddid Ef, y lleſhêid eraill trwyddo, ac y goſodid ymlaen jechydwriaeth ei waſanaethwr 'or herwydd. Y mae ei Weddi orcheſtol Ef (ond antur) etto ymmyſc ei Bapurau, yw gweled, a arferai Efe 'ir dibennion hyn, yn ſeunyddiol Fel y bu Frwythau ei lafur Ef yn fuddiol i laweroedd felly y lluniaethodd Duw hwy yn ddiddanol iddo ei hûn, Pan, yn agos jawn yw ymddattodiad, yn gweini iddo (er fyannheilynged) a dymuno arno at gaſclu y pethau áu cyſſurent yn y mawr wendid yr oedd Efe yn ofidus dano, ac er cadarnhâu ei Fydd a ſefydlu ei obaith, o gael cyfnewid y bŷd truanllyd hwn, am ûn mwy dewiſol a hyfrydlon (ymmyſc amryw iaeth o ymadroddion eraill) derbynnais hon oddiwrtho; *Myfi a ddyſcais Fyrdd duw i ddynion, ac a ymegnïais er rhoddio ynddynt* fy hûn; â chlôdd Efe y cwbl i fynu, â dywedyd, *Tyred Arglwydd Jeſu, tyred ar frŷs.* Y mae 'or howſaf, weithian, dyfalu wrth ddrŵs pwy y bydd raid ir bai ſefyll, oni wellhêir di trwyr' Cyflawnad hwn (a phob ûn arall a eill ddyfod ith law di) 'or cyfryw Athraw, ac 'ai hymddûg ei hûn fel hyn yn ei ddyddiau. Diammau gennif

(os

(os yſtyriol wyt) fôd hyn yn ddigon, er ſylfaenu dy ddiſgwiliad am ddaioni oddiwrtho, ac er dy rybuddio i wilied arnat, rhag dyfod o honat yn fyrr 'or buddged a amcanwyd i ti trwyddo. Nid â myfi y mae ymofyn, pa ham y cadwed 'di cyhyd hebddo, ac ewyllyſiwn (om calon) yn lle goddef i th fanylrwydd dy oſod ar waith i chwilio hynny allan, i ti ymgynnef ac Eff oddifri, ai ddefnyddio 'ith fantais yſprydol. Os mynnit ti wybod i bwy yr wyt yn rhwymedig am gyfrannu ynddo, deall, fy môd i wedi fy ſicrhâu, mai (yn neſaf at Dduw, 'ar hwn a ymboenodd wrtho) i Fâb anwyl yr Awdur, a ymadawodd ag ef er dy fwyn ac ir gwîr barchedig Dâd yn Nuw, y preſennol Arglwydd Eſcob Llanel y, 'ai troſglwyddodd ir goleuni, gyda thŷb ſafadwy, y gwnaiff Efe fawrllês ir ſawl oll trwy Gymru, ac ni fyddant yn ddiffygiol iddynt eu hunain A chan egluro cymmaint i ti, da iawn y gwnn i mi godi i fynu dy awyddfryd i fyned yw gylch, ac mai nid g'eddol i mi dy attal yn hwy. Yn unic cymmer hyn gennif yn ychwaneg. na ddaeth (o ran cymmaint y rhagorodd yr Awdur arnaf) fy enw i dan yr ûn Caead 'ai ûn Ef 'om llawn fôdd; ni ddichon arall (pwy bynnac) berchi ei Gwblhaâd Ef yn fwy; ni weddia nêb, yn wreſoccach, ar Dduw i

roddi

roddi ei fendith arno, er cynniddiad dy ŵybodaeth, 'ath hyfforddiad *I rodio yn addas 'ir Argwlydd, i bod rhyngu bodd*, na myfi, yr wyf, 'or ficcraf.

Lanfylling
Mawrth 2.
1684.

Diffuant ddeifyfiwr dy lwyddiant yn y Bŷd hwn, 'ath gyflawn ddedwyddwch yn y nefaf.

William Foulkes.

Eſponiad ar weddi 'r Arglewydd mewn nifer o bregetheu ar y 1, 2, 3, 4. Adnodau o'r 11. pen. o'r Efengil yn ôl St. Luke. Ac ar ran o'r 13. adnod o'r 6. pen. o'r Efengil yn ôl St. Matth.

V: 1. *A bu ac efe mewn rhyw fan yn gweddio pan beidiodd, ddywedyd o un o'i ddyſcyblion, wrtho, Arglwydd, dyſc ini weddio, megis ac y dyſcodd Ioan i'w ddiſcyblion.*

V. 2. *Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pan weddioch dywedwch, ein Tâd yr hwn wyt yn y ynefoedd, Sancteiddier dy enw: deued dy Deyrnâs: gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaiar hefyd.*

V. 3. *Dyro ini o ddydd i ddydd ein hara heunyddiol.*

V. 4. *A maddeu ini ein pechodau, Canys yr ydym ninnau yn maddeu i bawb ſy yn cin dyled; ac nag arwain ni i brofedigaeth; either gwared ni rhag drwg.*

Math. 6. 13. *Y rhan ddiwaetha; Canys eiddotiyw'r deyrnâs, a'r nerth, ar gogoniant, yn oes oeſodd. Amen.*

Preg. I.

PEnnaf peth mewn gwir grefydd y'w Gweddio, Yſcol y nefoedd Aberth y Crefyddol, noddfa y Cyſiawn, ffrewyll y Cythrael, Dyfodfa at Dduw, Offer iechydwriaeth. Amhynny

hynny yr hwn o'i fawr drugaredd a fu wiw ganddo gymeryd gofal a dioddef tros ein heneidiau, agymerth arno fôd yn Athro i ni, a'n diſcu i weddio. Nid oes hayach un yn ein plith na fedr ddywedyd, Gweddi 'r Arglwydd, ac na wyr mai yr Arglwydd ei hun a'i dyſcodd. Ond nid yw y rhan fwyaf ſywaeth, ond yn ei dywedwyd, heb fawn-ddeall pa beth y maent yn ei ddywedyd. Y mae ganddynt y pliſgyn heb ganfod y cnewyllyn; y mae ganddynt y giſt heb wybod pa fâth dryſor ſydd o'i mewn y mae ganddynt y geiriau heb ymgyffred y meddwl. Gwybyddwn gan hynny mai am bobloedd 'r oes hon hefyd y mae Duw yn achwyn drwy 'r Prophwyd, *Neſſaû y mae y bobl hyn attaf a'u genau, a'm anrhydeddu a'u gwefuſau, a'a calon ſydd bell oddiwrthif. Eſa.* 21, 13. *Matth.* 15. 8.

Rheittiaf, peth i 'r neb a fynnei fod yn grefyddol a fyddei dyſcu, nid y geiriau, yn unig, ond deongliad y weddi ſanctaidd hon; a 'r rheſwm a 'r defnydd ſydd ynddi. Gweddi Gynnhwyſol yw, yn amgyffred cymmaint ôll ag a all dyn ddeiſyf ar law ei Dduw; yn gyſtal er lles y corph, a 'r enaid, yr holl bethau a berthynant i 'r byd ymma; ag i 'r byd a ddaw, pethau daiarol a phethau nefol; y maent i gyd wedi eu cynwys yn grynnol yn y ferr weddi ymma.

Yr hon fel y gallom ei heſponio yn eg

lurach,

lurach, a myned rhagom yn ddirwyſtr, y ſtyriwn yn fy nheſtun, (y pedair adnod y mma) dri pheth. 1. Yr achlyſur. *A bû ac efe &c. ad*: 1.

2. Y Gorchymmyn. *Ac efe a ddywedodd, &c. ad.* 2.

3. Y weddi ei hun. *Ein Tâd yr hwn &c.*

Yr un gorchymmyn a'r un weddi a roeſei ac a ddyſcaſei ein jachawdwr o'r blaen iw ddiſcyblion ac i'r holl bobloedd *Matt.* 6. 9. *Gweddiwch chwi fel hyn*; Ond wrth achlyſur amgen mewn man ag amſer arall; Yna yn ei bregeth enwog ar y mynydd; yma yn rhyw fan nailltuol, ar ol iddo beidio a gweddio; Yna gwedi iddo ddangos ac argyoeddi rhagrith y Phariſæaid y rhai a weddient ynghonglau 'r heolydd, fel yr ymddanghoſent i ddynion; y rhai fyddent ſiaradus fel y cenhedloedd, gan dybied y caênt eu gwrando am eu haml eiriau. Y mae yn dyſcu gochelyd eu camſyniad a'u amryfuſedd hwy: *Na fyddwch chwi gan hynny debyg iddynt. hwy-v.* 8. - *Gweddiwch chwi fel hyn.* Yma wrth ddymuniad un o'i ddiſcyblion 'r hwn oedd yn ceiſio canlyn eſampl ei feiſtr. Ar ôl iddo beidio, y mae' 'r diſcybl yn amcanu dechreu. Dyſc i ninnau, medd efe, weddio fel y dyſcodd Joan i'w diſcyblion; Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pan weddioch dywedwch Ein Tâd &c. Ac nid oedd efe yn go-

ſalu nac yn eiriol troſto ei hun, ond tros ei gymdeithion, a throſom ninneu ei gyd ei ddiſcyblion ôll hyd ddiwedd y byd. Dyſc i ni, nid i mi yn unig. Ac am hynny y ma Chriſt hefyd wrth atteb yn gorchymyn nid iddo ef yn unig, ond iddynt hwy i gyd, ac i ninneu ar eu hôl *Pan weddioch, dywedwch*, nid dywed ti &c.

Hæc Cura omnium animos tangere debet, ut ſciant quomodo Deus inter precandum ſit alloquendus. Y gofal yma a ddy, lei fod ymmhob enaid dyn, gael gwybod, pa fodd y gallei lefaru wrth ei Dduw, unig ddoeth, Hollaluog. Pan, fyddo neb o honom yn ceiſio cymwynas neu garedig rwydd ar law gwr arall, chwchwi a wyddoch mor ofalus y bydd efe, ar drefnu ei ymadrodd, a gofyn yn weddus; A pha mwya fo 'r gŵr, mwya fydd 'r ofn, arswyd achyfyngyngor yr eiriolwr, rhag iddo ddywedyd dim, a allei fod yn anfodlon gan y pendefig hwnnw. Tan weddio yr ydys yn cyd-ymddiddan a Duw ei hûn, Brenin y Brenhinoedd, a Phenllywiawdr y Creaduriaid ôll; yr hwn y mae'r Angylion yn ei foliannu, ac o flaen pa un y mae nerthoedd y byd yn brawychu, ac yn dychrynnu. Pa ddyn gwael a ryfygei agoryd ei enau yn ei wŷdd ef; Am na's gall neb creadur ddychymyg y madroddion addas i'w fawrhydi ef. Ein tâd Abraham oedd yn

an-

annheilwng i lefaru wrth Dduw, am nad oedd ond llwch a lludw. *Gen.* 18. 27. Moſes yn ei eſcuſodi ei hun; ſy'n dywedyd wrth Dduw, ei fod yn ddienwaededig o wefuſau *Exod.* 6. 12. A'r Prophwyd Eſay yn dolefain. *Gwae fi, canys darfu amdanaf, o herwydd gwr halogedic ei wefuſau ydwy fi ac ymmyſc pobl halogedic o wefuſau yr ydwyf yn trigo; Canys fy llygaid y welſant y brenin, arglwydd y lluoedd Eſai.* 6. 5.

Os fel hyn y dywedent y Sainctiau hynny am danynt eu hunain, y rhai a êlwyd yn gyfeillion i Dduw *Iac.* 2. 23 Pa beth y ddywedwn ni; gwaela pridd o'r byd a thruanaf o bechaduriaid Pa hyſder a allei fod gennym i godi ein llygaid tu a'r nef, i neſſau at Dduw, i agor ein gwefuſau halogedic wrtho, oni buaſei i'n trugarog cyfryngwr beri i ni ddyfod atto, a dyſcu i ni weddio, a phan weddiom ddywedyd fel hyn. *Ein Tâd &c.*

Y mae rhai yn wir yn ein myſc yn gweddio, fel y Phariſæaid gynt drwy ragrith yn ſefyll yn y Synagógau, ac ynghonglau yr heolydd, fel yr ymddangoſont i ddynion; Yn wir meddaf i chwi y maent yn derbyn eu gwobr: Hynny yw, y maent yn cael y peth y maent yn ei geifio, yn cael eu gweled gan ddynion, nid eu gwrando gan Dduw. Y mae rhai yn ſiaradus megis y Cenhedloedd, yn gwneuthur hir weddiau, gan dybied

bied y cânt eu gwrando am eu haml eiriau.

Eraill megis Prophwydi Baal yn gwaeddu a lléf uchel. 1. *Bren.* 18. 28. A Duw yn ddiyſtyr gantho. Nid y lléf na'r golwg, ond y galon y mae efe yn ei cheiſio, yn ei gweled ac yn ei chlywed.

Gweddio yn wir ſydd raid; Ac hynny 'r oedd y diſcybl yma yn ei yſtyried, wrth ei weled ef yn gweddio; yr hwn nid oedd raid iddo mor gweddio cymmaint er ei fwyn ei hun; ond erom ni, i eiriol troſom, ac i ddangos i ni eſampl o ufydddod, a goſtyngeiddrwydd, a'n dyledſwydd tuag at ein Duw. A Gofyn ſy 'rwydd i bawb; y neb a wypo fod dim eiſieu arno, a gais yn ebrwydd ei ddiwallu. Eithr am na's gall y dyn anianol wybod ei ddiffygion yſprydol a phes gwyddei, ni fedrei mo i gofyn yn y modd y dylei; O herwydd hynny y mae 'r diſcybl defoſionol yma, yn ceiſio gan y gwir Athro, Chriſt Jeſu, ein dyſcu pa bethau a fyddent anghenrheidiol iw gofyn, a pha fôdd y gofynnom, i fod yn gymmeradwy ger bron Duw. Dyſc i ni weddio. Dyma 'r ddyſceidiaeth oreu, ar anhawſaf yn y byd, yn yr hon yr amlygir rhagorfraint Griſtianogion, nid amgen Medru gofyn y peth y fynnent yn dduwiol, a chael gan Dduw y peth a geiſient.

Ac am y weddi a ddyscwyd ini ar yr achlyſur yma, mae ini hyn o oglud ynddi, y gallwn

gallwn trwy ei hiawn-ddeall ai harfer fyned yn hyderus at orſeddfaingc y grâs *fel ŷ derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yn gymmorth cyfamſerol.* i *Hebr.* 4. 16. Canys diammeu gennym gael ein gwrando, pan weddiom ar ôl yr addyſc yma, gan fod y neb a ddyſcodd i ni y weddi yn ei derbyn; Ein haddyſcwr yw ein Dadléwr, *yr hwn hefyd ſydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd ſydd yn erfyn troſom ni.* Rhuf. 8. 34. A hyn nid yw anaddas i ddal ſulw arno yn y matter yma, O blegid i'n hiachawdwr Chriſt, gwedi iddo ddyſcu'r bobl a'i ddiſcyblion yn ei bregeth y flwyddyn gyntaf o'i weinidogaeth, pa fodd y i gweddient, ac yrawrhon yn ein hyfforddi ni yn yr un peth, agos i dair blynedd gwedi, ar ddymuniad y Diſcibl; O blegid, meddaf, iddo, atgofio yr un geiriau, gan roi i ni yr un gorchymmyn, a'r un weddi eilwaith, heb oſod, neu grybwyll am un ffurf arall; Wrth hynny y mae i ni ddyſgu, na bô rhaid i ni bob dydd ar bob tro a phob amſer ymegnio ar ddwyn gweddiau newydd gyda ni; ac na bydd ein gweddi ddim gwaeth, nac yn anghymmeradwy gan dduw er mynyched yr adroddir yr un ffurf ar eiriau, drwy na bo dim mewn ffordd arall yn ddiffygiol. Ac wrth hyn y gwyddom fôd y weddi ſanctaidd hon wrth fodd yr Arglwdd, a pho mynychaf y dywedir hi trwy râs a ffydd yn ein calonnau, mwyaf

fydd

fydd ein clod, a'n budd, a chyffur ein heneidiau.

Megis ac y dyscodd Joan i'w ddiscyblion. Felly y bydd siamplau gwyr da yn cyffroi ein meddyliau. Yn athrawiaeth Joan y mae r ddysceidiaeth Gristianogaidd hon yn dechreu; Tystiolaethasei Joan am yr Jesu, ac y mae r Jesu a'i ddiscyblion yn dwyn tystiolaeth iddo ynteu. Yr oedd y discybl yma yn gweled yn dda, ddarfod i Joan ddyscu iw ddiscyblion weddio, A hynny y barodd iddo geisio gan yr Jesu yr un peth; Hynny a wnaeth i'r Jesu yr ail waith Draddodi i ni hyn o ddysceidiaeth am weddio. Hwy y pery gweithred nag ymadrodd; Gwell y cofir y peth a wnelir, nac a ddywettir.

Am y gweddiau, y sut a'r modd, a ddyscodd Joan f ai hanghofiwyd hwy er ystalm; nid oes mo'i llûn na'i hanes mewn llyfr na lle yn y byd. Gwedi i'r Jesu ddyscu i ni ei weddi gwbl-berffaith ei hun, nid oedd raid wrthi mwyach. Ni fydd mor ymorol am ganwyll ar ôl codi r haul o'r vchelder; Felly y mae Christ ei hun yn dywedyd am Joan, *Efe oedd ganwyll yn llosci, ac yn goleuo. Ioa.* 5. 35. A'r Propwhyd yn galw Christ yn Haul Cyfiawnder. *Haul Cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, a meddeginiaeth yn ei escyll. Malac* 4. 2. A'rhan nid anhynod o'r feddeginiaeth y ma yw'r ddyscei

ddyſcei diaeth hon o weddio. Canys drwy hyn y mae ini gael gan Dduw y pothau y fyddont anghenrheidiol. A gweddi y cyfiawn vn o eſcyll Haul cyfiawnder yw; Aden i'r enaid, ar yr hon y mae iddi eſcyn i'r nefoedd, ac ymddangos gar bron gorſedd famigc y goruchaf.

Preg. II.

Pan weddioch dywedwch, &c.

Y Diſcybl yn ceiſio dyſgu gweddio, a'r Jeſu yn peri i ni ddywedyd. Ai nid ydyw gweddio ond dywedyd. Yw yr ymarfer duwiol hyn ddim amgen na thafodd, leferydd na llafur genau? Na atto Duw i ni dybied hynny. Lleiaf peth mewn gwir weddi ydyw'r ymadrodd; fel y dywedais o'r blaen, y pliſgyn yn vnig. Meddylfryd y galon ocheneidiau annrhaethadwy'r Yspryd, dyna'r gweddiau y mae Duw yn eu derbyn;. Heb y rhain nid yw dywedyd ond gwaith ofer. Enaid gweddi y dyw ffydd, ar ymadrodd megis corff iddi. Yr vn ffunyd a chorph heb enaid, y bydd aberth y gwefuſau heb ddeiſyfiadau da y mae ffydd yn peri i'r galon. Y galon y mae

fydd ein clod, a'n budd, a chyſſur ein heneidiau.

Megis ac y dyſcodd Joan i'w ddiſcyblion. Felly y bydd ſiamplau gwyr da yn cyffroi ein meddyliau Yn athrawiaeth Joan y mae 'r ddyſceidiaeth Griſtianogaidd hon yn dechreu; Tyſtiolaethaſei Joan am yr Jeſu, ac y mae 'r Jeſu a'i ddiſcyblion yn dwyn tyſtiolaeth iddo ynteu Yr oedd y diſcybl yma yn gweled yn dda, ddarfod i Joan ddyſcu iw ddiſcyblion weddio, A hynny y barodd iddo geiſio gan yr Jeſu yr un peth; Hynny a wnaeth i'r Jeſu yr ail waith Draddodi i ni hyn o ddyſceidiaeth am weddio. Hwy y pery gweithred nag ymadrodd; Gwell y cofir y peth a wnelir, nac a ddywettir.

Am y gweddiau, y ſut a'r modd, a ddyſcodd Joan ſ ai hanghoſiwyd hwy er yſtalm; nid oes mo'i llûn na'i hanes mewn llyfr na lle yn y byd. Gwedi i'r Jeſu ddyſcu i ni ei weddi gwbl-berffaith ei hun, nid oedd raid wrthi mwyach. Ni fydd mor ymorol am ganwyll ar ôl codi 'r haul o'r vchelder; Felly y mae Chriſt ei hun yn dywedyd am Joan, *Efe oedd ganwyll yn lloſci, ac yn goleuo.* Ioa. 5. 35. A'r Propwhyd yn galw Chriſt yn Haul Cyfiawnder. *Haul Cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, a meddeginiaeth yn ei eſcyll.* Malac 4. 2. A'rhan nid anhynod o'r feddeginiaeth y ma yw 'r ddyſcei

ddyſcei diaeth hon o weddio. Canys drwy hyn y mae ini gael gan Dduw y pothau y fyddont anghenrheidiol. A gweddi y cyfiawn vn o eſcyll Haul cyfiawnder yw; Aden i'r enaid, ar yr hon y mae iddi eſcyn i'r nefoedd, ac ymddangos gar bron gorſedd famigc y goruchaf.

Preg. II.

Pan weddioch dywedwch, &c.

Y Diſcybl yn ceiſio dyſgu gweddio, a'r Jeſu yn peri i ni ddywedyd. Ai nid ydyw gweddio ond dywedyd. Yw yr ymarfer duwiol hyn ddim amgen na thafodd, leferydd na llafur genau? Na atto Duw i ni dybied hynny. Lleiaf peth mewn gwir weddi ydyw'r ymadrodd; ſel y dywedais o'r blaen, y pliſgyn yn vnig. Meddylfryd y galon ocheneidiau annrhaethadwy 'r Yspryd, dyna'r gweddiau y mae Duw yn eu derbyn;. Heb y rhain nid yw dywedyd ond gwaith ofer. Enaid gweddi y dyw ffydd, ar ymadrodd megis corff iddi. Yr vn ffunyd a chorph heb enaid, y bydd aberth y gwefuſau heb ddeiſyfiadau da y mae ffydd yn peri i'r galon. Y galon y mae

Duw yn ei cheiſio gennim, yn ei gweled ac yn ei chlywed. Ac fel y mae Duw yn edrych ar y galon yn bennaf; felly y neb a fynnei fod yn gymeradwy gan Dduw, a gweddio fel y dylai, a ddylai yn anad dim fod yn ofalus am y galon, a pha fath feddyliau, a pha fath ddeiſyfiadau y delo 'i ymddangos ger bron Duw. Ni waeth pa beth a ddyweto oni bydd y galon yn cydſynied. Y mae modd ini weddio heb ddywedyd gair o'n genau, nid amgen, trwy dderchafiad y meddwl hyd at Dduw: Yr hon y mae 'r Diſinyddion yna ei galw, *Oratio mentalis.* Fel hyn yr oedd Hamah yn gweddio ac Eli yn dal ſylw arni gan dy bied ei bod hi gwedi meddwi. *Ac yr oedd hi yn chwerw ei henaid, ac a weddiod ar yr Arglwydd, a chan wylo hi a wylodd. A bu fel yr oedd hi yn parhau yn gweddio, (neu amlhau gweddio) ger bron yr arglwydd, i Eli ddal ſylw ar ei genau hi, A Hannah oedd yn llefaru yn ei chalon, yn unig ei gwefuſau a ſymmudent, ai llais ni chlywid.* 1. *Sam.* 1. 10. 12. 13. Yr vn modd y gweddiodd Nehemiah o flaen Artaxerxes. Efe a weddiodd ar Dduw pryd tra r oedd yn ym ddiddan a'r brenin. *A'r brenin a ddywedodd wrthif, Pa beth yr wyti yn ei ddymuno? Yna y gweddiais ar Dduw y nefoedd. A mi a ddywedais wrth y brenin. Neh.* 2. 4. 5. Ac ar hyn y mae y rhan fwyaf a'r oreu o'r gwaſanaeth hyn yn ſefyll. *Ysbryd yw Duw, a rhaid ir rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionned. Joa.* 4. 24. *A'r hwn*

ſydd

ſydd yn chwilio y Calonnau a wyr beth yw meddwl yr yspryd. Rhuf. 8. 27. A rheſwm iddo wybod y meddyliau, y mae efe ei hun yn peri in calonnau. Yn yr yspryd a'r galon yn vnig y mae chwilio am weddiau ysprydol, yr aberth gymmeradwy gan Dduw.

Onnid ni weſneith hyn bob amſer, Nid yw hyn, meddaf, ddigon, llefaru neu weddio yn y galon yn vnig. Oblegid rhaid i ni ogoneddu, addoli, a gwaſanaethu Duw a'n cyrph a'n lleiſiau, a'n taſodau. Y mae Duw yn disgwil moliant ac anrhydedd oddiwrth ein genau hefyd. Ac yn yr Eglyws, gydac eraill, rhaid ini weddio er adailadaeth felly gallai 'r boble ddyſgu a chydweddio; Yr hyn nid yw boſſibl heb wrando a deall ein gweddiau. Am hynny y mae 'r Apoſtol yn dywedyd, *Mi a weddiaf a'r Yspryd, a chan weddiaf a'r Deall hefyd.* 1. *Cor.* 14. 15. Ac er na bo neb arall yn breſennol, buddiol ei ddyn glywed ei lais ei hun yn gweddio: Yn gymmanit a bod y llais yn cynhyrfu 'r yspryd, ac yn peri iddo yſtyried a deallt, eu ddeiſyfiadau eu hûn yn well, a bod yn wreſoccach i'r gwaſanaeth.

O herwydd hynny, ymwrandewch ar orchymyn yr Arglwydd, Pan weddioch, dywedwch. Gweddio ſydd raid cyn dywedyd dim; Rhaid i'r galon fod o flaen y genau: Yſtyried a myſyrio pa beth a pha fodd y dywedwch yn emwedig a chwi yn

dywedyd o flaen ac wrth yr Arglwydd eu hun. *Na ſydd ry bryſur a'th enau, ac na fryſied dy galon i draethu dim ger bron Duw: Canys Duw ſydd yn y nefoedd, a thitheu ſydd ar y ddaiar; Ac am hynny bydded dy eiriau yn anaml. Preg.* 5. 2. Ac am hynny bydded pob gair yn ei le, ar ei olwyn. *Dihareb.* 25. 11. gwedi ei bwyſo, ei dreſnu a'i oſod yn ei le ei hun. Mor ofalus y dylai pob enaid dyn fod, pa beth, a pha fôdd y dywetto ger bron Duw, rhag iddo ddigio wrthym, a dywedyd mai aberth ffyliaid yr ydym yn ei roi iddo. Ac fel y gorchymynnodd yr Arglwydd i'r Offeiriadau meibion Aaron gynt, chwilio 'r aberthau, rhag bod dim anaf arnynt, ac i'r bobl oll, na aberthent ddim, na fyddei berphaithgwbl, dim a fyddei anaf arno: Felly y dylem nynneu ſynied am ein haberthau yſprydol, chwilied ein meddyliau, a phwyſo ein geiriau cyn dechreu gweddio, rhag bod bai yn y byd arnynt. *Paham y digiai Duw wrth dy leferydd? Pregeth.* 5. 6. Yn arwydd o'r hyn beth y cifrifid yn aflan wrth y gyfraith honno Bob anifail in chnoe ei gil; Ac felly yn ddiamnau y mae pob enaid ger bron Duw, yr hwn nid yſtirio yn ei galon, ac ni chnóo ei gil, trwy fynych tyfyrio ar y peth y fyddai raid iddo ddeifyf ar law Duw, a phaa fodd y byddai raid iddo dreſnu a thraethu ei ddeiſyfiad. O herwydd o ddyffyg cyfryw yſtyried y mae cymmaint o bechodau

chodau ac o amryfuſeddau, ie, yn ein gweddiau, a chynnifer o aberthau ffyliaid yn ein Eglwyſi O herwydd hyn y mae 'r ſcrythur lân mor ofalus yn ein hannog ni i yſtig fyfyrio, ac i ddifal y ſtyried beth a ddylem ni ei wueuthur yn y gorchwyl yma i geiſio ein hachub ni oddiwrth y perygl y mae eiſieu yſtyried a myfyrio yn ein tywys ni iddo, hynny yw digoſaint Duw, rhag iddo ef ddigio wrth ein lleferydd. Ac fel hyn wrth y gorchymmyn yma chwchwi a welcwh beth yw gweddio; gwaith nid y genau ond y galon. Derchafiad y galon tuag at Dduw, Derchafiad y llais neu 'r lleferydd ar ol y Galon. Nid yw gwaith y tafod ddim heb y galon, na gwaith y galon cyſtal heb ei ddatcan ar lleferydd.

Ond ymmellach y mae i ni ddyſcu wrth yr vn gorchymyn.

(1.) Bod yn rhaid i bob Chriſtion ymarfer a rhyw ffurf iawn ſanctaidd ar weddio, megis ac a gadawod ein hiachawdr i ni battrwn o hynny yn y weddi yma. Yn yr hon y mae i ni ganllyn y ſut a 'r defnyd a 'r Arglwydd gwedi goſod o 'n blaen ar fyrr eiriau 'r oll bethau ddylem ni eu gofyn ar law Duw, a 'r modd y gofynnem. Nid ellir gofyn dim y chwaneg nac a gynhwyſir ynddi; Ond am y geiriau fo a ellir ychwanegu attynt hwy, fel y trefno 'r yspryd y deiſyfiadau, ac fel y rhotho 'r un yſpryd yr ymadrodd

drodd: Ni a ŵyddom fod Chriſt ei hun yn gweddio mewn amrhyw foddion eraill, ag ir Apoſtolion ymarfer a gweddiau eraill: ac etto ni cheiſiaſant erioed ddim amgen nag y ſydd wedi ei gynnwys yn y Pattrwn yma.

A hyn, ſef ymarfer a ffurf oſodedic a'r weddio ſydd fuddiol ac anghenrheidiol i ni. Canys Duw ei hun a ordeiniodd hynny, yr hwn nid yw yn gorchymyn dim anfyddiol, nac yn ofer. Efe a ddyſcôdd feibion Aaron a pha fâth eiriau y bendithient y bobl. *Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, gan ddywedyd, fel hyn y bendithiwch feibion Iſrael, gan ddywedyd wrthynt. Bendithied yr Arglwydd di &c. Num. 6. 23. 24.* Efe a ddyſcodd i'r Prophwyd ſcrifennu pſalm odidawg oſodedic iw ganu neu iw arfer ar y dydd Sabbath: *megis ac a'r arwyddoccair i ni wrth ditl y pſal. 92. Pſalm neu gân ar y dydd Sabbath* Je'r pſalmau, o'r rhan fwyaf gweddiau goſodedic ydynt oll, gwedi eu goſod ir Eglwys tros byth iw hymarfer.

Buddiol (ie) anghenrheidiol i ni gael ein dyſcu fel hyn, o ran ein hamryw ddiffygion yn gweddio, Dallnieb ac anwybodaeth ein deall, ysgafnder ac anwadalwch ein meddyliau, Angof am orchymynion Duw a'i Addawiadau, Anhyder, a gwawgred ein caſonnau: Bloeſgni ein tafodau Dynion dienwaededic o wefuſau, llwch a lludw, anheilwng i letaru wrth yr Arglwydd, oni buaſei iddo ef ein dyſcu ni yr hyn addyw-

edem.

edem. A Moſes yn ei eſcuſodi ei hun am nad oedd efe ŵr ymadroddus i leſaru wrth y bobl, ond ſafn-drwm, a thafod-trwn. *Exod.* 4. 10. Pa ddŷn a gymmerai arno leſaru wrth Dduw, oni bai iddo addaw, i bob diſcybl megis ac y'r addawodd i Foeſen, *Dos yr awr, a mi a fyddaf gyda 'th enau, ac a ddyſcaf i ti ŷr hyn a ddywedych. Exod.* 4. 12.

A hynny a barodd i Eglwys Dduw o'r dechreuad hyn, yn hyn a'r ol ſiampl ei Harglwydd ddyſcu i'r bobl ffurfau goſodedic, ac i Gwnſlyau cyffredinol, ordeinio, na chymmerai neb arno arfaethu gweddion eraill ond yn unig y rhai profedic, lywfiedic gan yr Eglwys.

(2.) Y mae i ni gydnabod wrth y gorchymyn, fod y weddi ſanctaidd hon yn gwbl-berffaith, yn blaenori ar bob gwaith creadur yn y byd, ni fu erioed, ac ni budd fyth mo'i math, na'i thebyg: Gwaith doethineb Duw ei hun ydyw. Mab Duw, Doethineb y Tâd a'i haddyſcodd i ni.

Ac yn hyn yr amlygir ei rhagoriaeth. (1.) Yn ei byrder cynhwyſol: yn cynnwys cymmaint o anfeidrol ddefnyd ar ychydig eiriau. Felly y bydd ein gweddiau ninneu yn fwy rhagorol ac yn gymeradwy gan Dduw, pan fo mwy yn y galon nac yn y genau; Y galon yn helaeth tuac atto, a'r geiriau yn anaml. Yn ôl cyngor y Pregethwr. - *Duw ſydd yn y nefoedd, a thithau ar y*

y ddaiar

y ddaiar; *Am hynny bydded dy eiriau yn anaml. Preg.* 5. 2.

(2.) Yn ei pherffeithrwydd, yn cynnwys yr ôll bethau anghenrheidiol i ni weddio am danynt. O ba achos y mae Tertullian yn ei galw *Breviarium Evangelij*, *Cynheyſiad yr Efengyl.*

(3.) Yn ei threfn a'i hyfforddrwydd, yn dangos i ni jawn rill ein deiſyfiadau.

(4) Am ei bod hi yn gymeradwy gan Dduw, ſef, gweddi ei anwyl Fab, yn yr hwn y bodlonwyd efe.

Nedwch gan hynny fod y weddi ſanctaidd berffaith hon yn ddibris gennych, ond yn hytrach myfyriwch ynddi ddyd a nôs. Nac anghofiwch mor anghenrhaid ac mor bwys fawr yw ei hyſtyried yn ddwys ac yn fynych. (1.) Byddod hyſbys i chwi yn gyntaf mai rhaid i ni weddio, yn gyſtal er gwaſanaeth i Dduw, ac er ein llés ein hunain. Nac anghofiwch fel y mae 'r yſpryd glân yn rhoi ar lawr megis yn brif nôd ar golledigion, *Ni alwant ar yr Arglwydd: Pſal.* 144. Or tu arall ſe addawodd Duw. *Pwy bynnac a alwo ar enw 'r Arglwydd cadwedic fydd. Rhuf.* 10. 13. Y mae'n ddiau, y neb ni wnêl gydwybod o'i ddyled i weddio nâd oes mo râd yr yspryd glan ynddo ef. Canys yspryd y Grâs a Gweddi ydyw yr un. *Zech.* 12. 10. Ac am hynny y mae grâs a gweddi yn myned ynghyd. Ond yr hwn a fedro

weddio

weddio ar Dduw a chalon edifeiriol, diogel ei fod yn cael ei feſur o râd yn y byd hwn, ac y caiff ei ran o'r gogoniant yn y byd ſydd i ddyfod.

(2.) Ac yn ail, wrth weddio na ddirmyged neb ddyſceidiaeth yr Arglwydd, nac eſceulyſed y geiriau bendigedic, y rhai a ddyſcodd Duw ei hun i ni; drwy eiriau ei fab. *Y neb a ddirmygai gyfraith Moſes a fyddei farw heb drugaredd tan ddau, neu dri o dyſtion. Heb.* 10. 28. *Pa faint mwy coſpedigaeth, dybygwch chwi, y bernir haeddu o'r rhain a gablant eiriau râb Duw*, ac a fo 'n ddiyſtyr ganddynt y gorchymmyn yma, a hynny yngolwg y byd? O fy mrodyr! na fyddwn mor anniolchgar i Grift Jeſu, ŷmbaratown i ddyſcu ſy peth y mae efe yn ei orchymyn, a dyſcwn nid y geiriau yn unic, ond y pwys a'r defnydd ſydd ymmhob un o'i eiriau bendigedic, fel y gallem ni weddio nid fel y Papisdiaid, neu Farbariaid heb wybod pa beth y maent yn ei ddywedyd, ond fel Chriſtianogion deallus, diſcyblion Jeſu Grift, yn yſtyried meddwl yr yspryd, a'r holl bethau a archymynwyd i ni weddio amdanynt yn hyn o eiriau: Ac fel y gallo pob un ddywedyd gyd a'r Apoſtol, Mi a weddiaf a'r yſpryd mi a weddiaf a'r deal hefyd.

Preg. III.

Ein Tad, &c.

Y Trydyd peth yw 'r weddi ei hun ; Yn yr hon y mae i ni yſtyried.

(1.) Y rhagymadrodd, yn yr hwn yr ysbyſir i ni ar bwy y mae i ni weddio, *Ein Tâd*, &c.

(2.) Y Gofynniadau, yn dangos ac yn cynnwys pa bethau y mae i ni weddio amdanynt.

(3.) Y Diwedd, yn dangos ein dyledſwydd, nid amgen, rhoi moliant i'n Tâd nefawl am yr ôll bethau daionus yr ydym yn eu gofyn a'u cael ar ei law.

Hæc partitio nos admonet &c. Ac y mae'r *do-ſparthiad ymma yn ein hannog, na ddylem, pan dde-ſlom i weddio mewn yſpryd a gwirionned, ruthro i ſmewn yngwydd yr hollalluog yn anghymmedrol, gan ſddywedyd yn ddiatreg, Dyro i mi hyn a'r llall, ond ſdyfod atto gyda pharch a goſtyngeiddrwydd, megis ſplant ufydd, at y Duw mawr ofnadwy, a'n Tâd ne-ſfawl anrhydeddus.*

A meddyliwn ei fod yn Dad i ni mewn dwy ffordd. (1.) Wrth Greedigaeth. (2.) Wrth fabwys neu ail enedigaeth.

Yr Arglwydd ein gwneuthurwr *Pſal.* 95. 6.

Dy

Dy ddwylo a'm gwnaethant ac a'm lluniasant. Psal. 119. 73.

Duw ein Creawdwr yw ein prif dâd ni ôll; A'n tadau cnawdol megis periannau iddo; Trwyddyn thwy y mae efe yn ein crêu ac yn ein porthi. Ni allant hwy ddim o honynt eu hunain, ond a wnêl Duw ei hun trwyddynt hwy.

(1.) A'r enwad ymma a gymmerir weithiau yn sylweddol am y tri pherson, y tâd, a'r mab, a'r yspryd glân. Yngheiriau Moses wrth bobl Israel. *Ai hyn a dalwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac anghall? Ond efe yw dy Dâd a'th brynnwr? Ond efe a'th wnaeth, ac a'th siccrhaodd? Deut.* 32. 6.

(2.) Weithiau yn bersonol, am bob vn o'r tri.

(1.) Am y cyntaf, yr hwn a elwir y Tâd yn briodol. Megis yn gweddi 'r Jesu. *I ti yr ydwyf yn diolch o Dâd, Arglwydd, nef a Daiar. Matth.* 11. 25. *Je o Dâd.* v. 26. *Fy nhad os yw bossibl aed y Cwppan hwn heibio oddiwrthif. Matth.* 26. 39.

(2.) Am yr ail; Crist a elwir *Y Tád tragwyddol; Esa.* 9. 6. O herwydd ei fod efe yn ein hadgednhedlu ni tan y Testament newydd; a thrywyddo ef yn gwneid ni'yn blant i Dduw. *Welesi a'r plant a roddes yr Arglwydd i ni yn arwyddion, ac yn rhyfeddodau yn Israel; Esa.* 8. 18. Y tâd yw, y'r hwn piau 'r Plant; a hwnnw yw Christ, megis ac y

mae St. Paul yn ei eſponio. *Hebr.* 2. 13. (3.) Am y trydydd; Yr yſpryd ynteu a elwir yn Dad; Canys yr vn Duw ydyw o'r hwn y mae pob Creadur; ac yn enwedig am fod y'r Scrythur lân yn tyſtiolaethu mai o'r yſpryd y genir bob vn ar ſydd yn myned i mewn i deyrnas Dduw- *Joh.* 3. 5.

Ond y mae ein iachwdr yn ein dyſcu i gyfeirio ein gweddiau at y perſon cyntaf yn y Drindod, ei Dâd ei hun a'n Tâd ninneu Chriſt a elwir yn Fab Duw, megis ac y dywedodd yr archangell wrth Fair. *Luc.* 1. 33. (1.) O ran naturiaeth; O herwydd ei genhedlu ef o ſylwedd a naturiaeth ei Dâd, fel y mae yn Dduw. (2.) Drwy rad yr vndeb berſonol, fel y mae yn Ddyn. Felly y mae efe yn Dâd i ninneu, nid yn vnig am iddo ein gwneuthur a'n ſicrhau; Ond drwy Fabwys a rhâd hefyd yn Ghriſt Jeſu. *Pan ddaeth cyflawnder yr amſer Danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur tan y Ddedhf. Fel y prynei y rhai oedd tan y ddeddf, fel y derbyniem y Mabwyſiad. Ac o herwydd eich bod yn Feibion, yr anfonodd Duw yſpryd ei Fab yn eich Calonnau chwi yn llefain, Abba, Dâd: Felly nid wyt ti mwy yn was ond yn Fab: Ac os mab, etifedd hefyd, i dduw trwy Ghriſt. Gal.* 4. 5. 6. 7. *A'r gras hyn ſydd gwedi ei roi i chwi, a'i dderbyn genych, er pan gredaſoch. Canys chwi oll ydych blant i Dduw drwy ffydd yn Ghriſt Jeſu. Gal.* 3. 26.

Doethnieb mawr a pheth anrhaethol i gryf-

gryfhaû ffydd Criſtion yw myfyrio am Griſt yw gwybod, wrth pa enw y mae galw ar Dduw. (1.) A hyn y mae Criſt yn ei ddyſgu i ni yn y gair cyntaf; Mai at Dduw yn vnig y cyfeiriem ein Gweddiau, nid at Angylion, Sainct, nerthoedd, &c. *Ond myfi, fyngweddi ſydd attati, O arglwydd. Pſal.* 69. 13. Y tri Pherſon ynghyd, At y Tâd, ymghyfryndod y Máb, drwy gynnorthwy 'r Yſpryd glân.

(2.) Yn hyn y mae i ni ddyſgu y rhagor ſydd rhwng Griſtianogion gwedi dyfodiad Chriſt i'r byd, a'r Iddewon o'r blaen. *Judæus, ut ſub lege ſervus, doctus erat Dominum appellare; Chriſtianus ſpiritu adoptionis donatus clamat, Abba Pater. Gal.* 4. 6. Yr Iddew, megis, caethwas tan y ddeddf, a ddyſcwyd iw, alw ef yn Arglwydd. Ond y Criſtion, a dderbyniodd yſpryd y mabwyſiad wrth ddyſceidiaeth yr un yſpryd, yn llefain Abba Dâd. Yr Iddew gynt yn gyfattebol iddo, megis; i Arglwydd taer wrth gyfammod gweithredoedd: Y Criſtion drwy gyfryngwr cyfammod gwell, gwedi ei oſod ar addewidion gwell. *Heb.* 8. 6. Yn gyfattebol iddo megis i Dâd graſuſol.

(3) Yn hyn y mae Chriſt yn yſpyſu i ni ei râs a'i ddaioni, ai gariad tuag attom, ei fod yn draewyllyſgar ac yn barottaf i'n cymmorth a'n cymmorthwyo yn ein ing a'n adfyd. Ac wrth hynny, a pha fáth

gariad

gariad ac ufydddod a diolchgarwch y dylem ddyfod atto ef: Megis plant anwyl at eu Tâd grafufol, yn enwedic mewn gweddiau gan gymmedroli ein geiriau a'n ymarweddiad o'i flaen gyda pharch, a goftyngeiddrwydd, duwiol driftwch am bechodau, llawnfryd edifeirwch, ac adnewyddiad bychedd.

(4.) Oddiwrth ei gariad, fel y mae yn Dád, y mae i ni hyder ffydd a gorfoledd ein gobaith, a ddylei ymddangos yn ein gweddiau yn arbennig. Canys gwedi ein cyfiawnhau drwy ffydd (hynny yw, gwedi ein gwneuthur yn blant wrth dderbyn yfpryd y mabwyfiad yn Ghrift) y mae gennym heddwch tuagat Dduw, a thrwy hynny ddyfodfa, fel y gallom nefaû a chalon gywir mewn llawn hyder ffydd. *Heb.* 10. 22.

(5.) *Meminiſſe itaque & ſcire debemus, quia quando Patrem Deum dicimus, quaſi filij Dei agere debemus; Ut quomodo nobis placemus de Deo Patre ſic ſibi placeat & ille de nobis filijs. Cyprian.* Gwyddwch gan hynny a meddyliwch y rhái ydych yn eich gweddiau yn galw Duw yn Dâd, y dylech ymddwyn megis plant iddo ef: Fel megis ac yr ydych chwi yn ymffroftio ac yn gorfoleddu yn Nuw, am ei fod yn Dâd i chwi, felly y gallai ynteu ymfodloni ynnoch chwithau megis plant ufydd, anwyl a diolchgar.

Nullum

Nullum Elogium, quo Dei bonitas commendatur ita convenit creaturis ut elogium Patris. Complectitur enim omnia Dei beneficia. L. Bru in Ma. Nid oes un gair o glod iw ddaioni gymmwyſach i'r neb a fyddo ar fedr gweddio, na'r hwn yma *o Dâd*: Yn gymmaint ai fôd yn amgyffred oi holl ddoniau.

Yr enw hwn a'n dyſc ni. (1.) Fod yr holl ddoniou a dderbyniom gan Ddduw yn dyfod yn unig oddiwrth ei Dadol gariad ef. (2.) Y dylem ni ei garu ynteu eilwaith megis eu blant anwyl. (3.) Y gallwn ni yn ein oll anghenion a'n trallod alw arno yn hyf, megis ar Dád am ei gymmorth a'i ymwared. Mal hyn ni ddylem ni grybwyll am y ſanctaidd enw yma; ni byddei hynny yn dwyn ar goſ i ni ei ddaioni ef tuag attom, a'n dyledion ninneu, tuag atto ynteu.

Myſyrio ac jawn ſynnied o'r pethau hyn a faga ynghalon dyn gariad, ofn, ac ymddiried yn Nuw, a gofal iw waſanaethu. Canys medd Duw ei hun. *Os ydwyfi Dad, pale y mae fy anrhydedd? Os ydwyfi feiſtr, pale y mae fy ofn? Mal.* 1. 6. *Canys mab a anrhydedda ei Dad.*

Hyn a faga ynom ewellys i fod yn debyg iddo. Mâb a fyn fod yn debyg iw Dâd. Am hynny y mae 'r Apoſtol yn ein hannog. *Byddwch ddilynwyr Duw, fel Plant anwyl. Epheſ.* 5. 1. Ar hyd ei ffyrdd a'i weithredoedd y mae i ni ddilyn Duw. Cyn belled ac y bôm yn

gwneuthur

gwneuthur ar ôl Duw, mewn Daioni, cariad, cyfiawnder, trugaredd, &c. cyn belled a hynny yr y dym yn blant iddo.

Eifiau yftyried y pethau hyn fy'n peri i lawer wnevthur eulun o'r gwir dduw, a chymeryd arnynt weddio fel y cenhedloed, ni wyddent amcan ar bwy, na pha fodd y cânt dderbyn y pethau y maent yn eu ceifio.

A hyn yw'r achos, pa ham y mae cynnifer yn proffeffu pob rhan arall o grefydd Dduw mor mharchus ac mor rhagreithus. Lle pe adnbyddent yn union, ac yftyrient yn ddyfal ni feiddient amgen, na ddeuent iw wafanaeth ef. A chwedi dyfod ei wafanaethu mewn ofn ac anrhydedd. O eifiau yftyried hyn y mae ein gweddiau yn anghymeradwy yn anffrwythlawn. *Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn o herwydd eich bod yn gofyn ar gam. Iac.* 4. 3. Nid ydych yn meddwl, mai Tâd y goleuni yw efe, oddiwrth ba un y difcyn pob rhodiad daionus a phob rhodd berffaith. *Iac.* 1. 17. Nid ydych yn yftyried pa fath Dád haelionus ydyw efe.

Tâd y goleuni, O blegid ei fôd yn trigo yn y goleuni ni ellir mor dyfod atto. 1 *Tim.* 6. 16. Ac efe fydd Awdur nid yn unig o oleuni rhefwm naturiol, a grâs goruwchnaturiol, yr hwn fydd yn goleuo pob dyn, a'r fydd yn dyfod i'r byd. *Ioa.* 1. 9.

Yr ydym ni cyhyd gyd a Chrift heb ei adnabod

adnabod fel y mae yn dywedyd wrth Philipp. *Joan.* 14. 9. Cyhyd yn proffeſſu ffydd Griſt, yn gweddio a galw ar y Tâd heb ei adnabo. Canys nid edwyn neb y tâd, ond yr hwn ſydd wir-blentyn iddo ac a'i caro. A pha fodd y geill dyn yn y byd ddewis na charo ef, gan ei fôd yn Brif-ddaioni, pes adwaenai ef? Gan weled fôd natur Duw yn hudo dynion i garu ei ddaioni. A phwy bynnac a garo ddim yn fwy na'i Dâd nefawl, nid yw deilwng o honno ef, Nid yw deilwng, nid yw gymmwys iw alw ef yn Dâd.

Y neb gan hynny a chwennycho, fel yr oedd Philip, gael gwir-wybodaeth am y Tâd, rhaid iddo ddyſcu ei adnabod ef drwy gariad, a chariad a adwaenir wrth gadw y gorchymynion. *Yr hwn ſydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn ſydd yn fy ngharu i: a'r hwn ſy'n fyngharu i a gerir gan fy nhad i: A minneu a'i caraf ef ac a egluraf fy hun iddo. Joan.* 14. 22.

Anwylyd, Carwn ei gilyd: O blegid cariad, o Dduw y mae; a phob un uc ſydd yn cary o-dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. 1. Joan. 4. 7.

Felly 'r yddym'yn adnabod y Tâd, o herwydd ein geni o honaw ef, a'n bod ni yn blant iddo: Nyni a wyddom ein bod yn blant iddo, a'n geni o honaw, am ein bod yn

ei garu; Ac yn hyn y gwyddir ein bod ni yn ei garu, oblegid ein bod ni yn cadw ei orchyminion.

Pob gwybodaeth, oddi eithr gwybod pa fodd y cerir y Tâd, ac y gwaſaneithir iddo mewn yſpryd a gwirionedd, nid yw ddim ond gwagedd o wagedd, a blinder y byd. Ond yn y wybodaeth hon o honaw ef, *beth bynnac a ofynnom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef; o blegid ein bod yn cadw ei orchyminion ef, ac yn gwneuthur y pethau ſy'n rhyngu bodd yn ei olwg ef.* 1. *Joa.* 3. 22.

Ennyn gan hynny, O Dâd tragwyddol, dy gariad dy hun yn ein heneidiau, yn enwedig gan ryngu bodd i 't yn ôl ein gwneuthur yn blant i ti drwy Fabwys ynghriſt Jeſu, gael o honom ein cyfarwyddo trwy wybodaeth dy râs i gymmun, dy ogoniant, yn yr hwn y mae ein prif. - Ddaioni a'n dedwydd fyd yn ſefyll. Canniadha hyn er cariad dy Fâb. &c.

PREG.

Preg. IV.

Ein Tad ni yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

YN y rhagymadrodd yma y mae Chriſt yn ein dyſcu ni. 1. Pan weddiom ar Dduw, ei alw ef yn *Dad*. Ac yn hynny, (fel y dangoſais) fôd llawer o dd y ſceidaeth i'n cyfarwyddo a'n cyſſuro; nid amgen. 1. Wrth hyn y mae Chriſt yn ein dyſcu ni Mai at Dduw yn unig, &c.

2. Wrth weddio, na ddylem ni bob un megis ar ei ben ei hun, neu troſto ei hun yn unig ddywedyd *Fy nhad*, ond yn hytrach *Ein Tad* ni, megis yn meddwl am ein brodyr, ac yn cydweddio a'r Sainct ôll.

Ac etto, nid yw hynny an ghyfreithlawn fef i bob un o honom o'r nailltu, ac ar ei ben ei hun gleimio 'r hawl, a'r uchelfraint hwn yn nailltuol, a dywedyd *Fy nhâd*. Canis felly y gweddiodd Criſt ei hûn. *Matth.* 26. 39. *Fy nhâd, os yw boſſibl, aed y Cwppan hwn heibio oddi wrthif.*

Ac os dywed neb, ei fôd efe yn *Dad* iddo ef mewn modd amgen nac i ni, ſef nid o *ras*, ond o *naturiaeth* yn cael ei hanfod o'r

Tâd, trwy genedliad tragwyddol; Mi a attebaf, nad yw hynny ddim yn ein herbyn. Canys yr un modd mae efe yn Dduw iddo ef ac i ninneu, ac etto y mae yn llefain ar y groes. *Fy Nuw, Fy Nuw, paham i'm gadewaiſt? Matth.* 27. 46. Yr un ffunyd y mae *St. Paul* yn proteſſu: *Yr ydwyf yn diolch, im Duw.* 1. *Cor.* 14. 18. A'r Prophwyd Davidd yn fynych. *O fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi. Pſal.* 22. 2. *Cyfot Arglwydd, achub fi fy Nuw. Pſa.* 3. 7. Ac Ezra. *O fy Nuw, y mae arnaf gywilydd, a gorchwyledd godi fy wyneb attati fy Nuw.* Ezr. 9. 6. A Nehemia, *Cofia fi, O fy Nuw, er lles i mi.* Nehem. 5. 9. v. 6. 14. &c.

Yr un modd y mae yn addas i ninneu trwy hyder ffydd. Bob un o honom ei briodoli ef iddo ei hun, a dywedyd, *Fy Nuw, Fy Nhad, fy Arglwydd*, &c.

Ond yn y weddi gyffredinol hon y mae Chriſt yn peri i ni ddywedyd *Ein Tad ni* er yowhaneg o ddyſceidiaeth.

1. Megis ac wrth ei alw ef yn *Dad*, nid ydym yn anghofio, na'r Máb, na'r yſpryd Glan, ond yn cydfeddwl am y tri Pherſon y Drindod Fendigedic ynghyd; Felly wrth ddywedyd *ein Tad ni*; Na ddylem ni fôd yn ofalus feddylgar am ein anghenrheidiau ein hunain; Eithr cydymofidiaw tros ein brodyr yr holl *Eglwys*, yn milwrio ar y ddaiar, a chyd feddylied am eu cyfreidiau a'u diffy-

gion

gion hwythau', a gweddio troſtynt. Ac nid yn unig eu cofio hwy yn ein gweddiau, gan ddwyn ewyllys da iddynt, ac erfyn troſtynt, eithr ymegnio hefyd yn ein gweithredoedd, a bod yn barod bob amſer i roi cais a'r wneuthur bob daioni iddynt. Yr hyn hefyd y mae St. Paul yn ein hannog iw wneuthur, *ſef na byddei anghydfod yn y corph, ſef Corph Chriſt, yr hwn ydych chwi, ac aelodau, o ran, Eithr bod i'r aelodau ofalu'r un peth tros ei gilydd.* 1. Cor. 12. 25.

2. Y mae 'r gair hwn yn dangos, pa feddwl a ddylem ni fôd ynddo pan weddiom: , ſef, a chariad berffaith yn ein calonnau *tuag at Dduw a Dynion.*

Y rhan gyntaf o'n cariad, tuag at Dduw a gynhwyſir yn y gair cyntaf, *Pater. Declarata Dei bonitate ad amandum Deum nos Chriſtus provocat.* Wrth ddatcan daioni Duw, ſel y mae efe yn *Dad*, y mae Criſt yn ein hannog i garu Duw. Y neb ni charo Dduw, pa fodd y geill efe fôd yn blentyn iddo? Y rhan arall o n Cariad, ſef, tuag at Ddynion ſydd gwedi ei gynnwys yn yr ail gair, *Noſter. Ein Tad Ni.*

Megis yr ydym yn cydnabod ei drugaredd tuag attom, ag yn gorfoleddu ynddi, ein bod ni i gyd yn blant i'r un *Tad*: felly ni a ddylem ymddwyn fel brodyr tuag at ei gilydd.

Byddwch ddilynwyr Duw fel Plant anwyl, A

rhodiwch

rhod wch mewn Cariad. Eph. 5. 1. Am ben hyn, medd St. Peter, *byddwch oll yn unfryd, yn cydoddef a'i gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaidd.* 1. *Pet.* 3. 8.

Charitas eſt quæ orationem Deo commendat. Cariad ſydd yn gwneuthur ein gweddiau yn gymeradwy ger bron ein Tâd nefawl, Fel y dywaid yr *Apoſtol* am ffydd; felly y dywedwn ninneu am gariad, *Hebdd hi amhoſſibl yw rhyngu bodd Duw. Heb.* 11. 6. *Duw ei hun cariad yw.* 1. *Joan.* 4. 8. A'r hwn nid yw *yn caru nid adnabu Ddaw: ac ni edwyn Duw mon o ynteu* ac ni chlyw mo'i lais yn gweddio, ac ynteu heb fôd cariad gantho.

Y mae ein jachawdwr yn dywedyd yn eglur, na bydd i ni fûdd yn y byd o'n gweddiau, oni bydd *cariad* gennym. *Matth.* 6. 15. *Oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad eich camweddau chwithau.* Ni fadd euir byth oni cherir; Ac oni faddeuir i ni ein camweddau, pa les a fydd i ni. *Pe lleſarwn a thafodau dynion ac Angylion, ac heb fod gynnif gariad, yr wyf fel efydd yn ſeinio, neu ſymbal yn tingcian: Nid wyfi ddim; Nid yw ddim lleſhâd i mi.* 1. *Cor.* 13. 1. 2. 3.

Ac yn hyn y mae ein goſtyngeiddrwydd yn ymddangos. Canys nid yw Cariad yn *ymſfroſtio*, nac yn *ymchwyddo. In hac nulla arrogantia, ſed humilitas major, ac fructus uberior. Ambr.*

Yn yr hon weddi a wneir trwy gariad, trwy

trwy feddwl am ein brodyr, ni fydd rhyfyg; ond y chwaneg o ufydhdod, ac wrth hynny ychwaneg o ffûdd. *Nam & pro mendico orat Rex, pro paupere locuples*, &c. Canys wrth ddywedyd hyn y mae 'r brenin yn gweddio tros ei weiſion, y Tywyſog tros ei ddeiliaid: Ac yn cydnabod ei bod hwy i gyd yn gydradd wrth eu galw hwynt yn frodyr.

A llawer a ddichon hyn tuag at attal *balchder*, ac helaethu *goſtyngeiddrwydd* ynom. A Chriſt yn peri ini i gyd, ddywedyd *ein Tad*, pa beth a adawyd i'r cyfoethog i orfoleddu ynddo mwy nac i'r tlawd? Mae i'r cerdotynt gyſtal hawl yn yr etifeddiaeth dragwyddol, ac i'r cyfoethoccaf yn y byd, Beth bynnag mwy. Canys y rhai ni fyddant *tlodion yn yr yſpryd*, ni chânt mor myned i mewn i deyrnas nefoedd. Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, *nad llawer o rai doethion yn ôl y cnawd, nad llawer o rai boneddigion a alwyd.* 1. *Cor.* 1. 26. *Gwrandewch, fy mrodyr anwyl, oni ddewiſodd Duw dlodion y byd hwn, yn gyfoethogion mewn ffydd; ac yn etifeddion y deyrnas, yr hon a addawod i'r rhai ſydd yn ei garu ef?* *Jac* 2. 5.

3. Y trydydd peth yn y rhagymadrodd yw, y dylem ni yſtyried *mai yn y nefoedd y mae ein Tâd, yr hwn yr ydym yn galw arno.* Nid fel pe bai ein Duw ni a'n Tâd netawl yn *gymhwyſedigaidd* yn un lle; O blegyd y mae efo i anher-

anherfynedig angyrhaedd yn llenwi y nefoedd a'r Ddaiar ac yn cynnwys bob lleoedd, heb ysbaid; lle', neu derfyn ni ddichon ei gynnwys ef; Ac heb fôd yn abſennol yn un lle, y mae yn breſennol ymmhob lle.

Nid ydym yn dywedyd. *Yr hwn wyt yn y nefoedd* pe bai efe ymmhell oddiwr thym: Canys, meddaf mae Duw ymmhob lle, ac ymmhob un o honom. Nid yw efe *yn ddiau* medd yr Apoſtol, *neppell oddiwrth bob un o honom. O blegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn ſymmud, ac yn bod. Act.* 17. 27. 28. Y mae pedair grâdd o Breſenoldeb Duw.

1. Y gyntaf ſydd *Enwedigol*, drwy 'r hon y mae Duw ym mhob lle, yn llanwedigaidd; eithr nid yn un lle yn Gynhwyſedigaidd.

2. Yr ail ſydd *Enwedigol*, drwy 'r hon y dywedir fôd Duw yn y nefoedd, megis yn y weddi hon, a llawer o fannau eraill, o herwydd bod yno ei allu, a'i ddoethnieb, a'i ddaioni mewn modd mwy rhagorol iw gweled a'i mwynhau; Ac hefyd o blegid oddi yno yn arferol y mae efe yn tywallt ei fendithion a'i farnedigaethau.

3. Y drydydd *mwy enwedigol*, drwy 'r hon y mae Duw yn Preſwylio yn ei Seintiau.

4. Y bedwerydd *mwyaf enwedigol a digyffelyb*, drwy 'r hon y mae cyflawnder y Duwdod yn *preſwylio ynghriſt yn gorphorol. Col.* 2. 9.

Am yr *ail* yn bennaf yr ydym ni yn meddwl

ddwl wrth weddio. Ac wrth ddywedyd hyn yn cydnabod.

1. *Ei dduwiol allu*, drwy ba un y dichon efe yn ddiattal wneuthur pa beth bynnac a ewyllyſio, ac a wna i ninneu yn ddiammau, pa beth bynnag a ofynnom ar ol ei ewyllys, ac a fytho er ein lles. Ni ettyl dim mo'i ddaioni a'i garedigrwydd fel y mae *yn Dàd* i ni, na dim ei Allu fel y mae yn y nefoedd.

2. Ei Ragddarbodaeth a'i ragluniaeth, ei fod efyn gofalu troſom, yn *gwybod ac yn gweled ein anghenreidiau cyn y gofynnom*, yn rheoli pob peth, ac yn arfaethu pob peth i bawb, yn enwedic iw Eglwys.

3. *Ei dduwiol ddoethineb*, yn gwybod yn hygall bob math a phob modd o ymwared ac a chubiaeth a fo rhaid i ni wrthynt.

4. *Ei Dduwiol Fawrhydi*, drwy 'r hon y mae yn teyrnaſu ac yn rheoli megis Arglwydd a Brenin ar yr holl greaduriaid: A Swydd neu frenhiniaeth, yr hwn ſy yn preſwylio yn y nef, ydyw. Gwrando gweddiau, gofalu tros ei eiddo, ei hachub, a'i garedu, fel y gwêl efe yn dda, ac yn fnddiol iddynt.

Swm y rhagymadrodd yw, jawn ſynied pa fodd y mae Duw yn Dâd i ni, ac yn y nefoedd; Ei Fawrhydi, a'i Ddaioni, Ei ewyllys da tuag attom, a'i allu i wneuthur erom; Dau Golofn *ffydd*; ar y rhain y mae

hi yn pwyſo, ac wrth y ddau ynghyd y mae i ni gyſſur a hyder, a ninneu yn ſefyll yn ddiſigl. Ni fyddein ni ddim gwell er ei *ddaioni* oni bai ei dduwiol allu i roi ini bethau da yn ddiattal: Ni fyddem ddim gwell chwaith er ei *allu* oni bai ei dadol ddaioni, a'i ymaſcaroedd yn toſturio wrth ein gwendid a'n gwaeledd: Oddiwrth y ddau y mae i ni hyder a chyſſur, y gwrendy ac y gwnâ y pethau a geiſiom yn gweddio.

Ac o hyn y mae i ni ddyſcu ymmhellach.

1. Jawn ſynnied o dduwiol Fawrhydi ein Tâd nefawl: Nid yn ôl y *gwrthgas* a'r *cablaidd drawsfeddyliau*, y rhai o naturiaeth y gyfodaut ym mhennau dynion: Megis a dychymygant fôd Duw yn debyg i hên ŵr yn eiſtedd mewn cadair; A bod y Drindod fendigedic yn debyg i'r eulun tri rhannog a beintiai y *pabyddion*, yn ffeneſtri eu heglwyſi.

Ni ddylem ni dybied fod y Duwdod yn *debyg i aur, neu arian neu faen o gerafidd celfyddyd a dychymmyg dyn. Act.* 17. 29. Na thybygwn ddim gwael daiarol (ar ôl dull y byd hwn) ond pethau nefawl yn unig a gogoneddus amdano.

Je, na dim arall yn y byd. Nid yw Duw debyg i ddim. *I bwy i'm gwnewch* yn debyg, *ac i'm cyſtedlwch, ac i'm cyffelybwch, fel y byddom debyg.. Eſaj.* 46. 5.

2. I ddeall y rhagoriaeth ſydd rhwng

eim

ein Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd a'n Tadau ar y ddaiar; Fel y mae Criſt eu hun yn eu goſod yn erbyn eu gilydd *Matth.* 23. 9. *Na elwch neb yn Dad i chwi ar y ddaiar: Canys un Tâd ſydd i chwi yr hwn ſydd yn y nefoedd.*

Duw yn unig ydyw ein Prif Dâd oll, ein hunig Dâd ar ôl perffeithrwydd *tadogaeth.* O'r hwn *yr henwir yr holl deulu*, (neu Dadogaeth) *yn y nefoedd, nc ar y ddaiar. Eph.* 3. 15. *Yndde ef yr ydym yn byw, ac yn ſymmud ac yn bod. Act.* 17. 28. Efe yw Awdr ein bywyd yn llunio 'r corph yn créu ac yn rhoi 'r enaid ynddo. Efe ſy'n ein porthi ein hymgeleddu, ein trîn, ein cadw. A thadau ein cnawd nid ŷnt yn gwneuthur dim i ni: oddiethr trwyddo ef; Ac am hynny nid ŷnt yn haeddu mo'i galw yn Dadau, na'i cyſtadlu iddo ef.

3. I'n rhybuddio wrth yr henwad yma, na ddylem ni geiſio gan Dduw ond pethau *nefawl* yn arbennig, a phethau *bydol* Fel y bont yn gwaſangethu, ac yn tueddu at ogoniant ein Tâd nefawl. Canys i hyn i'n hadgenhedlwyd, ſef i *Etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a di-ddiflannedig ac ynghadw yn y nefoedd i ni.* 1. *Pet.* 1. 4.

4. I'n rhybuddio nad yw ein bywyd yn y byd hwn ond pererindod, a'n bod oddicartref oddiwrth yr Arglwydd, tra ydym yn gartrefol yn y corph; Ac am hynny y dylem ni ocheneidio yn oeſtadol, gan *ddei-*

ſyfu gael ein harwiſco an tŷ ſydd o'r nef. A'r hwn a'n gweithiodd ni i hyn yma yw Duw, yr hwn hefyd a roddodd i ni ernes yr yſpryd. 2. Cor. 5.

Preg. V.

Sancteiddier dy enw, &c.

YN y weddi ei hun y mae *chwech* o Ddeiſyfiadau; *Tri yn berthynaſol i Dduw*, hynny yw am bethau a berthynant i Dduw; a *thri i ninnau*; Tri am bethau anghenreidiol i Ddynion.

1. Pethau Duw; Ei Ogoniant, a'i Deyrnas, a'i Ewyllys.

2. Pethau Dynion, Ein Bywyd, a'n Pechodau, a'n Profedigaethau.

Yn y Deiſyfiad cyntaf y mae ein jachawdwr yn ein dyſcu i weddio, fel y gweddiodd efe ei hun, *Joan.* 12. 28. *O Dad Gogonedda dy Enw.* Yr un peth yw Gogoneddu a Sancteiddio ei Enw.

Ac nid heb achos y ceiſiem ni hyn yn gyntaf dim o achos pa un y gwneler pob peth; Gogoniant Duw yw diwedd y Creaduriaid oll. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun; a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg. Dihar.* 16. 4.

Ond

Ond fel y gallem geiſio neu ddeiſyfu hyn yn y modd y dylem, rhaid i ni yſtyried Pedwar Peth ; megis ac yn y lleill hefyd.

1. Pa bethau da yr ydym yn eu dymuno wrth ddywedyd hyn, *Sanctteiddier dy Enw.*

2. Pa bethau drwg, yr ydym yn gweddio rhagddynt.

3. Y dylem ni roddi diolch i Duw am ei ddoniau daionus yr ydym ni yn eu cael er mwyn hyn, a'r drygau yr ydys yn ei gochelyd.

4. Y dylei pob dyn ei holi ei hun. ei galon a'i gydywbod, a ydyw efe yn ddiau yn bwriadu, ag yn ceiſio gwneuthur yn ol y dymuniad hwn ; Holed ei hun, pa beth y mae efe, ai yn gogoneddu a ſancteiddio Duw yn ei oll weithredoedd, ai nad ydyw. Y neb a ddyweto ei *Bader* yn jawn, ac yn fuddiol iddo ei hun, rhaid iddo yſtyried y pethau hyn yn arbennig am bob un o'r deiſyfiadau.

Oddieithr i ddyn wybod pa beth yw Enw Duw, ni ddichon ac ni chais mo'i ſancteiddio. Ni ddichon chwaith mor gweddio am y peth nis gwyr ddim oddiwrtho. Rhaid i ni ddeall.

1. Pa beth yw *Enw Duw.* 2. Gwedi hynny beth yw Sancteiddio.

1. Duw

Enw Duw a Elwir yn Scrythur Lân.

1. Duw ei hun. *Pſal.* 5. 11. *Llawenhaed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti; - A'r rhai a garant dy Enw, gorfoleddant ynot*, je, Y rhai garant Dduw gorfoleddant ynddo.

Gwrandawed yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngder; Enw Duw Jacob a'th ddeffynno. Pſal. 20. 1.

2. Ei briodoliaethau a'i weithredoedd. *Pſal.* 8. 1. *Mor ardderchog yw dy Enw ar yr holl ddaiar.*

3. Ei orchymmyn, a'i awdurdod, a'i allu. - *Dyſcwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn Enw 'r Tad*, &c. *Matth.* 28. 19.

4. Ei anrhydedd a'i ogoniant. *Act.* 21. 13. *Parod wyfi, nid im rhwymo yn unig, ond i farw hefyd er mwyn Enw 'r Arglwydd Jeſu.*

5. Pob peth yr adwaenir Duw wrtho; megis ac yr adwaenir dynion wrth eu henwau. A'r un modd yr adwaenir Duw wrth ei Briodoliaethau ei Air, ei farnedigaethau, ei weithredoedd ai Greaduriaid.

1. Gneu-

Sanctei-ddio a ar-wyddocâ weithiau.

1. Gwneuthur yn ſanctaidd; felly Duw yn unig ſy'n ſancteiddio *Sancteiddia hwynt yn dy wirionnedd. Joan.* 17. 17. *Fel y ſancteiddieu efe hi. Eph.* 5. 26.

2. Cyſſegru, neu nailltuo peth cyffredin o honno ei hun i ryw waſanaeth ſanctaidd, *Jeremi wedi ei ſancteiddio i fod yn Prophwyd, Jer.* 1. 5. *Paul yn Apoſtol. Rom.* 1. 1. *Pob cyntafanedig, Exod.* 13. 2. Amſeroedd, lleoedd, a phethau eraill.

3. Cydnabod a chanmawl yr hun ſy ſanctaidd ynddo ei hyn; *Sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonnau.* 1. *Pet.* 3. 15. *Gan ddatcan ei haedde diccaf foliant o ran ſancteiddrwydd*, &c.

Pa beth gan hynny ydys yn ei geiſio wrth ddywedyd hyn. *Sancteiddier dy Enw?* Ceiſio 'r ydym gan Dduw, deilyngu o honno drwy dywallt ei râs yn ein calonnau ni i gyd, ein ſancteiddio ni iddo ei hun, fel y gallwn ninneu ei ſancteiddio ynteu, hynny yw, ymddwyn gyda pharch a goſtyngeiddrwydd tuag atto anrhydeddu ei Enw, ei Fawrhydi,

ei

ei Briodoliaethau, ei weithredoedd, ei air, ei Eglwys, a'i weinidogion; A'n cadw drwy ragluniaeth ei ddaioni oddiwrth bob peth ar feddwl, gair a gweithred a'i dianrhydedda ef.

Gan edrych yn ddyfal na bo neb yn pallu oddiwrth râs Duw, *rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fynu, ac yn peri blinder, a trhwy hwnnw, llygru llawer. Heb.* 12. 15.

1. Y pethau Da a ofynnir wrth ddywedyd hyn ydynt y rhadau oll y gogoneddir Duw ynddynt.

I gwybodaeth am Dduw, ei briodoliaethau a'i weithredoedd; *Canys y neb ni adnabu Dduw, pa fodd y dichon ei anrhydeddu ef?* Ac etto fe ddichon Duw ei ogoneddu ei hun yn yr anwybodus, ond heb ddiolch idd o, ac ynteu heb ofod ei galon at ei ogoneddu ef.

2. Cariad, ofn, a pharch a goftyngeiddrwydd. *Sanctteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calannau.* 1. *Pet.* 3. 15. *Pa fodd? Byddwch barod bob amfer i atteb i bob un a ofynno i chwi reſwm am yr obaith fydd ynoch gyd ag addfwynder ac ofn; A chennych gydwybod dda.*

Rhaid wrth hynny, fel y gallem ei fanctteiddio fod gobaith ynom, fef *Gobaith* yn Nuw, am yr etifeddiaeth dragwyddol. A *Pharodrwydd i roi atteb i'r neb a ofynno reſwm am yr obaith fydd ynom.* Ac hynny ni ddichon neb heb wybodaeth am Dduw, a'r pethau dâ

dâ y mae efe yn eu gobeithio, ac yn eu diſgwil ar ei Law ef.

3. Ac *addfwynder* ac *ofn*. Addfwynder o ran *dynion a ofynnant y rheſwm*. Ofn o ran Duw, yr hwn yw *ſail ein go baith*, *am yr hon yr attebir iddynt*. O gariad y daw bôd yn addfwyn, ag o ffydd yn Nuw, bôd yn ofnus tuag atto ef. A lle bo 'rhain, fe fydd cydwybod ddâ yn canlyn.

3. Diolchgarwch, moliant a chlôd i Dduw am ei holl ddoniau a'i Ddaioni, *lloi ein Gwefuſau*, *Hoſ* 14. 2. Yn hyn y mae Duw ei hun yn dywedyd ein bod yn ei *ſanctteiddio ef*. *Yr hwn a abertho foliant*, *a'm gogonedda i*. *Pſal.* 50. 23. *Ac* hyn y mae 'r Apoſtol yn ein hannog. *Heb.* 13. 15. *Trwyddo ef gan hynny cffrymmwn aberth moliant yn waſtadol i Dduw*, *yr hyn yw ffrwyth gwefuſau yn cyffeſſu iw Enw ef*.

4. Wrth ddywedyd hyn, yr ydym yn attolwg i Dduw, ar iddo droi a goſod ein calonnau i ddal ſulw ar ei holl weithredoedd a pherchi ei gyfiawnder, ei drugaredd, ei allu, ei ddoeithineb.

5. Yn gymmaint a bod Duw yn gweithredu y pethau hyn ynom a ninneu yn eu dyſgu trwy bregethiad ei air, a gweinhidogaeth ei Eglwys, yr ydym yn attolwg iddo, ſendithio ein *Plwyfau* a'n *Eglwyſi*, gan roi iddynt Athrawon cyfiawnder, weithwyr profedic gan Dduw, difefl o flaen dynion, *yn jawn gyfranu gair y gwirionned*. 2. *Tim.* 2. 15.

Ac iddynt hwythau ddiſcyblion ffyddlawn. i wrandaw yn ufydd y gair ac o bûr ewyllys, fel y gallwn ynghŷd ei oſod allan yn ein holl ſuchedd a'n ymarweddiad, ag yn hynny ſancteiddio a gogoneddu Duw a'i Enw yn ein holl weithredoedd, a'n hymddygiad. Hyd yn hyn y *pethau da.*

2. Y *Pethau drwg yr ydys yn gweddio rhagddynt*, Pob peth, a phob gweithred ac yr ammherchir Duw a'i Enw trwyddynt. Pob ffals ddyſceidiaeth, pob opiniwn annuwiol, aniweirdeb, pug-ſancteiddrwydd, dirmyg ar air Duw a'i weinidogion, ar ordinhâdau, a'i orchymynion. Rhag y newyn y mâe Amos yn ſôn am dano, *Am.* 8. 11. Nid *newyn am fara, na ſyched am ddwfr, ond am wrando geiriau 'r Arglwydd.*

Rhag ſymmudiad y canhwyllbren y mae 'r yſpryd yn bygwth i Eglws *Epheſus. Datcu.* 2. 5. a'r tywyllwch a canlynant. (Hynny iw) rhag i Dduw gymmeryd oddiwrthych bôb Pregethwr, a Dyſcawdwr da, a allai eich blaenori mewn buchedd dduwiol.

Rhag y bleiddiau rheibus mewn gwiſcoedd Defaid, y rhai y mae Chriſt yn perieu gochelyd. *Matth.* 7. 15. *Yn dyfod attoch mewn rhith ſancteiddrwydd, ond trwy hynny i anrheithio eich eneidiau.*

Rhag y *baedd o'r coed a ddiwreiddia y winllan a'r winwydden, a bwyſtfil y maes a'i pawr. Pſal.* 80. 13. *a'r Llwynogod bychain a ddifwynant y gwinllannoedd*

nnoedd. Can. Sal. 2. 15. Hynny iw, rhag y grymmus a'r rhai dichellgar a geiſiant ddifetha *Eglwys* Dduw.

Rhag pob peth a gweithred a ddianrhydedda Dduw Pob rhwyſtr duwioldeb, a Phob dyn a gais ei anrhydedd ei hun, a orfoledda yn y cnawd, ag na wna bob peth er gogoniant i Dduw. Rhag y gweiſion drwg, rhy aml yn yr amſeroedd diweddaf hyn, yn cûro eu cyd-weiſion; Cyſſegryſpeilwyr yn anrheithio Tŷ eu Arglwydd, ag yn dwyn oddiarnynt gyflog y llafûrwyr.

3. Wrth ddywedyd hyn, Nyni a ddylem feddwl am yr holl ddaioni a wnaeth Duw i ni er mwyn hyn, fel y gallem anrhydeddu ein Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd Cofiwn y dyddiau gynt, a'r trugareddau a gawſom eu mwynhau ynddynt: Goleuni'r Efengyl yn ein myſc, Pûr bregethiad gair Duw, ag jawn ymarfer ai Sacramentau, a'i ordeinhadau tan llywodraethwyr Duwiol, agos er's cant o flynyddoedd: Fel Plant *Iſrael* yn *Goſhen* yn gweled grâs a gogoniant Duw yn y goleuni, a'n cymydogion yr ûn agwedd a'r *Aipht* yn dywyllwch o'n cwmpas. *Ni wnaeth efa felly ag un genedl; ac nid adnabuant ei farnedigaethau. Pſalm.* 147. 20.

Och i na bai ynom galon i gydnabod hyn, a bod yn ddiolchgar iddo am ei holl ddaioni, fel y gallai efe adnewyddu ei drugaredd bob boreu tuag attom.

O eiſieu yſtyried a chydnabod hyn y mae Duw yn dechreu cuddio ei wyneb, ynbygwth ſymmud y *canwyllbren*, a dwyn goleuni ei air oddi arnôm. Canys lle bo dynion yn anniolchgar, heb gydnabod ei haelioni, jawn i Dduw ddwyn ymmaith ei râs oddiwrthynt, a rhoi iddynt dywyllwch yn lle goleuni, wyr trawſion a chynhennûs, yn lle adeyladwyr ffyddlon, a newyn am air yr Arglwydd, lle y cawſant eu digoni, a'i diwallu o'r blaen Dirmyg, a ffieidd-dra yn lle gogoniant, &c.

4. Holed pob un ei galon ei hun, pan fo ar fedr gweddio, a ydyw yn wîr ac ar weithred yn ceiſio ſanctteiddio Enw Duw. Yr wyt yn dywedyd *Sanctteiddier dy Enw*, ac wrth hyny yn dymûno, ar iddo wneuthur llewyrch ei wyneb dywynnu arnat, ddanfon ei air, ei wirionedd, ei Efengyl yn ein plith.

Oni wnaeth efe hyn oll iti a'r ôl dy ddymuniad; Hola dy hun wyt ti yn ddiolchgar iddo am hyn o ddaioni, a wyt ti yn dyfod i'r Eglwys i wrando ei air (i e,) a wyt ti yn ei wneuthur, ar ôl ei glywed?

Duw a wnêl nad ydwyt yn ei ddiuſtyru, yn ei gablu, a'i ddifenwi. Agor, o Dduw, ein llygaid, fel gwelom bethau rhyfedd am danat fel y gallom adnabod dy allu, dy ddoethnieb, dy gyfiawnder, dy drugaredd. Helaetha ein calonnau, ith oſnu, ith garu,

i ym-

ymddiried ac i orfoleddu ynot, Agor ein gwefuſau ith foliannu, i offrwm iti aberth moliant am dy holl ddaioni: I weled a chyd nabod dy weithredoedd, dy anrhydeddu di ynddynt, a th ogoneddu ymmwyniant dy greaduriaid.

PREG. VI.

Deuet dy Deyrnas, &c.

YN y *Deiſyfiad cyntaf* y goſodir o'n blaen Ogoniant Duw a Sancteiddiad ei enw, y peth cyntaf a ddylei bawb ei geiſio. Yn yr ail, ar lleill ſy'n canlyn, y mae i ni y moddion in cyfarwyddo tuag at geiſio ag eglurhau ei ogoniant.

Canys Enw Duw a ogoneddir, pan dderchefir ei *Deyrnas* ynom Ei râs, a'i yſpryd, a'i dangnefydd yn llywodraethau yn ein Calonnau. *Deiſyf.* 2. Pan fôm yn gwneuthur ei Ewyllys, yn ymoſtwng, ac yn ufyddhau iddo. *Deiſyf.* 3. Yn bwrw ein baich ar ei Ragluniaeth ef am anghenrheidiau 'r byd preſennol hwn. *Deiſ* 4. Yn ymddiried yn ei Drugaredd am Faddeuant o'n Pechodau. *Deiſ.* 5. Yn ymroi i'w râs, a'i allu am gael

ein

ein hamddiffyn, a'n gwared rhag pob rhiw ddrwg, pa un bynnag ai yn ei amcan, a'i arfaeth wrth brofedigaeth, a'i yn ei gwbl-hâd, pan fo chwant gwedi ymddwyn, ac eſcor ar bechod. *Deiſ. 6.*

I'r Drindod fendigedig y mae tri math o Deyrnaſoedd. 1. Teyrnas ei Allu. 2. Ei Râs. 3. Ei Ogoniant.

1. Am y cyntaf y Dywed y Prophwyd. *Pſal. 103. 19. Yr Arglwydd a baratôod ei orſeddfa yn y nofoedd; a'i frenhiniaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bob peth.* Ac etto. *Pſal. 145. 13. Dy frenhiniaeth dy ſydd frenhiniaeth dragwyddoll; a'th Lywodraeth a bery yn oes oeſoedd.*

Am y frenhiniaeth yma, y d yw 'r weddi yn ei chyrhaeddyd yr ydys yn deiſyfu gan Dduw, a'r iddo beru i'r holl fŷd ei chydnabod, a gogoneddu ei Enw ynddi; a'r i bob dyn gyſaddef mor ddoeth ac mor alluog ydyw Duw yn ei reolaeth ar ei greaduriaid oll, ond yn enwedig yn ei *Eglwys* ei dŷ ei hun, ſef, *teulu y ffŷdd.* A hyn a ddyſcodd Chriſt ei hun i ni yn niwedd y weddi, wrth ddywedyd. *Eiddo ti,* &c.

2. Teyrnas Grâs Duw, ai Ogoniant nid ydynt deyrnaſoedd nailltuol, ond dwy ran o'r ûn Frenhiniaeth: Yn ddechreuedig yn y gyntaf, yn gwbl-berffaith yn y llall. Un yn y bŷd yma, a'r llâll yn y byd ſydd ar ddyfod.

Brenhiniaeth neu Deyrnas Grâs Duw, ydyw

ydyw *yſtâd* yſprydol drwy 'r hon y mae Duw yn teyrnaſu yn ei weiſion, a hwythau ynddo ynteu, gan ufyddhau iddo yn ewyllysgar yn cael nerth a gallu i wrthynebu eu gelynion.

Am yr hon y dywed ein jachawdr. *Os ydwyſi yn bwrw allan gythreuliaid drwy yſpryd Duw, yna y daeth Teyrnas Dduw attoch. Matth*, 12. 28. Chwchwi a welwch yma y gelynion, Cythreuliaid, a'r môdd y mae eu gwrthwynebu a'u gorchfygu, trwy yſpryd Duw: Yngrym a nerth yr *yſpryd* y mae y deyrnas hon yn ſefyll.

Am yr un y dywed yr *Apoſtol*. *Nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod, ond cyfiawnder, a thangnefydd, a llawenydd yn yr yſpryd glân. Rhuf.* 14. 17. Yn hyn y mae hi yn ſefyll.

1. Ynghyfiawnder ffydd, y ffydd y gyfrifwyd i *Abraham* yn gyfiawnder, a gyfrifir i ninneu hefyd. *Rom.* 4. 9. 11. Ac ynghyfiawnder ufydd-dod diragrith, er nad yw hi gwbl-berffaith, drwy ſancteiddiad yr yſpryd Glân.

2. Yn hanghneddyf Cydwybod tuagat Dduw, gweithrediad cyfiawnder.

3. A llawenydd yn yr yſpryd yn deilliaw oddiwrth y ddau ynghŷd, pa beth bynnac a ddigwyddo yn y byd hwn: Hyfrydwch yn Nuw ymhôb cyflwr.

A'r deyrnas hon, er ei bod hi gwedi dyfod euſys, ſel y mae Chriſt yn tyſtiolaethu.

Matth.

Matth. 12. 28. Etto y mae hi fyth yn dyfod; a grâs yn amlhau, a doniau yr *yſpryd* yn cael eu cryfhau a'u anchwanegu beunydd megis drwy 'r weddi yma.

Teyrnas y Gogoniant, ydyw yſtâd fendigedig neu gyflwr y Sainct yn y nefoedd. *Pacatum, proſuſque tranquillum, quo in Sanctis abſque ullius hoſtis infeſtatione Deus æternum ſingulariter regnat. L. B.* , *Anſawdd lonydd heddychlawn*, , *Dduw ei hun yn teyrnaſu yn unigol yn ei Sainct heb* , *wrthwyneb gelyn yn y byd.*

A'r rhan yma o'r deyrnas hon nid eiff neb i mewn iddi nes iddo farw. Yna y bydd i eneidiau y cyfiawn, wedi eu puro drwy ffydd ynghriſt oddiwrth bechod, fel na throſeddent mwyach, gael eu derbyn yngwydd a gogoniant y goruchaf, i fôd gyd a Duw yn dragywydd

A'r unrhyw ddedwyddwch y mae 'r *eneidiau* yn ei fwynhau, ar ol ei marwolaeth gorphorol, y gaiff y *corph* hefyd fôd yn gyfrannog o hono yn yr adgyfodiad, wedi ei lwyr-lânhau odiwrth waeldodion llygredigaeth, yn bûr, ogoneddûs, anfarwol.

Yno y bydd teyrnas Dduw gwedi dyfod yn gyflawn pan fo efe felly yn llywodraethu ymmhawb. ac ymmhôb un, fel na bo dim ond ufydd-dod, na fôn am wrthrin, na chymmaint a gogwydd i ddim drwg, neu anfodlon i Dduw.

Ac nid heb achos y gweddiwn ar ddyfod

o'r

o'r frenhiniaeth hon arnom, Gogoniant yn y diwedd, a Grâs yn y cyfamſer, a nyni wrth hyn yn deall fod *Brenhiniaeth* arall yn y byd hwn, o'r hon y mae i ni berigl nid bychan, oddiwrth yr hon yr ewyllyſiwn gael ymwared, a'n ſymmud i un a ſo well.

Yn y byd hwn y mae teyrnas Satan, Meddiant y tywyllwch, Grym a brenhiniaeth Pechod: Yn yr hyn y mae trais, a gorthrech yn lle cyfiawnder: Rhyfeloedd, ac ymlladdau, ac aflonyddwch cydwybod yn lle Tangneddyf Yn lle diddanwch a llawenydd, Gofidiau amrhaethadwy, ofn, a dychryn a phoenau gwaſtadol.

A theyrnaſoedd y bŷd hwn nid ŷnt ddidrafferth, drygau a chyfyngderau, a therfyſcau (ſel y gwyddoch) yndigwydd iddynt beunydd. O blegid hynny y gweddiwn yn wreſoccach ac y byddwn daer ar yr Arglwydd, ar iddo bryſſuro ei *deyrnas* ddidrangc, ſafadwy, dianwadal.

Teyrnas Dduw i gyd oll a ddaw, ac a fydd hyſpys i ni mewn pump o raddau.

1. Yn y moddion oddiallan, y mae Duw yn eglûro ei râs a'i ffafr ynghriſt trwyddynt. O herwydd pa ham yr Efengyl ſanctaidd a elwir *Gair y deyrnas. Matth.* 13 19 *Pan glywo neb air y deyrnas*, (i e) Gair Duw, Efengyl Chriſt (i.e) y gair hwn a elwir y *deyrnas. Dianmman ddyfod teyrnas Ddiw attoch chwi*, medd

Chriſt ei hun, am ei weinidogaeth. *Luc.* 11. 20.

2. Yn y llewyrchiad oddifewn, a'r meddwl gwedi ei oleuo, i weled a deall, a chydnabod gwirionedd Duw, a dirgelion yr Eſengyl.

3. Ad-enedigaeth ac ad-newyddiad yſprydol, a'r enaid gwedi ei rhyddhau oddiwrth rhwymynau pechod, a'i goſod tan râs, a'i gwneuthur yn ddeiliad daroſtyngedic i Griſt Jeſu.

4. Pan fo'r Enaid yn rhydd drwy angeu i ddychwelyd at y Duw nefol ai hanadlodd, a'r llawenydd ſydd wedi ei barattoi iddi yn y nêf.

5. Pan gaffo y dyn ei gwbl-ogoneddu, mewn Enaid a chorph; (hynny iw) Cwbl-hâad ei Ddyfodiad a Pherffeithiad teyrnas Dduw ynddo.

Ac wrth hyn y gwyddoch amcan bellach Pa bethau Da yr ydym yn eu ceiſio yn y Deiſyfiad yma.

1. Yn gymmaint a bod y neb a fo yn gweddio tan llywodraeth Duw a Theyrnas ei Allu, y mae yn rhaid, ac yn addas iddo ddymuno gan Dduw, ar iddo ai raſlawn amddiffynniad ei gadw, ai arwain yn ei-holl ſywyd.

2. Er iddo *oſod ei frenhin arnom*, fel y mae efe'n dywedyd trwy'r Prophwyd, *Minneu a oſodais fy Mrenhin ar Sion fy mynydd ſanctaidd. Pſal.* 2. 6.

2. 6. ſef Chriſt: Etto am na ddichon neb ddyfod atto drwy ei nerth *naturiol* ei hun yr ydym yn attolwg iddo, ein hadgenedlu ai yſpryd, ein dyſcu ai air, ein porthi ai Sacramentau, a thrwy wir edifeirwch, ac adnewyddiad buchedd ein tywys a'n harwain hyd at frenhiniaeth ei Râs, fel y gallom fwynhau 'r holl fendithion perthynaſol: iw blant adgenhedledig.

3. Uwch law hyn nid ydym yn anghofio teyrnas ei ogoniant, ond yn hytrach, yn dymuno ar iddo o'i fawr drugaredd, ai allu ai nerth ein cadw i'r jechydwriaeth ſydd barod iw datcuddio yn yr amſer diweddaf, i'r *etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a di-ddiflannedig, ynghadw yn y nefoedd.* 1. *Pet.* 1. 4.

2. Gan fod *Satan* yn oeſtadol yn ein hûdo, a trwy waith y cnawd ar bŷd yn ceiſio ein tynnu atto ei hun, a'n dwyn ymmaith oddi tan lywodraeth Chriſt ein brenin nefol yr ydys yn hyn yn gweddio rhagddo: Ar i Dduw daflu i lawr; a diflannu llywodraeth Satan; attal, a daroſtwng y cnawd a'i chwantau pechadarus, fel pan ddelo *tywyſog y byd hwn* attom, allu o hono *gael dim ynom ni.* *Joh.* 14. 30.

Ac yn gymmaint bod ein harglwydd graſuſol bob amſer yn cynnig in uchel-fraint ei deyrnas, a bod porth y bywyd bob amſer yn agoryd, gweddiwn rhag dirmyg ar ei

râd, rhag eſceuluſo 'r amſer, gyd a'r morwynion angall *Matth.* 25. ac ar ol hynny yn y dydd diwaethaf, i ni *alw a churo pan fo rhyhwyr*

3. Yn drydydd wrth ddywedyd hyn rhaid iti feddwl ac yſtyried, pa ddiolch 'r wyt yn ei dalu i Dduw, am iddo oth iefengtid, (pan nad oeddit yn haeddu dim oddiwrtho) dy achub oddi tan law Satan, *a'th waredu allan o feddiant y tywyllwch a'th ſymmud i deyrnas ei anwyl Fâb; Yn yr hwn y mae iti brynedigaeth trwy ei waed ef, ſef maddeuant pechodau*; ac wrth hynny yn cael dy wneuthur yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y Sainct yn y Goleuni. *Col.* 1. 12. 13. 14.

Ymofyn ath gydwy ubod dy hun paddiolch a wyt ti yn i dalu iddo, am iddo dy alw felly atto ei hun a'th wneuthur yn *aelod o'i gorph ei hun*, a'th feithrin yn ei gynnulleidfa ſanctaidd? Pa ddiolch y deli, am iddo beidio a'th adel fel *Twrc* neu *Iddew*, pan allaſai yn gyfianhaf adel i ti graſu, a diflannu ar farwor dy anwybodaeth, ath angrediniaeth naturiol.

4. *Yn ddiweddaf*, yſtyria pa wedd yr wyt ti yn ymddwyn tuag at ei yſpryd ſancteiddiaf, rhag i ti dynnu yn ôl, ac ymadel ai lywodraeth ac ymwrthod a'i deyrnas. A wyt ti! yn gwrthwynebu yr yſpryd glân megis yr *Iddewon gynt. Act.* 7. 15. Yn ei *driſtau. Ephe.* 4. 30. Neu yn ei *ddiffod.* 1. *Theſſal.* 5.

ſal. 5. 19. A wyt ti yn gwrando ei air, yn ufyddhau iw gynghorion fel y gallai ei deyrnas ddyfod attat-ti ac iddo ynteu reoli ynot?

Ac wrth ymwrando fel hyn, dydi a geiweled dy fôd yn fyr o lawer o bethau angheurheidiol; Hynny fydd raid iti gyfaddef, a gweddio yn daerach o hynny y'n geiriau'r Propwyd. *Creâ galon lân ynof o Dduw, ac adnewydda yſpryd uniawn o'm mewn; Na fwrw fe ymmaith oddi ger dy fron; ac na chymmer dy yſpryd ſanctaidd oddiwrthif. Pſal.* 51. 10. 11.

Clyw nyni, O frenin Nefol, Tywallt dy râd a'th yſpryd ynom, a thrwy ragluniaeth dy ddaioni, gwna i deyrnas dy Fâb ddechreu codi yn ein calonnau. Diſlanna nerth y gelyn a chenſigen y gwrthnebwyr; fêl y gall hi gynnyddu fwyfwy: Galw dy ddewiſedig bobl yr *Iddewon* yn dy amser goſodedig. Cwbl-hâ bob peth yn y môdd a'r drefn a ordeiniais ti yn dy ddoethineb a'th ragddarbod, hyd oni pherffeithir dy *deyrnas* hon ſy'yn y byd-hwn yn gymmyſc a phechod, gwendid, a gwrthneſigrwydd, mewn llawn ogoniant, ſancteiddrwydd ac anfarwoldeb. Caniadha hyn, drugarog dâd, er ſerth ar dy Anwyl Fab, &c.

Preg. VII.

A'r ail ar y geiriau: *Deuet dy Deyrnas*, &c.

NAc anghofiwch, fy mrodyr, mai 'r peth cyntaf, a'r pennaf a ddylem ni eu geſio iw *ſancteiddiad Enw Duw*, a'i wîr ogoniant Dymma 'r peth in crewyd erddo, ac at hyn yma y mae ein ymarweddiad i gid yn pwyſo, at ogoneddu Duw. *Beth bynnac a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Ddiw.* 1. *Cor.* 10. 31. O herwydd hyn, yn y weddi berffaith hon a drefnodd Duw ynghriſt i ni, hwn iw 'r Deiſyfiad cyntaf. Yn yr hwn, chwi a glywſoch pa bethau dâ yr ydych yn eu dymyno, a pha bethau *drwg* yr ydys yn gweddio rhagddynt.

1. *Y Dâ.* Yr holl râdau y gogoneddir Duw ynddynt. Gwybodaeth am Dduw, ei briodoliaethau, a'i weithredoedd, Cariad tuag atto ef, ag ofn a pharch, a goſtyngeiddrwydd, Diolchgarwch a moliant iddo am ei holl ddoniau. &c.

2. *Y drwg.* Pob peth, a gweithred, ag yr

yr ammherchir Duw ai Enw trwyddynt. Pob rwyſtr Duwioideb. &c.

Gwybyddwch hyn, nad yw hyn boſſibl i ni ond trwy ei Râs; Nad yw boſſibl i ni ei ſancteiddio ef, nes iddo ef ein Sancteiddio ni yn gyntaf.

Am hynny yr ail peth a ddyſ odd ein jachawdr i ni weddio am-dano, yw *Dyfodiad ei Deyrnas*, nid amgen. Ei *Rás* yn bennaf, i reoli yn ein calonnau. Canys er i Dduw o-ſod ei fr enin arnom. &c.

A chan fôd Satan yn oeſtadol yn ein hudo. &c.

Fel hyn y clywſoch y da ar drwg hefyd yn yr ail deiſyfiad ynghyd a'r modd y dylem ni fôd yn ddiolchgar i Dduw am ei holl ddaioni yn ei lywodraeth arnom, a pha wedd yr ymddygem yn ddyledus tuag atto ynteu.

Etto y mae i chwi beth yn ôl i yſtyried yn y *deiſyfiad yma*.

1. Y meddyliau a ddylent fyned ynghŷd a'r weddi.

2. Y Gweithrediadau a canlynent.

1. Pan fôm ar tedr dywedyd hyn, rhaid i ni feddwl ac yſtyried ſylfaen a chynhaliaeth y deiſyfiad, yr achos ſy 'n peri i ni ddywedyd fel hyn yn ein gweddiau. *Deued dy deyrnas.*

Canys pob ryw ddeiſyfiad o ran eiſieu neu ddiffyg y mae. Ac wrth hyn y mae

ni

ni gydnabod ein heiſieu, eiſieu cael ein llywodraethu ar ôl ewyllys Duw, ai reol. O naturiaeth nid ŷm amgen na gweiſion pechod tan gaethiwed Satan. Am hynny nid heb achos y dymunwn newid a gwellhau ein cyflwr, a bod tan lywodraeth *buddiolach* i ni; Rheſwm ini weddio ar Dduw ar iddo roddi i ni edifeirwch i gydnabod y gwirionedd, *a'bod i ni ddifod i'r ſawn, allan o ſagl diafol, y rhai a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef.* 2. *Tim.* 2. 26.

Er nad ydym tan feddiant y tywyllwch, eithr tan râs; otto, tra bôm yn y corph nid ŷm na diofn na diogel; a'r *llew rheipûs rhuadwy yn rhedeg oddi amgylch gan geiſio y neb a alle ei lyngcu.* 1. *Pet.* 5. 8. Yr heliwr yma ymmnob peth, ac ym mhob lle yn cuddio ei faglau, gan geiſio dal y cyfiawn ynddynt. A'r cnawd hitheu yn ein hûdo, ac yn ceiſio ein dwyn oddi tan lywodraeth yſpryd Duw, i waſanaethu pechod. Fel nád yw r' weddi yn ddiachos, *Deued dy deyrnas.* Llywodraethed dy râs yn ein calonnau, fel na chaffo 'r yſpryd drwg ddim ynom; Felly nid iw 'r cyngor yn ddireſwm chwaith, Na *theyrnaſed pechod yn eich cyrph marwol i ufyddhau o honoch iddo yn ei chwantau. Rhuf.* 6. 12.

Pan fo'm yn cylhnabod gweddillion pechod ynom a dichellion y gelyn mawr yſprydol, i'n herbyn, ni a fyddwn gymhwyſach i weddio ar ein brenin nefawl ar iddo dder-

dderchafu a chadarnhau ei *deyrnas* ynom.

2. Megis ac yr ydym yn gweddio troſom ein hunain, felly yr ydym yn meddwl am *orthrymder* ein brodyr a'n cydwieiſion ac yn dwyn galar dros aml lygredigaeth y bŷd, trwy 'r hyn y dianrhydeddir Duw ac y rhwyſtrir ei frenhiniaeth. A hynny a wna 'r neb a ddycco zêl i Dduw, weddio yn wreſoccach, gan attolwg iddo ddirymmu nerth pechod, orchfygu 'r byd, diſlannu teyrnas Satan, a phryſſuro ei ddyfodiad ei hûn, i'r hwn yn y dwedd y *daroſtyngir pob peth, fel y byddo Duw oll yn oll.*

2. Y gweithrediadau a canlynant ydynt.

1 Ymlawenhau yn nerchafiad teyrnas ei râs yn ein calonnau ag ymbarattoi i gyfarfod a'i ddyfodiad *yn y cymylau.*

Rhaid ir deiſyfiad yma ddiſcleirio, ac ymddangos yn ein buchedd a'n gweithredoedd, onid ê, nid iw ei ddywedyd ond peth ofer. Rhaid i ni ddwyn ffrwythau y deyrnas os mynnwn iddi barhau ynom, a'i mwynhau hi yn dragywydd. O ran eiſieu hyn, o ran eiſieu dwyn, *ffrwyth addas i edifeirwch* (hynny yw ffrwyth y deyrnas) y mae ein jachawdr yn bygwth yr *Iddewon. Am hynny, meddaf i chwi y dygir teyrnas Dduw oddiarn ch chwi, ac a'i rhoddir i genedl a ddygco ei ffrwythau; Matth.* 21, 43. Hynny yw, Am iddynt hwy ymwrthod a'i brenin, a dywedyd, *Ni fynnwn ni hwn i deyrnaſu arnom. Lu.* 19.

14. Am iddynt wrthod y *pen-congl faen*, a *llâdd tywoſog y bywyd*; Am hynny meddaf, y dygwyd y deyrnas oddi arnynt, ag a'i rhoddwydd i genedl yn dwyn ffrwyth. Pe buaſent hwythau yn ei groeshafu yn ei ddyfodiad, yn mynnu ei gael i deyrnaſu arnynt, hwy a fuaſent yn dwyn ffrwythau hefyd, ai deyrnas ni ddygaſei Duw ffyth oddi-arnynt.

Edrychwn ninneu arnom ein hunain rhac i ni fôd yn ddiffrwyth, a cholli o honom yr uchel-fraint hon o'i deyrnas fendigedig. Er maint ein bôſt a'n ymffroſt yn ein proffes ein bod yn ddiſcyblion i Griſt, *a phlant y deyrnas*; etto oni ddygwn ffrwythau addas iddi, fe 'n ceuir allan yn y diwedd, megis ac y mae *Chriſt* yn rhagddywedyd i'r Iddewon. *Plant y deyrnas, a deflir ir tywyllwch eithaf*, &c. *Llawer a ddaw o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eiſteddant gyd ag Abraham. Onid Plant*, &c. *Matth.* 8. 11. 12.

2. Yn niſgwiliad y Deyrnas hon y mae i ni fodlonrwydd ym mhob grâdd a ſtâd, a chyflwr. Y neb a daerai, ar iddo ddyfod i deyrnaſu, ſydd yn diſgwil am ei ddyfodiad; yn gwneuthur ei oreu ar ei gael ganddo mewn tangneddyf; ac yn dyſgu gyd a St. Paul, *i fod yn fodlon a phob cyflwr. O herwyd pa ham fy anwylyd, gan eich bod yn diſgwil y pethau hyn gwnewch eich gorcu ar eich cael ganddo mewn tan-*

tangnheddyf, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyoedd. 2. *Petr.* 3. 14.

Wrth hyn y mae ein jachawdr yn ein cynghori nas gofalem am bethau 'r byd; ond *ceiſiwch deyrnas Dduw yn hyttrach, a'r pethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg: Nac ofna braidd bychan: Canys rhyngodd bodd i'ch tâd roddi i chwi y deyrnas.* *Luc.* 12. 31. 32.

O blegid hyn dibris gennym flinder a gorthrymderau y byd preſennol, a Chriſt ei hûn yn peri i ni ddiſgwil cyſtudd, heb ddiddanwch yn y byd ond a gaffom yn y dŷn oddi mewn drwy lywodraeth ei râs a'i yſpryd ynom. *Gwir yw 'r gair. Canys os buom feirw gydag ef, byw fyddwn hefyd gydag ef: Os ddioddefwn, ni a deyrnaſwn gyd ag ef.* 2. *Tim.* 2. 11. *&* 12. Ac wrth hyn y cadarnhâe St. Paul eneidiau y diſcyblion, gan eu cynghori i *aros yn y ffydd*, ac mai *trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i Deyrnas Dduw.* *Act.* 14 22.

3. Yn y gobaith hwn yr ydym yn ymbarattoi nid yn unig i ddioddef cyſtuddiau, ond i farw hefyd, gan wybod hyn, nad iw angeu, ond cychwynfa a mynediad i mewn i deyrnas nefoedd: A'n brenin nefawl yn pryſſûro ei ddyfodiad; a ninneu beunydd awr, ac ennyd yn gweddio, *Tyred Arglwydd Jeſu, Tyred ar frŷs*, pwy ni fyddai barod iw dderbyn? A Chriſt ei hun yn peri i ni fod felly, *Bydded eich lwynau wedi eu hamwregyſû,*

a'ch canhwyllau wedi eu goleu, A chwitheu yn debyg i ddynion yn disgwil eu harglwydd, pa brydy dychwel o'r neithior, fel pan ddelo a churo, yr agorant iddo yn ebrwydd. Gwyn ei byd y gweiſion hynny, y rhai a gaiff eu harglwydd pan ddêl yn neffro.

Llawer o honom ſydd yn dywedyd y geiriau, *Deued dy Deyrnas* heb feddwl am ei ddyfodiad attynt nac yn awr angeu, nac yn nydd y farn. Ei wahodd y maent a r *dafod leferydd*, ond yn eu calonnau, (Duw a'i gwyr,) yn bwrw ei Ddyfodiad a'i ddydd ym mhell oddi-wrthynt.

Pa ddyn gwael a wahoddai ŵr mawr iw dŷ, ac heb fod ganddo ddim yn barod iddo, ie ac efe ei hun heb ganddo ewyllys iw groeshafu? Am hynny od ydych yn dymuno ich brenin nefol, i ddyfod a'i deyrnas a'i ogoniant hyd attoch, rhaid i chwi fod yn barod iw dderbyn a'i groeshafu ac i lawenychu yn ei ddyfodiad.

Y neb a fo wir-ewyllysgar i ymadel a'r bŷd, a fo ganddo, gyda'r Apoſtol, *chwant iw ddattod*, ac *i fod gyd a Chriſt. Phil.* 1. 23. a'i hyder ar Dduw a'i obaith yn ei air, a'i addewid, nac yn blino tan gyſtûdd, nac yn ofni marwolaeth, hwnnw a fydd gymmwys ac addas i weddio a dywedyd fel hyn *Deued dy Deyrnas.*

Gwna i ni, nefawl Dâd, fod yn wir ddiolchgar i ti am dy ddaionus ragluniaeth, a pharhâed teyrnas dy allu arnom, i'n cadw,

a'n

a'n harwain, a'n hamddiffyn yn ein holl fywyd. Gwna i Deyrnas dy râs, godi ac ymddangos yn ein calonnau. Diſlanna nerth y gelyn, a chenſigen ein gwrthnebwyr. Gwna i ni 'nŷdd a goruchafiaeth dy râd fod yn fodlon bob un ai ſtâd ai gyflwr, lawenychu yn nerchafiad a diſgwiliad dy ogoniant, ymbaratoi imgyfarfod a dyfodiad dy Fâb yn y cymwylau, ac yn y cyfamſer i ddioddef cyſtudd, ac i farw, i fod gyd a Chriſt yn ei deyrnas a'i ogoniant, &c.

Preg. VIII.

Bid dy ewyllys ar y ddaiar, &c.

Hyd yn hyn y bu y ddau Ddeiſyfiad cyntaf am bethau perthynaſol i Dduw, ſef; Sancteiddiad ei Enw, a Dyfodiad ei Deyrnas: Y trydydd hwn, ſydd am wneuthur ei ewyllys: Yn canlyn yn gymmedrol, megis. Modd i gyflawni 'r un, ſef, Sancteiddio Enw Duw, a rhaglwybr neu fynediad i mewn i'r llall, fforddiad iw Deyrnas.

Wrth wneuthur ewyllys Duw y Sancteiddir ei Enw, ac wrth ei gwneuthur ar y

Ddaiar

Ddaiar y mae i ni brofiad, a chais ar yr ufydd-dod gwbl-berffaith honno, ſydd ddyledûs i Griſt yn ei Deyrnas gyffredinol yn y nefoedd, *pan ddaroſtynger pob peth tan ei draed, ef fel y bydd Duw oll yn oll.*

Y Deiſy fiad hwn ſydd wedi ei oſod allan mewn cymmhariaeth neu gyffelybiaeth, ar y Ddaiar, megis ac yn y nefoedd: Ac ynddo y mae dau beth addas i ddalſulw arnynt.

1. Y Gwaith, Gwneuthur ewyllys Duw. 2. Y Pattrwn, neu 'r Eſampl iw ganlyn. Megis ac yn nefoedd.

Ewyllys Duw er nád yw ynddo ei hun ond un, megis yn ei hanfod etto fe a'i doſperthir o herwydd amryw amlygynau, ac effeithiau, ac er ein cyfarwyddo ni, yn hyn y mae 'r Scrythur Lân yn dywedyd am ei ewyllŷs.

Ewyllys. { 1. Cuddiedig: *Abſoluta, Definita, Beneplaciti, Diſpoſitionis, Decreti.* 2. Datcuddiedig. *Signi, Revelata.*

1. Cuddiedig ewyllys Duw yw, trwy 'r hwn yn ei derfynedic gyngor, a'i ragwybodaeth, yr ordeiniodd efe wneuthur pob rhyw beth nef beidio. *De hâc voluntate nec opus eſt petere, nec rectè aut piè quicquam peteretur.* Chemn: (he,) O ran yr ewyllys hwn nid rhaid gweddio, ac nid ellir chwaith yn

jawn

jawn, ac yn dduwiol. Tan yr hwn yr ydys yn ymddaroſtwng yn unig, nid yn gweddio; am na's gall ein gweddiau ym chwanegu dim tuag at ei gyflawniad ef.

E in Duw ni ſydd yn y nefoedd, efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll. Pſal. 115. 3. *Pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef.* Rhuf. 9. 19.

2. Datcuddiedig ewyllys Duw ydyw ei ſanctaidd athrawiaeth yn ei air, yn yr hwn yr ysbyſodd efe i ddynion, ynghylch ei dragwyddol ddedwyddwch a'u hiechydwriaeth pa bethau a ddylent eu gwneuthur, a pha bethau ni ddylent.

Yr hwn a elwir gan yr Apoſtol, *Daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.* Rhuf. 12 2.

Yn hwn y cynhwyſir y Gyfraith, a'r Prophwydi, a'r Efengyl, *cymmaint oll ac a ſcrifennwyd er addyſc i ni.* Rhuf. 15. 4. Y pethau oll y mae Duw yn eu gorchymmyn, neu eu gwarafun, ei haddaw, eu hannog, eu bygwth, *&c.*

Non petimus ut Deus faciat quod vult, ſed ut nos poſſimus facere, quod Deus vult. Cyprian. Nid ŷm, yn gweddio ar i Dduw wneuthur y peth, a fynno, ond ar i ni allu gwneuthur y peth, y mae Duw, yn ewyllyſio.

Y mae hefyd ewyllys a elwir gan rai Ewyllys Goddefiad Duw, neu Ewyllys ei Weithrediad. *Voluntas Permiſſionis ſeu Operationis.* Canys ni wneir, ac ni ddigwydd dim

i Greadur

i Greadur yn y bŷd heb ewyllys Duw, yn ei wneuthur, neu yn rhoi cennad iddo. Ond yr un ewyllys ſydd Guddiedig o ran yr arfaeth tragwyddol mewn pethau lawer, Datcuddiedig, o ran y diben, neu'r hyn a ddêl o honno. Am yr hwn y dywedwn *Fiat voluntas tua ſicut in nobis, ita & de , nobis:* Gwneler dy ewyllys, megis ynom, , felly amdanom hefyd: Ar ôl eſampl y diſcyblion yn gorchymyn *Paul* i Dduw yn ei fynediad i fynu i *Jeruſalem*, gan ddywedyd, *Ewyllys yr Arglwydd a wneler. Act.* 21. 14.

Ac yn ddiau Ewyllys yw, Beth bynnac a archo neb ar eiriau, ac a ddangoſo fod yn dda ac yn gymmeradwy ganddo. Am hynny o herwydd i Dduw roddi ini ei fendigedig air, ac ysbyſu a dangos yn amlwg ei ewyllys ynddo, cymmwys a chwbl-addas i bawb ymddaronſtwng iddo.

Nid yw Ewyllys Duw, fel y dywedais ond ûn, di ymmod anghyfnewidiol; Er hynny, er addyſc fe ai doſperthir. *Docendi cauſa.*

Diſtinguitur in voluntatem { 1. *Credendam* } Ewyllys a Gret-
Vid. Chemn: { 2. *Faciendam* } tir, a wneir,
Har. Evang. { 3. *Patiendam.* } ac a Oddefir.
c. 107.

1. Yr ewyllys a *Grettir* ydyw, lle bo Duw yn dangos yn ei Air ei feddwl tuag attom

2. Yr.

2. Yr hwn a ddylid ei *wneuthur*, a gynhwyſir yn y Gorchymmynion. 3. Yr hwn a ddylid ei *oddef*, pan ſo Duw yn ôl ei fodlonrwydd ei hûn yn bwrw 'r Groes arnom.

Llawer o bethau yn yr Scrythur Lân a elwir *Ewyllys Duw*.

1. Troad neu ymchweliad Pechadur at Dduw a elwir Ewyllys Duw. *Ezech.* 33. 11. *Fel mai byw ſi medd yr Arglwydd, Nid ymhoffaf ymmarwolaeth* (nid ewyllyſiaf) *yr annuwiol cnid troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd: Hynny yw* ei ewyllys ef.

2. Sanctеiddiad dyn. 1. *Theſſ.* 4. 3. *Hyn yw ewyllys Duw ſef eich Sanctеiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb.*

3. Ffydd yn Ghriſt, a'r bywyd trwyddi. *Joa.* 6. 40. *Hyn yw ewyllys yr hwn am hanfonodd i, cael o bob ûn ſydd yn gweled y Mâb, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol.*

4. Cadwedigaeth ei eiddo, a'i hadgyfodiad. *Joan,* 6. 39. *Hyn yw ewyllys y Tâd am hanfonodd i, o'r cwbl a roddes efe imi, na chollwn ddim o honaw, eithr bod i mi ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf. Matth.* 18. 14. *Nid yw ewyllys eich Tâd gyſrgolli'r un o'r rhai bychain hyn.*

5. Ufydd-dod. *Matth.* 7. 21. *Nid pob un ſydd yn dywedyd Argl. Argl. a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn ſydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhâd,* &c. *Mar.* 3. 85. *Pwy bynnag a wnelo ewyllys Duw,* (a ufyddhao iddo) *hwnnw iw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm mam i.*

7. Y mae Chriſt yn galw ei Ddioddefaint ei hun Ewyllys Duw. *Matth.* 26. 42. *Fy Nhâd, Oni's gall y Cwppan hwn fyned heibio oddwrthif, na byddo i mi yfed o honaw gwneler dy ewyllys di.* A llawer o bethau naillttuol eraill.

Yn y gwaith hwn o wneuthur ewyllys Duw y mae graddau ar ôl doſparthiad gwir ufydd-dod.

Canys y mae un math o *ufudd-dod* i'r Eſengyl, ac un arall i'r Gyfraith. Gorchwyl yr Eſengyl iw ymegnio o bûr ewyllys, diragrith ar wneuthur ewyllys Duw; ymegnio meddaf, yn *ôl meſur Dawn Chriſt, a'r gras a roddwyd i ni. Eph.* 4. 7. Hyn y mae Chriſt yn ei gymmeryd yn ddilyſiant ac yn ei gyfrif yn ufudd-dod, ac hyn a ddehellir yn y weddi.

Ond diſgwiliad y gyfraith iw, ei chyflawni hi ym mhob peth ac ym mhob modd ac y gorchymmynwyd; yr hyn nid iw boſſibl yn y cyflwr ammherffaith preſennol. *Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. Jac.* 3. 2. Nid oes neb yn gwbl-berffaith, ddibechod. *Os dywedwn ein bod heb bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain,* &c. 1. *Joan.* 1. 8.

Ond er na allodd neb erioed (ond Chriſt ei hun) gyflawni 'r holl gyfraith a gwneuthur Ewyllys Duw yn berffaith; Etto y mae pob gwir-Griſtion, yn goſod eu galon, gyda *Dafyad* i gyflawni gorchymmynion Duw hyd

hyd y diwedd. Ac yn eu cadw hwynt mewn gwirionnedd er nâs geill, mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac yno y mae yſpryd y grâs (yr hwn yn ôl yr addewid a dywelltir allan yn amlach dan yr Efengyl) yn eu diddanu hwynt, ac yn eu cynnorthwyo yn eu hamcanion i wneuthur yr hyn a orchymmyno efe iddynt ei wneuthur. Ac wrth wneuthur hynny y mae Duw yn derbyn eu hewyllys da a'u hamcan yn lle Cyflawniad y Gyfraith: Gan oſod haeddigaethau Criſt (yr hwn a gyflawnodd y gyfraith troſom ni) i atteb dros ba beth bynnac a ſo diffygiol yn ein hufudd-dod ni.

Ac o herwydd hyn y mae *St. Joan* yn dywedyd *Nad iw gorchymmynion Duw yn drymmion.* 1. *Joan.* 3. 5. A St. Paul am dano ei hun. *Yr wyf yn gallu pob peth trwy Griſt, yr hwn ſydd yn fy nerthu i.* *Phil.* 4. 15. Yr un rhyw nerth a chynnorthwy 'r yſpryd yr ydym ninneu yn ei geiſio yn y deiſyfiad yma; fel y gallom wneuthur ei ewyllys mewn gwir ufudd-dod; Allu o honom *yn ôl meſur dawn Criſt forwhaſ ein haelodau*, groshoelio y cnawd, ei wynniau, a'i drachwantau, adgyfodi i newydd-deb, buchedd, rodio yn yr yſpryd, a gorchfygu y byd drwy ffydd.

Dymma 'r Gwaith, y gorchwyl y ſonniais i amdano.

2. Yn y Pattrwn y mae i ni yſtyried, Pwy ydynt, y rhai a oſodant i ni yr eſamp'

yma yn y nefoedd, Nid amgen, y Sainctiau a'r Angylion yn arbennig: Ar ſcrythur Lân yn dangoſ i ni megis mewn drŷch yn Eglur, y gwaſanaeth y maent yn ei wneuthur i Dduw, a'r modd a gwnânt iddo.

Ond chwchwi a ofynnwch, Ai poſſibl i Ddynion daiarol, llwythedig a chnawd, gwedi eu hamgylchu a gwendid gwynniau, a phrofedigaethau, wneuthur ewyllys Duw yn y modd a'r ſutt y mae 'r Angylion yn y nefoedd yn ei wneithur?

Nac ydyw ddim. Nid ydym yn gweddio chwaith, nac yn disgwil (ac nid iw Duw chwaith yn diſgwil ar ein llaw) gyflaw ni cyſtal ufudd-dod, ar y ddaiar, ac y maent hwy yn y nefoedd mewn graddau a pherffeithrwydd: ond gwir ufydd-dod diragrith, a thebyg i'r eiddynt hwythau. *Megis yn y nefoedd*: hynny iw, nid cyfartal, ond cyffelyb

A Choppi o hyn y mae 'r Prophwyd yn ei roddi i ni yn ei adroddiadd am yr angylion. *Pſal.* 103. 20. *Ei Angylion, cedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef, gan wrando ar leferydd ei air ef.*

A'r Tebygoliaeth yma rhwng ein ufudd-dod ni ar y ddaiar ag ufydd-dod yr angylion ſydd yn ſefyll, yn y pethau hyn.

1. Ewyllysgarwch a llonder ŷ ngwaith yr Arglwydd, yn ei wneuthur gyda phob parodrwydd, fel y mae 'r Angylion. *Job.* 1. 6.

Am

Am ba achos y dywedir eu bod hwy *yn ſefyll ger bron Duw* megis yn diſgwil cennadwri ueu pa beth a fynnei 'r Arglwydd iddynt ei wneuthur.

Hyn y mae Duw yn ei ddiſgwil gan bob dyn yn ei ufudd-dod, ac wrth hyn y mae ei wobr yn ymddibynnu *Os gwnaf hyn o'm bodd, y mae i mi wobr.* 1. *Cor.* 9. 17. *Os pregethaf.* v 16. *Rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.* 2. *Cor.* 9. 7. Nid yn elûſen yn unig, ond ym mhob gorchwyl arall, Nid gwiw gwneuthur gorchwyl yn y bŷd, yn athriſt nef trwy gymmell.

2. Bywiogrwydd a buander, yn dyfod o ewyllysgarwch, Nid y'nt hwy yn oedi gwneuthur y peth a orchymynnir iddynt. O herwydd pa ham y mae 'r ſcrythur yn eu llunio ac *adenydd* i arwyddocau eu brŷs a'u diwydrwydd ar gwblhaû, a dwyn i benn eu gorchwyl. Ac o ran hyn o gyffelybiaeth y dywed y Prophwydd *Dafydd, Briſſiais, ac nid oedais gadw dy orchymmynion. Pſal.* 119. 60.

3. Ffyddlondeb, perffeithrwydd calon ac uniondeb. Yr Angylion a ddychwelant gyd ac atteb y gwâs yn yr Efengyl, *Luc.* 14. 22. *Arglwydd, Gwnaethwyd fel y gorchymynnaiſt.* Y cwbl i gyd, a phob peth yn y modd a'r dreſn a orchymynnai efe: Ni wnant moi ewyllys yn hannerog, ond yn *ffyddlon*, yn glau, ac yn gwbl oll.

Hyn yw ein dyledſwydd ninnau, gadw o honom

honom oll orchymmynion Duw, a gwneuthur ei ewyllys yn glau ac yn ffyddlon; nid hyn a hyn a ddewiſom ar ôl ein ewyllys ein hunain. Canys *pwy bynnac a gatwo'r Gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc y mae efe yn euog o'r cwbl. Jac.* 2. 10.

Yn hyn yr oedd i'r *Prophwyd*, hyder i ſefyll ac ymddangos ger bron Duw megis un o'i Angylion, a dyweddyd. *Yna nim gwaradwyddid pan edrychaf ar dy holl orchymynion. Pſal.* 119. 6.

Canmoliaeth Brenin *Joſia* ydoedd: *Nibu o'i flaen frenin o'i fâth cf, yr hwn a drôdd at yr Arglwydd a'i holl galon, ac a'i holl enaid, ac a'i holl egni*, yn ôl *cwbl o gyfraith Moſes.* 2. *Bren.* 23. 25.

4. Diysgogrwyd: Gorchwyl tragwyddol yw ufydd-dod; Bob amſer yn ei wneuthur, ac ni dderfydd fyth mo'i wneuthur. Yr angylion nid ŷnt ûn amſer yn pallu, nag yn deffygio: Felly ninnau yn *gwneuthur daioni na ddiogwn, gwnawn* ewyllys Duw yn barhaûs, ac yn ddiyſgog: *Canys yn ei jawn bryd y medwn, oni ddeffygiwn. Gal.* 6. 9.

5. Yn ddiweddaf o ran rhoi ewyllys Duw o flaen pob peth arall, Ni ddylem ni wneuthur dim o'n hewyllys ein hunain ond fel y mae yn gyttûn ac ewyllys Duw, megis ac yn yr angylion nid oes na gwrth-wyneb, na chwant, na gogwyddiad arall yn y byd, ond i ufyddhau, a gwneuthur ewyllys eu harglwydd.

Dyro

Dyro i ni râs, O Arglwydd Dduw, (ac i'th holl bobl,) i wneuthur dy ewyllys di fel hyn, gyda phob parodrwydd calon, diwydrwydd, ffyddlondeb, a diyſgogrwydd, i ddilyn dy ddedd-fau, a chadw dy orchymynion. Cyd-ffurfia, O Dduw, dy *Eglwys* ſydd yn milwrio ar y ddaiar a'r hon ſydd yn ogoneddus yn y nefoedd. Pryſſûra 'r amſer a'r cyflwr i ni yn yr hyn y byddwn fel Angylion yn ſefyll ger bron dy orſeddfaingc, i'th addoli a'th foliannu gan ddywedyd, *Y fendith, a'r gogoniant, a'r doethnieb a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nertha fyddo i'n Duw ni yn oes oeſoedd. Amen.*

Preg. IX.

A'r ail ar y geiriau: *Bid dy ewyllys ar y y ddaiar*, &c.

CHwchwi a glywſoch ddau beth nodedic allan o'r geiriau hyn. 1. Y gwaith. 2. A'r modd y gwnelir. Y gorchwyl, gwneuthur *ewyllys* Duw: Y Pattrwm neu'r eſampl iw wneuthur ar ei ôl. *Megis yn y nefoedd*: Fel y mae 'r Angylion yn cyflawni ewyllys Duw gyd a phob parodrwydd, ffyddlondeb, buander, diyſgogrwydd, *&c.*

I'n

I'n cyfarwyddo ymmhellach, a chyffroi ein calonnau i ymarfer a'r weddi hon fel y dylem, y mae i ni yſtyried tri peth yn y chwaneg.

1. Y *rhag-ſeddyliau* a ddylei fod gennym pan fom ar fedr hyn.

2. Y *Petha da yddym yn ei ceiſio, a'r drwg yr ydys yn gweddio rhag ddynt*, yn yr un dymuniad.

3. Ein *dyledſwyd* ar ôl hynny, gwedi i ni weddio fel hyn.

1. Cyn dechreu gweddio, rhaid i ni feddwl ac yſtyried, beth iw *achos* y deiſyfiad hwn. Oni wyddys, mai 'n gwaſanaeth iw ufydd-dod, a'n dyled-ſwydd i gyd oll, gwneuthur ei ewyllys? A fwriwn ni ein baich ar Dduw, gan ddymuno, ar iddo ef ein helpu, i wneuthur yr hyn y mae efe yn gorchymyn i ni ei wneuthur ei hunain? Ai cymmwys i ni hyn fel gweiſion anfoeſawl, adel, i'n harglwydd adwneuthur ein gorchwyl troſom?

Ond yn wîr fel hyn y mae; a'n llygredigaeth naturiol ſy'n peri hyn o anghynghordiad. Am hynny rhaid i ni yn gyntaf peth yſtyried, a chrâff ſynniaw ar yr hyn a ddywed y gwirionedd amdadom: *Bod Coll-fwriad meddyliſryd calon dyn yn ddrigionus bob amſer. Gen. 6. 5.* Nid oes ynom o naturiaeth nac awydd, nac ewyllys i wneuthur ewyllys Duw. Je, *awyddus i ddrigioni: Gwar-guled, o dienwaededic o galon ac o gluſtiau*; yr ydym yn waſtad yn gwrth-

gwrth-wynebu 'r Yſpryd glân, *megis ein Tadau, felly ninnau. Act.* 7. 51. Ac fel y mae *Aaron* yn achwyn ar yr Iddewon i Dduw, *Ti adwaenoſt y bobl, mai ar ddrwg y maent. Exod.* 32. 22. Ac ar ôl awydd-fryd ein calonnau y bydd ein gweithredoedd, oni ettyl Duw ei hun gan dywallt ei râs yn ein calonnau, a pheri meddyliau a desiyfiadau da iddynt.

Wrth gydnabod yr achos hyn, mor anghenrheidiol i ni y deiſyfiad hwn o'r *weddi*, ſe 'n gwneir, fel e gweddei i ymbilwyr, yn oſtyngedig ger bron Duw: Ac wrth hynny yn gymmwys i dderbyn *grâs* i wneuthur ei ewyllys ef. Canys heb Râs ni wneir mor daioni: Ac ni cheir grâs chwaith heb oſtyngeiddrwydd. Canys y *mae Duw yn gwrth wynebu 'r beilchion, ond yn rhoddi grâs ir rhai goſtyngedid. Jac.* 4. 6. *Arglwydd, clywaiſt ddymuniad y tlodion: Parattoi eu calon hwynt: Gwrendy dy glûſt arnynt. Pſal.* 10. 17.

2. Fel y mae 'r achos yn mhawb, felly y mae 'r weddi yn gyffredinol a thros bawb: Nid ŷm yn conſidrio 'r llygredigaeth ani anol yma ynom ein hunain yn unig, ond ym mhawb oll.

A'r yſtyriaeth hwn a bâr ynom zêl i Dduw, a thoſturi tuag at ein brodyr: yn y rhai y mae i ni fwy o hyder i weddio.

Pan edrychwn yn ddyfal ar ein anufudddod cyffredinol, modd yr ammherchir ewyllys Duw yn hollawl, ac y dianrhyde-

ddir ei enw yn ei ordeinhadau; pwy na ocheneidiei yn ei galon, pwy na ddygei (gyd ac *Elias*) *fawr zêl dros Arglwydd y lluoedd*? gan ymgais, megis ac wrth foddion eraill, drwy daer-weddi yn arbennig, at wîr ufudddod?

A'r un modd y dylei 'r ystyriaeth hwn beri cyffro ynom drwy waith cariad perffaith tros ein brodyr, gan wylo o herwydd eu pechodau a'u drwg-feddyliau hwynt, megis ac yr eiddom ein hunain. Yn yr hyn y mae 'r Prophwyd *Dafydd* yn esampl i ni. *Gwelais y troseddwyr, a gresynnais, am na chadwent dy air di. Psal.* 119. 158. *Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwasmt dy gyfraith di.*

Ym mysc nifer, o gynnerthwyon eraill nad esceuluswn hyn yn anad dim, sef *gweddio tros ein brodyr*, ar i Dduw o'i fawr drugaedd orchfygu nerth pechod ynddynt hwythau, er gallu o honom i gyd ufuddhau iddo, a chyflawni ei ewyllys ef yn unwedd.

3. Y mae i ni rag-ystyried yr achos, pa ham y gosodir yr Angylion yn battrwm o ufudd-dod, iw meddwl a'i hadrodd yn ein gweddiau.

Canys er addysc ini y mae hyn hefyd, *Pulchra est Commonefactio de eo quod Paulus dicit.*

1. Rhybudd deg o hyn a ddywaid yr Apostol. *Col.* 1. 19. 20. *O blegid rhyngodd bodd i'r Tâd*

Tâd, drigo o boh cyflawnder ynddo ef, (i. e) yn-ghriſt. *Ac (wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) trwyddo ef gymmodi pob peth ag ef ei hun, trwyddo ef meddaf, pa un bynnac ai pethau ar y ddaiar, ai pethau yn y nefoedd: A chwithau y rhai oeddych ddiethriaid a gelynion mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododdefe. Yn gyntaf peth; pan* weddioch, nac anghofiwch y cymmod, heb yr hwn nid oes na ffordd na dyfodfa at y Tâd.

2. *Futurum uuum Cœtum* &c. Meddyliwn, na bydd yn y diwedd *ond un gynnulleidfa* o ddydion, a'r Angylion bendigedic, *O herwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau at Dád ein Harglwydd Jeſu Criſt, O'r hwn yr henwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaiar. Epheſ.* 3. 14. 15.

Yr un teulu ydym, a'r un gwaſanaeth y mae Duw yn ei ddisgwil ar ein llaw: Gweddiwn, allel o honom ei guplau.

3. *Nos futuros ἰσαγγέλους.* Y byddwn yn gydradd, ac yn gwbl debyg i'r Angylion, fel y dywaid ein jachawdwr. *Yn yr adgyfodiad, nid ydynt nac yn gwreicca, nac yn gwra: Eithr y maent fel Angylion Duw yn y nef. Matth.* 22. 30.

Yn gymmaint gan hynny a'n bod ni yn aelodau o'r un *corph*, gyda'r Angylion, Pen yr hwn yw *Chriſt*, a'n bod i gyd yn gydweiſion o'r ûn teulu, yn yr hwn y mae Chriſt yn Dâd ac yn Arglwydd, *pa ryw fath ddylnion a ddylem ni fod, mewn ſanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?*

Oni ddylei hyn gyffroi ein calonnau iw dynwared, fel y byddem yn y fuchedd hon hefyd yn debyg i'n cydweiſion: fel, pe bai boſſibl, na bom yn ôl mewn un ddawn, i ymorcheſtu ac ymegnio, ar wneuthur ewyllys Duw gyd a phob parodrwydd, ewyllys-garwch, a ffyddlondeb fel y maent hwythau.

Ond fe a ddywaid rhyw un: Nid iw hyn boſſibl i ddynion llygredig ar y ddaiar fod fel Angylion Duw, yn ddifrecheulyd, ddibechod; Nid iw ewyllys Duw chwaith i'n gwneuthur felly tra bom yn ein daiarôl dŷ o'r babell hon, wedi ein gwiſco a llygredig gnawd am danom: I ba beth a dymunwn beth amhoſſibl i Ond ofer i ni weddio fel hyn, geiſio gwneuthur ewyllys Duw yn erbyn ei Ewyllys? Canys nid iw ewyllys Duw i'n gwneuthur mor berffaith mewn ufudd-dod ar y ddaiar, fel y mae 'r Angylion yn y nefoedd.

Myfi a attebaf: Ofer yn ddiau a fyddei ceiſio pethau ammhoſſibl, oni bai rhyngu bodd i Dduw ei rhoi i'r rhai a'u ceiſiant. Ond fe a rydd Duw gyflawniad ei ewyllys i'r rhai a'i gofynnant, yn ddechreuedic yn y bŷd hwn, yn gyflawn orphennedig yn y bŷd a ddaw. *Awn rhagom at berffeithrwydd*, medd yr Apoſtol, *Hebr.* 6. 1. Rhaid ymyſtyn, fel y gwnaeth ynteu, at y pethau o'r tu blaen, er na's gallom etto eu cyrhaeddyd.

ddyd. Oni ymyſtynwn attynt yr awrhon, ni chawn ni fyth ymaflyd ynddynt.

Nid oedd *St. Paul* yn bwrw ddarfod iddo gael gafael; Ond *yn cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw ynghriſt Jeſu. Phil.* 3. 13. Felly ninneu nid ŷm yn disgwil yma gael ein perffeithio, ond ceiſio myned ymlaen tuag at berffeithrwydd.

Y mae rhai pethau a fyn Duw fod, ag etto ni ddylem ni mo'i dymuno. Ewyllys Duw ydyw marw o'n rhieni ac etto y mae yn cyfrif yn bechod, i'r neb a ewyllyſi ei hynny. Ei ewyllys ef iw, fod ei *eglwys* tan y groes, a'i etholedigion mewn blinder a chyſtudd: Ac etto nid ydym ni yn gweddio, ar iddo fwrw ei *groes* arnom ond yn hytrach ei thynnu hi oddiwrthŷm.

Yn y gwrthwyneb, ni fynn Duw roddi i ni tra fôm yn y bŷd hwn gwbl ymwared oddiwrth bechod a phob drwg; ac etto yn peri i ni ddymuno, a cheiſio a gweddio am ryddhâd i ni ein hunain, a llwyr ddeſtriw iw elynion.

Felly er na s gallwn wneuthur ewyllys Duw mor berffaith yn y modd a'r ſûtt y mae 'r Angylion yn y nefoedd; etto rhaid i ni ymegnio ar wneuthur ein goreu, a thrwy gynnorthwy ei râs ymeſtyn, a myned rhagom at berffeithrwydd. Rhaid i ni ddechreu yma, a chynhyddu fwy fwy nes i ni gyrhaeddyd ein perffeithiad yn y nêf.

Ym

Ym mhellach er bod ein Duw yn rhoddi i ni râs i ddaroſtwng y cnawd, a gorchfygu mewn rhyw feſur ein chwantau pechadurûs, fel y gallom yn ôl meſur dawn Chriſt wneuthur ei ewyllys; Etto fe a fydd pechod, a llygredigaeth, fyth yn ymdrechu, ac wrth hynny ein ufudd-dod fydd ammherffeith.

Er ein bod yn ymdrech, ymorcheſtu, ymegnio, ac yn goſod ein calonnau ar wneuthur ei ewyllys etto'r ydym yn fyrr o lawer, yn enwedic, yn y modd y gwnelom: *Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. Jac.* 3. 2. *Seith-waith y ſyrth y cyfiawn. Dihar.* 24. 16.

Ie, wrth wrando 'r gair, Cymmuno, gweddio, y mae yrofedigaethau, diffygion, amryfuſeddau yn ymluſco i mewn, yn lefeinio 'r aberth, yn ſuro 'r gwaſanaeth, a'i wneuthur yn anghymmeradwy.

A hyn hefyd a ddylei ychwanegu ein goſthyngeiddrwydd, fel na's gallom orfoleddu mewn un weithred dda a wnelom: Na thybied fod ein cyflwr yſprydol yma yn berffaith, ac yn ſafadwy. Am hynny pa mwyaf a chryfaf fo 'r grâs ynom, cymmwyſach fyddwn i'r gwaſanaeth hwn, a rheitiach fyth i ni weddio, *Gwneler dy ewyllys ar y ddaiar, &c.* Parattoa, O arglwydd, ein calonnau i weddio arnat, a pha'r i ni feddwl y pethau a fônt er ein llês, ag yn addas

addas ith waſanaeth-wyr ; a dyro i ni râs i wneuthur ar ôl dy ewyllys a'th orchymmyn, &c.

Preg. X.

A'r drydydd ar y geiriau : *Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y Nefoedd.*

DYmma 'r drydydd waith yr wyf yn dyfod attoch yn y geiriau hyn iw hyſpyſu i chwi : Er hynny na thybyged neb fy mod i yn ſefyll yn rhyhir yn yr un man, yn rhyhelaeth ar un peth mor eglur, mor gydnabyddus i bawb ; Pwy nis gwyr, mai ei ddyledſ-wydd iw, Gwneuthur ewyllys Duw, a bod yn ufydd iddo ? Swm y cwbl, medd y *Pregethur*, iw, *Ofna Dduw a chadw, ei orchymmynion : Canys hyn iw holl Ddyled dyn. Preg.* 12. 13. Hyn iw ein dyled yn ſiccr, gwneuthur ewyllys Duw, a chadw ei orchymmynion ; Ond yn hyn yr ym ni fyth yn ddyled-wyr : ac ni thalwn yn ein bywyd gymmaint, ac yn y modd, y mae 'n ddyledus arnom.

Och, na fyddei afraid i mi eich addyſcu pa

pa beth iw ewyllys Duw o'ch plegid, pa fodd a dylech eu wneuthur. *Canys nid yw 'r wybodaeth hon gan bawb.* 1. *Cor.* 8. 7. A Phe bai; etto fe a fyddei rhaid i mi gyffroi eich meddwl puraidd trwy ddwyn ar gôf i chwi, fel y byddo gôfus gennych y geiriau a dderbyniaſom gan yr Arglwydd, a'r gorchymmyn a roddes efe ei hun i ni.

Ynghyd a'r Gwaith, a'r Pattrwm a oſodwyd i ni yn y Deiſyfiad yma, (y gorchwyl, Gwneuthur *Ewyllys* Duw, a'r ſutt a'r modd y mae ini eu wneuthur, *Ar y ddaiar, megis ac yn y nefoedd*: gid a phob ewyllysgarwch, a pharodrwydd, yn llonn, gennym fod yn wiw gan Dduw dderbyn ein gwaſanaeth, a ninnen yn weiſion anfuddiol, anheilwng iddo:) Ynghyd a hyn, meddaf, myfi, a ysbyſais yn nailltuol y rhag-feddyliau a ddylei fod ynom, pan fôm ar fedr Dywedyd hyn. Y mae etto yn ôl wrth y doſparthiad, a'r addewid cyntaf. 1. Deiſyfiadau da nailltuol a gynhwyſir yn y geiriau hyn. 2. A'r gweithredodd da, y mae Duw yn disgwil ar law 'r dyn a ddywedei hyn.

1. Yr ydym wrth hyn yn dymuno ar i Dduw trwy ei râs a chynhyrfiad ei Yſpryd, *oſtwng* ein calonnau at ei ſancteiddiaf gyfreithiau, a'i gwneuthur yn awyddus i ddyſcu, a chydnabod a gwneuthur ei ddatcuddiedig ewyllys. Fal hyn y gweddiei y

Prophwyd

Prophwyd Dafydd. Goſtwng fy nghalon at dy dyſtiolaethau. Pſal. 119. 36. *Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymmynion.* v. 34. 35.

Deiſyfiadau da, gwreiddyn ŷnt neu ddechreuad gweithredoedd da: a mam ufuddddod iw tuedd meddwl, ac awydd-fryd calon tuag at dyſtiolaethau Duw. Nid iw boſſibl ini wneuthur ewyllys Duw, oni bŷdd ynom wybodaeth o hono, oni bŷdd ynom ewyllys, a ſerch, ac ymgais, ar ei wneuthur. Nid iw boſſibl i ni chwaith fod ſelly, a'n calonnau wedi eu goſtwng tuag at Dduw, ac yn awyddus i ufudd-dod, oni chawn i trwy, ddymuniad, a thaer weddi ganddo. *Canys Duw ei hun yw'r hwn ſydd yn gweithio ynoch ewyllyſio a gweithredu o'i ewyllys da ef. Phil.* 2. 13.

2. Yn ail er mwyn hynny nyni a attolygwn i Dduw ar iddo ddaroſtwng a diſlannu nerth ein llygredigaeth, trwy 'r hwn ein cildynnir oddiwrth ufudd dod ag ein rhwyſtrir beunydd rhag gwneuthur ewyllys Duw fel y dylem: Ar iddo roddi i bobun o honom Râs i ymwadu ag ef ei hun; a'i ddilyn ef; i ymwrthod a'n trachwantau pechadurus, i fod yn ddilynwyr Duw, fel Plant anwyl: yn Ddiſcyblion i Griſt, adnabyddus wrth ufudd-dod. *Wrth hyn y gwybydd pawb mai Diſcyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad iw gilydd. Joan.* 13. 35. (i. e,) os cedwch

fy ngorchymmyn. Ond nid iw hynny boſſibl i'r neb ni ymwedu ag ef ei hun fel y dywaid ein jachawdr ei hun. Canys efe a ddywedodd wrth bawb. *Os ewyllyſia neb ddyfod ar fy ôl i, ymwaded ag ef ei hun, a choded ei groes beunydd; a dilyned fi. Luc.* 9. 23.

Nyni a ddymunwn hyn yn gyffredinol, gan weddio, nid troſom ein hunain yn unig, a'n Deiryd, ond tros bawb oll ar yr holl Ddaiar, ar i Dduw roddi ei râs i bob dyn fel y gallo efe fod yn gadwedic. *Ewyllys Duw iw*, medd yr Apoſtol *bôd pob dŷn yn gadwedig*; (hynny iw) o'n rhan ni, Ei ewyllys ef iw, ar i ni geiſio, a gweddio am gadwedigaeth pob rhyw ddŷn. Yn hyn y mae ei reſwm yn ſefyll, yn ein hannog *o flaen pob peth, i wneuthur ymbiliau, gweddiau, a deyſyfiadau, a thalu diolch dros bôb dŷn, Dros frenhinoedd a phawb ſydd mewn goruchafiaeth, fel y gallom ni fyw yn llonydd, ac yn heddychol mewn pob duwioldeb ac goneſtrwydd, Canys hyn ſydd dda a chymeradwy ger bron Duw ein Ceidwad, Yr hwn ſydd yn ewyllyſio bod pob dyn yn gadwedig a dyfod i wybodaeth y gwirionnedd.* 1. *Tim.* 2. 1. 2. 3. Attolygwn iddo droi ein calonnau ni i gyd, a chalon pob rhyw ddŷn oddiwrth bechod, fel y gallo fod yn ôl ei ewyllys yn ufudd wâs, dâ, a ffyddlon iddo, ac yn y diwedd yn gadwedig.

4. *Monemur petere ut Conformitas inter Eccleſiam Angelorum & hominem inchoetur in hac vitâ.*

Chemn.

, *Chemn.* Yn hyn y mae i ni rybudd i weddio , ar i Dduw yma ddechreu cydffurfiad ei , Eglwyſi; i'r hon ſydd ar y ddaiar ddechreu, , ac ymegnio fod yn debyg ir llall ſydd yn , y nefoedd ; Ar iddo gadarnhau ein cyflwr ynghriſt Jeſu, a'n gwneuthur beunydd yn debyccach i'r Angylion ſanctaidd, tra fôm yma yn milwrio yn beryglus, a phryſfuro 'r amſer ar cyflwr , pan gaffom ein perffeithio , i wneuthur ei ewyllys yn ddiymwâd , ddirwyſtr mewn gogoniant tragwyddol.

5. Yn gymmaint a'n bod yn y filwriaeth hon o fywyd yn disgwil erlid a chyſtudd , a dwyn y groes os mynnwn fod yn ddiſcyblion i Griſt Jeſu (Canys , *Je* , *medd yr Apoſtol , a phawb ar ſy'n ewyllyſio byw yn Dduwiol yn Ghriſt Jeſu a erlidir.* 2. *Tim.* 3. 12.) *Petimus patientiam* , &c. Yr ydym yn gweddio am ammynedd , allu o honom ddyweidyd gyd a'n jachawdr yn ei ddioddefaint. *Fy Nhâd, os iw boſſibl aed y Cwppan hwn heibio oddiwrthif ; Etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllyſio , ond fel yr ydwyt ti. Matth.* 26. 39.

A thrachefn , *Fy Nhâd , oni's gall y Cwppan hwn fyned heibio oddi-wrthif , na byddo i mi yfed O honaw , gwneler dy ewyllys di.* v. 42. Gwna ninneu , Arglwydd, yn foddlon , ufydd, ddaronſtyngedic i'th ewyllys. Pa un bynnag a fynni i ni fod , ai tlawd , ai cyfoethog, hwylus , ai afiachus , rhydd, ai caeth, Dyro

i ni mewn hawddfyd ddiolchgarwch a gwir-lawenydd, mewn adfyd ddioddefgarwch, a bodlonrwydd mewn pob cyflwr, gan wybod a chyfaddef mai wrth ewyllys Duw y Digwydd pob peth i ni.

Wele, dedwydd yr ydym yn gadel, [neu 'n cyfrif] *y rhai ſy ddioddefus. Chwi a glywſoch am ammynedd Job, ac a welſoch ddiwedd yr Arglwydd; Oblegit toſturiol iawn yw 'r Arglwydd a thrugarog. Jac.* 5. 11. Gweddiwn ninneu ei dofturi a'i drugaredd, am y dedwyddwch hwn, y mae adfyd ynteu yn gweithio drwy ewyllys Duw i bawb a'i carant. Fel hyn y mae *St. Paul* yn gweddio tros y *Coloſſiaid*, ar i Dduw eu *nerthu hwy a phob nerth yn ôl ei gadernid gogoneddus ef, i bob dioddefgarwch, a hir ymaros gyd-a llawenydd. Col.* 1. 11.

6. Yn ddiweddaf chwi a wyddoch y modd y mae *Satan*, a'n llygredigaeth yn ein cynhyrfu i wneuthur pob peth yn erbyn ewyllys Duw, yn ein rhwyſtro: gyd a'r *Apoſtol*, i wneuthur y pethau yr ydym yn eu hewyllyſio, yn ôl ewyllys Duw. *Canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur nid iw fodlon gennif, Canys nid y peth yr wyf yn ei ewyllyſio, hwnnw yr wyf yn eu wneuthur, eithr y peth ſydd gâs gennif, hwnnw*, &c. *Rom.* 7. 13. Gweddiwn ar i Dduw geryddu Satan, dynny ymmaith oll rwyſtrau ufudd-dod a Duwioldeb, a thrwy Jeſu Griſt ein Harglwydd ein *gwared* yn hollawl oddi-wrth *gorph y farwolaeth honno*. Rom. 7. 24.

Chw-

Chwchwi a wyddoch mor gil-dynnus iw naturiaeth dŷn, mor ammharod i wrando ac i dderbyn gair Duw, yn yr hwn y datcuddir ei ewyllys, yn ammheuus i'r gwirionedd, yn ymaryſon ynghylch, ac yn erbyn y pethau a ddylent eu credu: Gweddiwn ar iddo dynny ymmaith, a throi oddiwrthim a'n *Heglwyſi* y fâth gyndynrwydd ac anghrediniath. Ac yn y gwrthwyneb, (megis ac yr ysbyſodd efe ei ewyllys yn ei air, ac a'i cadarnhaodd trwy lŵ) roddi i ni i gyd *Yr gluſt yn clywed, a'r llygad yn gweled, Yr Arglwydd a wnaeth bob un o'r ddau.* Dihar. 20. 12.

Chwi a wyddoch mor esgeulus, ac mor ddiog ydym yn gwaith yr Arglwydd, yn barod i gymmeryd eſcus o bob peth er gadel ei ewyllys ef heb ei wneuthur. Gweddiwn rhag y bai achryslawn hwn, gan feddylied, beth y ddywed Chriſt am y gwâs Diog. *A'r gwâs hwnnw a wybu ewyllys ei Arglwydd, ac nid ymbaratodd, ac ni wnaeth yn ôl ei ewyllys ef a gurir a llawer ffonnod.* Luc 12. 47.

Chwi a wyddoch mor annioddefus ac mor ffrom iw llawer un tan y groes, yn gwingo yn erbyn y ſwmbylau, yn grwgnach, ac heb ddaroſtwng i ewyllys Duw yn hyn hefyd. Gweddiwn gan hynny rhag annioddef-garwch, an-addas i Griſtianogion, yn enwedig a ni yn gwybod, fod, ie, *holl wallt ein pennau wedi eu cyfrif*; *Ac ni ſyrth un o*

honynt

honynt i'r ddaiar heb ewyllys ein Tâd nefawl; Pa faint mwy y gweryd efe ei blant ſydd mewn ammynedd ac hir ymaros yn diſgwil iechydwriaeth?

2. Yr âil peth iw 'r gweithredoedd, a'r ymarfer a ddylei ganlyn hyn o'r weddi. Ceiſiwn wneuthur yn ddiau y peth yr ydym yn ei ddymuno.

1. *Profwn beth iw Daionus a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.* Rom. 12. 2. Dyſcwn, a cheiſiwn wybod, fel y gallom ei wneuthur Bydded pob un yn ſiccr, ac yn ddiymwâd yn ei feddwl ei hun, fôd y peth y mae yn ei wneuthur yn gyttûn a chyfraith Dduw, ac yn ôl ei ewyllys. Anwybod o gyfraith teyrnas, neu ymerodraeth daiarol ni wna neb yn eſcuſodol, a wnelo yn erbyn y gyfraith: Am hynny mor ddyfal ac mor ofalus y chwiliwn y llyfrau, ac y ceiſiwn gyngor y dyſcedig rhag i ni un amſer droſeddu a gwneuthur yn erbyn y gyfraith, rhag dyfod ffîn neu goſp arnom yn ddi-wybod. Pa faint mwy gofalus, y ddylem ni i gyd fod, yn y pethau a berthynent i'n heneidiau, yn yr hyn os troſeddwn mewn modd yn y bŷd, ni fydd mor eſcus ond trwy edifeirwch; Am yr hyn y bŷdd y goſp yn dra-ffyrnig; taflu y troſeddwyr i dân uffern, *lle nid iw eu prŷf hwynt yn marw, na'r tân yn difodd.* Marc. 9. 48.

Nid iw hyn ond rhagrith, fel pe gwat-

worid Duw, ddywedyd o honoch, *Gwneler dy ewyllys*, heb ymegnio ar ei wneuthur. Ymogelwch gan hynny farnedigaeth y Phariſæaid *ragrithwyr. Yn ofer i mi anrhydeddant*, Gwae chwi, os dywedyd hyn a wnewch yn unig, heb geiſio gwneuthur ewyllys Duw.

2. *Na rodiad neb yn afreolus.* 2. Theſſ. 3. 6. Eithr pob un yn ei alwedigaeth ar hyd ffordd yr Arglwydd, ar ôl rheol yr alwedigaeth a drefnodd Duw iddo: Gan ymddwyn nid yn unig yn ei alwedigaeth cyffredin, fel y gweddei i Griſtion, mewn uniondeb a ſancteidd-rwydd; ond pob un yn ei gyflwr priodol, yn ceiſio gogoneddu ei Arglwydd fel gwâs ffyddlon ym mhob gorchwyl, *fel y rhoddwyd iddo ràs yn ôl meſur dawn Chriſt.* Eph. 4. 7.

3. Coded pob un ei groes heb rwgnach: bydded ddioddefgar mewn cyſtudd, a blin fyd pa fodd bynnag y gwascant arno. Amſer gweddi yn arbennig iw, pan fo neb mewn adfyd: Ac ir amſer nid oes un weddi gymmhwyſach na hon, *gwneler dy ewyllys.* Cymmered y Prophwyd *Dafydd yn eſampl*, a dyweded, fel y gwnaeth ynteu, *pan fo yn gyfyng arno, wele fi, gwnaed yr Arglwydd i mi fel y byddo Da yn ei olwg.* 2. Sam. 14. 26.

4. Holed ei gydwybod ei hun, pa zêl fydd gandd o yn ei holl ymarweddiad i ddyn wared yr Angylion.

1. Ar

1. Ar ddirgeledigaethau yr Efengyl y *mae 'r Angylion yn chwennŷchu edrych.* 1. Pet. 1. 12. Gwnawn ninneu yr un môdd.

2. Yr Angylion a weiniaſant i Griſt, yn ei demptaſiwn. *Matth.* 4. 11. Yn ei agoni, neu ymdrech meddwl. *Luc.* 22. 42. Ei eſcynniad, *Act.* 1. 10. Felly y dylem ninneu, ym mhôb peth, ar a allem erddo.

3. Yr angylion a lawenychent o achos eu cydweiſion. *Y mae llawenydd yngwydd angylion Duw, am un pechadur a edifarhao.* Luc. 15. 10. Ac yn ddrwg tros ben ganddynt edrych ar anufudd-dod, a dianrhydeddu Duw, drwy ammherchu a troſſeddu ei ewyllys. Felly y dylem ninneu fod yn hôff gennym, edrych ar y pethau yr anrhydeddir Duw ynddynt. *Yn llawenychu* gyda 'r Apoſtol, *wrth weled yr Eglwys, a chadernid ei ffydd ynghriſt.* Col 2. 5. Yn ddrwg gan ein calonnau, weled amlder ddrigioni yn y bŷd, a bod gormod (ſywaeth,) yn rhodio yn afreolus, yn erbyn 'ewyllys Duw, ai ſanctaidd gyfreithiau.

Dyro ini râs, O Arglwydd, i weddio fel y dyſcaiſt, ac i ſyw fel y mae dy weddi yn ein hannog, gan geiſio beunydd, wneuthur dy ewyllys di, ar air a gweithred megis yn y neſoedd, felly ar y ddaiar hefyd. Gwrando Arglwydd ein gweddiau, er mwyn dy Fâb, yr hwn a ddyſcodd i ni

weddio

weddio, i'r hwn gyd a thi a'r yſpryd glân y bo holl anrhydedd a'r gogoniant. Amen.

Preg. XI.

Luc. 11. 3: *Dyro i ni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol.*

Hyd yn hyn, yn ôl trefn y weddi, chwchwi a glywſoch y pethau ynddi ſy berthynaſol i Dduw, ac eglurhâd ei ogoniant. Megis ac y mae yn eglur ym mhob un o'r deifyfiadau, a Duw yn cydnabod ei eiddo ym mhôb un o honynt. Dy enw, Dy Deyrnas, Dy Ewyllys di. Yn y rhain 'r ydym yn dymuno allel o honom ni wneuthr y pethau perthynaſol i Dduw.

Yn y fan yma yr ydym yn dechreu, ac o hyn allan, yn myned rhagom i weddio troſom ein hunain, am bethau anghenrheidiol i ni tra fôm yn y *corph a'r babell hon.* Dyro i ni, maddeu i ni, Na arwain ni, Gwared ni. *Petimus quæ pro hujus vitæ miſeriâ nobis neceſſaria ſunt.* , Yr ydym yn dymuno ar , Dduw, ar iddo roddi i ni, y pethau a , font anghenrheidiol i ni o ran trueni, a , greſyndod y bŷd preſennol hwn.

Quæ quaſi ſecunda tabula eſt orandi formula. Megis ac y rhoddod Duw ei orchymynion i

Foesen gwedi eu argraphu ar Ddwy lêch: Yn y gyntaf, yr oedd wedi cynnwys ein dyledswydd tuag at Dduw, y pethau a berthynant iddo ef ei hun; Yn yr ail, gorchymmynion o'n dyled i ddynion, am bethau perthynasol i ni ein hunain rhyngom ai gilydd: Felly y trefnodd Crist yn ei weddi, gan ddyscu i ni geisio o flaen dim arall yn y rhan gyntaf o'i weddi, *Deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef*; Ac wedi hynny, Fara, a Maddeuant, ac Amddeffynniad ar i Dduw ein Tâd nefawl roddi i ni y pethau anghenrheidiol hyn yn chwaneg.

Ond, megis, a ni yn gweddio am bethau perthynasol i ogoniant Duw y dymunwn fendithion i ni ein hunain, yn yr hyn y datcuddir ac eglurheir ei ogoniant ef: Felly wrth weddio am y bendithion hyn i ni ein hunain, yr ydym hefyd yn *edrych*, a hynny yn ddirfawr, at ogoniant duw. Canys i'r pwrpas hwnnw, er gogoniant i Dduw y dymunwn eu mwynhau.

Oni pherthyn i ninnau, fód gennym y rhadau a'r bendithion yn yr hyn yr eglurheir ei ogoniant ef, sef, Sancteiddiad ei Enw, Ufudd-dod iw Deyrnas, a'i ewyllys? Ag yn y gwrthwyneb oni pherthyn iddo yntef, a'i ogoniant, ein bod ninneu ein cael ac yn derbyn ar ei law ef, gynhaliaeth, faddeuant, warediad, ac amddeffyniad? A'r Deisyfiadau hyn nid ynt amgen

nag

nag *ymddibunnu* wrth y lleill o'r blaen, megis amlygiad o'r moddion a'r ſutt ar ein hufudd-dod, ni, a'n dyled-ſwydd yn ſancteiddio Enw Duw.

Canys yn y rhai cyntaf y gweddiwn am Râs i wneuthur ewyllys Duw, i ymddaroſtwng i Deyrn-wialen ei frenhiniaeth ef, *i Sancteiddio ei Enw*: Yn y rhai diweddaf hyn, y gweddiwn am yr oll fendithion, yn yr hyn, a thrwy'r hyn ei cynhelir, ac ein nerthir i wneuthur hynny, i ddangos ac i gwblhau ein hufydd-dod. O herwydd yr ydym yn ſancteiddio Enw Duw, yn ymddaroſtwng i'w frenhiniaeth. Yn gwneuthur ei ewyllys, pan fwriom ein baich ar yr Arglwydd, gan ymddiried i ragluniaeth ei ddaioni ef am fwyd, a dillad, ar oll bethau *anghen-rheidiol* i'r bŷd trangcedic hwn, gan ymddiried yn ei nerth ei râs, ai allu, i'n cryfhau yn erbyn profedigaeth, ac in gwaredu rhág y Drwg.

Yn y rhai cyntaf, y gweddiwn am râs i fôd yn barod ac yn ewyllys-gar bób amſer i *ſancteiddio* Duw yn ein calonnau ym mhôb cyflwr; Yn y rhai hyn y gweddiwn am gynhaliaeth a chomffordd, fel y gallom fyw yn gyſſurûs i wneuthur hynny.

Yn y Deiſyfiad hwn y mae i ni y pethau hyn iw yſtyried yn nailltuol.

1. *Quid.* Pa beth yr ydym yn ei geiſio.

Apto.

2. *Quale.* Pa fath, pa ryw fara a ddymunem: ἐπιούσιον.

3. *Cujus.* Eiddo pwy ydyw: ἡμῶν. Yr eiddo ein hunain.

4. *Quando.* Pa bryd, a thros pa hyd, neu amſer. τὸ καθ' ἡμέραν.

5. *Quibus.* I bwy yr ydys yn ei geiſio. ἡμῖν.

6. *A quo.* Gan bwy yr ydys yn ei ddisgwil. Πατὴρ ἐν οὐρανοῖς.

7. *Quomodo.* Pa fôdd y dymunem ei dderbyn. Δίδυ, *Trwy rodd.*

1. Am *fara*, nid rhaid i chwi ddywedyd o honof wrthych. Pa beth ydyw. Ond gwybyddwch hyn, fód yn arferol ywſio 'r gair, yn enwedig yn y ſcrythur Lân, i arwyddocâu llawer o bethau.

1. F' ai cymmerir *Meton*: yn lle 'r ŷd, o'r hwn y gwneir y Bara. *Nid oedd bara yn yr holl wlâd.* Gen. 47. 13. (ie,) ŷd Pſalm. 104. 14. 15. *Fel y dycco fara allan o'r Ddaiar, a gwin, ac olew.* Nid iw 'r ddaiar yn dwyn bara a gwin yn ebrwydd, ac yn ddigyfrwng, yn y dull a'r goſgedd y bwytteir ac yr yfir hwynt, ond yr ŷd a'r grawn o'r rhain drwy lafur a chelfyddyd dyn y gwneir y gwin a'r bara.

2. F' ai cymmerir *Synecd*: yn lle pôb math ar fwydydd Felly 2. Bren. 6. 22. Yr arlwy fawr a roddwyd o flaen y Syriad wrth air y Prophwyd Eliſha, a elwir *Bara a dwſr*. A'r un môdd yn yr Eſengyl, holl ddefnydd, neu arlwy gwledd y Phariſæad, a wa-

a wahaddodd yr Jeſu a elwir *bara* 'n unig. *A bû, pan ddaeth efe i dŷ un o bennaethiad y Pharſæaid i fwytto bara.* -- Lu. 14. 1. Ag v. 15. *Gwyn ei fyd y neb fwyttao fara yn nheyrnas Dduw*, (i e) fruetur Convivio *L. Br.* Y neb a gaffo ran o'r wledd yſprydol, dragwyddol honno.

Jerem. 11. 19. Ffrwyth y pren a elwir Bara. *Deſtrywiwn y pren ynghyd a'i fara.* (ie,) ffrwyth. A llaeth geifr. *Dihar.* 27. 27. A Phorthiant anifeiliaid. *Pſal.* 147. 9.

3. Fe ai cymmerir yn lle pob math a'r gynhaliaeth, pob peth yn cynnal bywyd, pob help i'n cadw ni yn fyw: Megis arfer o bob celfyddyd, neu alwedigaeth gyfraithlawn, A maethâd, meddyginiaeth, *&c.* Y gwr doeth am hwſwi dda *Tebyg yw hi i long marſiandwr*, portans Panem de longe. *Dihar.* 31. 14. *Yn dwyn ei bara*, neu ei hymborth o bell.

Yn y ſan yma y mae 'r gair yn cynnwys hyn i gyd, cyn helaethed a'n cyfreidiau, pob peth anghen-rheidiol in cadw ni yn fuw, bwyd a diod, a dillad, heddwch iechyd, rhyddid, pob peth cymmheſur, a chyttûn a'n cyflwr, ynom ein hunain, ein teulu, ein ymarweddiad, llês yr Eglwys neu 'r Cyffredin.

Yn hyn y mae ein jachawdr yn ein hyfforddi ac yn ein cyfarwyddo i weddio am bethau bŷdol hefyd, pethau perthynas i'r bywyd

bywyd marwol hwn. Ac am hynny nid oes ûn fendith, neu ddawn amſerol yn y byd, a ellir ei ddymuno yn gyfiawn, ni's cynhwyſir yn y deiſyfiad a'r mynegiad hwn, *o Fara.*

Iſaac yn gweddio ar yr Arglwydd dros ei wraig. *Gen.* 25. 21. Y Canwriad dros ei wâs. *Matth.* 8. 6. Yr Apoſtoi, Dros bob dyn, *yn enwedig dros frenhinoedd a phawb mewn goruchafiaeth, fel y gallom fyw yn llonydd ac yn heddychol.* 1. Tim. 2. 2.

David a *Salomon* yn erbyn rhyfel, newyn, haint, lloſcfa, malldod, locuſtiaid a'r lyndys. 1. *Bren.* 8. 37. &c. Nid iw eu gweddiau hwynt i gyd ond darnau priodol o'r weddi gyffredinol yma, nid ŷnt ond rhai a berthynant i'r deiſyfiad hwn. A than un gair *Bara*, y deellir pob peth a ellir ei ddymuno er mwyn ein cynnal yn y ſuchedd breſennol hon.

Yn arbennig yr ydym wrth ddywedyd hyn yn gweddio ar ein Tâd nefawl, ar iddo fendithio pob peth *perthynaſol* i'n cynhaliaeth, a'n bywyd. Pa peth iw *ffon* y bara heb fendith arni? Ni ellir mor pwyſo arni; hi a dyrr: nid oes na ffrwyth, nac ymborth, na chynnorthwy ynddi: Llawer un ſydd, a chanddo fara, yn llawn, ond heb ei ddigoni: Llawer un yn gyfoethog, yn cael pob peth yn helaethus ac etto yn anfodlon: Llawer un câel heddwch gan

bawb

bawb o'i gwmpas, ond yn aflonydd ynddo ei hûn: A hyn i gyd o eiſien bendith a'r eu meddiant a'u perchen.

Helaeth iw 'r weddi, a hael iw Duw ein iachawdr yn dyſcu i ni weddio am bob peth: Ond ni thal y cwbl ddim heb fendith arno. Grâs a bendith Duw ar y rhan leiaf a wna hynny, y rhan, y tippyn, y cryſtyn lleiaf yn ddigonol.

Y rheſwm, neu 'r achos pa ham i'n dyſcir i weddio am *Fara* yn hytrach na dim arall yn enwedig; Nid, am gyfoeth, iechyd, Dillad, iw. 1. *Ut frænum injiciat cupiditatibus, & frugalitate m commendet*, (i e,) I ffrwyno ein, trachwantau a'n cybydd-dod, a'n hannog, i gymmedrolder bywyd.

Bara, nid melys-fwyd a ydys yn gweddio am dano; Ac wrth hynny i'n dyſcir gymmeryd, a'i fwynhau yn gymmhedrol pa beth bynnag a roddir i ni ar ôl hyn o ddeiſyfiad. Rhaid i ni, nid yn unig fód yn ſodlon a'r pethau ſydd gennym, ond gwneuthur y goreu o honynt hefyd, er mantais i *Dduw*: ef y piau y ddawn lleiaf, ac i'n heneidiau ein hunain. Ni waſanaeth i ni fôd, nac yn anfodlon, nac yn afradlon Digon iw fód gennym fara: I'n mwyniant ein hunain ac ir *plant* y rhoddwyd ef; nid i'w taflu i'r cenawon cŵn.

Dyſced y grwgnachwr, anfodlon a'i ſtâd a'i rhan a'i gyflwr, dyſced ac ofned,

meddaf

meddaf, wrth eſampl yr *Iſraeliaid*, y rhai a welent yn wael y bara neſol a roeſai Duw iddŷnt yn yr anialwch; *ffiaidd iw* meddant *gan ein henaid'y bara gwacl hwn.* Num. 21. 5. Cig a fynnent hwy nid bara. Am hynny *cig a roddodd Duw iddŷnt yn ei ddigllonedd. A'r cig etto rhwng eu dannedd hwynt heb ei gnoi enynnodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn y bobl, ar Arglwydd a darawodd y bobl a phla mawr iawn.* Num. 11. 33.

A dyſced y rhydraul ynteu, wrth ddammeg yr Afradlon. *Luc.* 15. Dyſced, meddaf, edifarhau, ac ymchwelyd at ei Dâd, rhag iddo farw o newyn, a'r ôl treulio 'r rhan a roeſid iddo.

2. Ail rheſwm o hon iw, i'n dyſcu, (ſel y dywaid y Prophwyd) *Os cynhy dda golud na roddwch eich calon arno.* Pſal. 62. 10. Ar i bób un fwynhau y pethau preſennol gyd a diolchgarwch a ſobrwydd, ſel y gallo efe fyw yn ôl ei alwedigaeth, a bod yn gymmwys i wneuthur gwaſanaeth i Dduw ynddi.

Rhaid i ni beunydd fôd yn feddylgar, am wîr arfer y Deiſyfiad hwn, i geiſio *Bara* gan Dduw o ddydd i ddydd, a bendith arno yn ychwaneg.

Q. Ond fe a ddywaid rhyw un: A nyni wedi ein addyſcu i geiſio bara yn unig i borthi ein hangen, ai rhydd ac iawn i ni iwſio 'r Creaduriaid i hyfrydwch?

R. Attebed y gŵr doeth iddo. *Wele, y peth*

peth a welais, Da iw a thêg i ddŷn fwytta ac yfed a chymmeryd byd dâ o'i holl lafur a lafuria tan yr haul, holl ddyddiau ei fywyd, y rhai a roddes Duw iddo: Canys hynny iw ei rhan ef. Ie i bwy bynnag y rhoddes Duw gyfoeth a golyd, ac y roddes iddo rydd-did i fwytta o honynt, ac i gymmeryd ei rhan, ac i lawenychu yn ei lafur: Rhodd Duw iw hyn. Preg. 5. 18. 19.

Y mae Duw yn fynych yn rhoddi mwy nág y ddymunem, mwy nág a lefaſei calon dŷn ei ofyn gan yſtyried ei annheilyngdod ei hûn. Ac ymhyfrydu a llawenychu yn y rhan a roddes Duw iddo, nid iw amgen nac arwydd neu ſein ddâ o'i ddiolchgarwch. Ond ni wneir mo hyn yn iawn heb ſobrwydd a gocheliad.

Y neb gan hynny a fynnei ymhyfrydu mewn helaethrwydd a llawenychu yn ei lafur, ym mwyniant y creaduriaid a roddes Duw tan ei law, Rhaid iddo.

1. Fôd yn ſiccr, yn yspys ganddo, fôd ganddo fwy nac a waſanaethei i borthi angen. Canys y neb a arlwya wledd iw gyfeillion, ac a ddywedo wrthynt hwy, ai enaid ei hûn, bwyttawn, ac yfwn ac ymlawenychwn, tra ſo'r plant ar teulu yn ymprydio, eiſieu a newyn arnynt, nid iw amgen, na thaflu bara'r plaut, i'r Cenawon cŵn: *Lleiddiad* iw a *lleidr*. Yr un ffunyd y nêb a dreulia arian ar ei felys-chwantau heb dalu ei ddyledion, nid iw ynteu

ond yspeiliwr, yn gwarrio 'r eiddo arall. Cofied pa beth a ddywaid yr Apoſtol: *Od oes neb heb ddarbod tros yr eiddo, ac yn enwcdig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth iw na'r diffydd.* 1. Tim. 5. 8.

2. Buro, a ſancteiddio ei galon, i gymmedroli ei lawenydd, fel na oſodai mo'i galon a'r y pethau *bydol* hyn, heb feddwl am y fan, lle mae gwir lawenydd ac hy frydwch yn cartrefu.

3. Yſtyried, mai yn y *bara yſprydol*, *trag-wyddol* y dylei pob dŷn ymhyfrydu fwyaaf. Nid ŷm ni yn ceiſio, ag yn gweddio am y *bara bydol* hwn, ie, pethau anghen-rheidiol i'r bywyd preſennol, ond i'n cynnal yn unig tros ennyd, tra fôm yn cyrrhaeddyd at y llall, y trag-wyddol yn y nef; lle ni bydd mor newyn nac angen, nac eiſieu mwyach.

Preg. XII.

A'r y geiriau -- *Bara beunyddiol.*

Επιέσιον *Beunyddiol.* Llawer bŷd o ymryſon ſydd ynghylch cyfieithiad y gair hwn, ac o herwydd hynny amryw opiniwnau am

am y bara hwn, a dealltwriaeth y Deiſyfiad.

Yr amſeroedd o flaen *St. Hierom* ai cymmerent, fel yr ydym ninneu heddiw, ac a ddywedent, *Quotidianum*, *Beunyddiol*. Ond nid oedd y *Tâd* dyſcedig hwnnw yn gweled hynny yn iawn, ac yn gyttûn ar gair Επιούσιον *yn groeg*. Efe gan hynny a'i newidiodd, ac a roddes *Superſubſtantialem* yn ei le. (ie,) *Mwy na ſylweddol*: yr hwn hefyd a geir yn *Cyprian*, *Awſtin*, ac *Ambroſe*: Ac *Eraſmus* yn ddiweddar yn eu canlyn hwynt, gan dybied o ran *tadogaeth* y gair y dylei fôd y cyfryw fara, *qui univerſas ſubſtantias ſeu creaturas excellit. Chemn. Harm. c.* 51. ag a fo yn rhagori ar bob ſylwedd, neu creadur yn y bŷd.

Ac o herwydd i'n iachawdr ein gwahardd i fôd yn ofalus am ymborth corphorol, ie, yn yr un bregeth, pan ddyſcodd weddio fel hyn yr amſer cyntaf. *Matth.* 6. 25. Am hynny, medd *Eraſmus*, nid Bara y bywyd preſennol hwn, ond y bara tragwyddol, a berthyn i'r bŷd a ddaw, a ddyſcwyd i ni weddio am dano. *Non iſte panis eſt, qui vadit in corpus, ſed panis vitæ æternæ.* Ambr. de Sacram. lib. 5. Nid yr hwn a â i mewn i'r corph ond bara y bywyd tragwyddol.

Wrth hynny y mae *Eraſmus* yn cymmeryd arno i'n perſwadio, nad oedd gymm-

wys na chymmefnr i Ghrift Jefu yn y weddi yſprydol hon, ddyſcu i ni geiſio gan ein *Tâd nefawl* y bara gwael corphorol, yr hwn y mae 'r cenhedloedd yn ei gael ac yn ei dderbyn o ddwylô eu Tâdau cnawdol.

Eithr nid iw hynny felly, Nid anghymmwys, nag anghymmeſur, i ni weddio am fwyd gan ein Tâd nefawl. *Fy mwyd i yw, gwneuthur ewyllys fy Nhâd.* Joan. 4. 34. Dywedwn ninneu 'r un modd: A'i ewyllys ef iw, ar i ni ymddiried ynddo ef am y pethau bydol hyn hefyd. O blegit *gwyr ein Tâd nefawl fôd arnem eiſieu yr holl bethau hyn.* Matth. 6. 32. Ag yntteu ei hun yn peri i ni *fwrw ein holl ofal arno ef, am ei fôd efe yn gofalu troſom.* 1. Pet. 5. 7. A hynny nid yn unig ym mhethau nefawl, ond yn enwedic ym mhethau daiarol hefyd.

Onid ydym ni yn cydnabod (fel y dylem yn ſiccr) mai oddiwrth ein Tâd nefawl yr ydym yn cael ac yn derbyn y pethau hyn i gyd? Onid iw yr Arglwydd yn anfodlon ganddo i rhai a ddiſgwilient, ddim ar law neb arall, ond oddiwrth efe ei hun yn unig?

O achos hyn y mae Duw trwy 'r Prophwyd *Amos* yn argyhoeddi ac yn bygwth *Iſrael. Ar ei phlant ni chymmeraf drugaredd,* (medd efe am ferch Sion) *am eu bôd yn blant godineb: Canys eu mam hwynt a butteiniodd; Gwradwyddus y gwnaeth yr hon a'i hymddug hwynt: Canys*

dywedodd

dywedodd hi, áf ar ôl fy nghariadau, y rhai ſydd yn rhoi fy mara, am dwfr, fy ngwlân, a'm llin fy olew, am diodydd. Am hynny, wele, mi a gaeaf i i fynu dy ffordd, &c. Am. 2. 4. 5. A thrachefn, v. 8. *Ni wyddei hi mai myfi a roddais iddi yd, a gwin, ag olew, ac a amlheais ei harian, a'i haûr, y rhai a ddarparaſant huy i Baal.*

Ar law Duw yn unig y dylem ni geiſio a diſgwil y pethau bydol hyn i gyd, ein bwyd, a'n diod, a'n dillad, ac nid fel yr *Iſraeliaid* gynt, gan eu delwau. A chymmant a bôd y weddi hon yn gwbl-berffaith yn cynnwys ar fyrr eiriau cymmaint ôll ag allom ni weddio am danynt, a bôd y bara corphorawl hwn yn beth *angben-rheidiol*, yr hwn ni's gellir moi ddwyn addref ir un o'r deiſyfiadau eraill: gwybyddwch yn ddiammeu mai yn y geiriau hyn y dyſcodd Chriſt i ni weddio am dano.

Rhai eraill, yn enwedic y *Remiſtiaid* ar *Fath.* p. 6. a fwriant y ddau fara ynghyd i'r deiſyfiad hwn, ſef, yr *yſprydol* a'r *corphorol* he, fyd. Canys fel hyn y dywedant. *Nid ydym, ni, wrth ddywedyd hyn, Dyro i ni* &c. *Yn gwe, ddio yn unig am yr oll bethau anghen-rheidiol er cyn, haliaeth ir Corph, ond yn hyttrach; yn fwy o lawer, am yſprydol ymborth yr enaid, yn enwedic, y ſacra, ment bendigedic, yr hwn a ddywaid amdano ei hun*

Myfi iw bara 'r bywyd. *Joan.* 6. 35. Myfi iw 'r bara bywiol, yr hwn a ddaeth i wa-

red

red o'r nêf: Os bwytty neb o'r bara hwn; efe a fydd byw yn dragywydd; a'r bara a rodda fi iw fy nghnawd i, yr hwn a rodda fi tros fywyd y byd. *Joan.* 6. 51.

Eithr nid rhaid mo hynny chwaith, ſef, fwrw 'r ddau ynghyd i'r deiſyfiad hwn, o herwydd i'n iachawdr ddyſcu i ni geiſio ein hymborth yſprydol a dderbiniaſom ni (*heddiw*) ar law ein Tâd nefawl: gan yſtyried yn ddiolchgar y diben pennaf o herwydd yr hwn y trefnwyd efe i ni.

Megis ac yn y dechreuad cyn gynted ac y creuwyd y dyn, a'r ôll creaduriaid eraill, Duw a appoyntiodd iddo *luniaeth* wrth yr hyn y bydde iddo fyw: Felly hefyd yn y Creadur newydd: Ar ôl ei ail eni trwy *Fedydd*, rhoddwyd iddo fwyd, i gynnal bywyd ſef, *Swpper yr Arglwydd*, I borthi ei enaid yn niogel obaith o fywyd tragwyddol.

Canys y *Sacrament* hwn ſydd yn wyſtl ac yn ammod i gynnifer ac a'i derbynio yn ôl goſodiad Criſt, y portha efe yn ôl ei addewid, trwy *rinwedd* ei gorph croesholiedig a'i waed tywalldedig ein heneidiau i fywyd, tragwyddol, cyn gypled ac y maethir ein cyrph gan fara a gwin i fywyd amſerol.

I'r Diben a'r pwrpas hwn y mae Criſt yngweithred y Sacrament *Cymmun Corph a gwaed yr Arglwydd.* A Chymmundeb ni ddichon

chon fôd o bethau abſennol, eithr o bethau preſennol: ac ni byddai yn *Swpper yr Arglwydd*, oni bai fôd corph a gwaed yr Arglwydd yno.

Y mae Criſt yn breſennol i'n porthi yn y Sacrament trwy undeb.

1. *Yſprydol*, rhwng Criſt a'r Derbyniwr teilwng.
2. *Sacramentaidd* rhwng corph a gwaed Chriſt, a'r arwyddion oddi allan yn y Sacrament.

Y gyntaf a weithredir trwy waith yr yſpryd glân yn cyfanneddu ynghriſt, ac ynom ninneu, yn ein *corpholaethu* megis yn aelodau i Griſt ein Pen, ac felly yn cael ein gwneuthur yn un a *Chriſt*, ac yn gyfrannogion o'r holl radau, ſanctteiddrwydd a'r gogoniant tragwyddol y rhai ydŷnt ynddo ef, mor ddiogl a ſiccr, ac yr ydym, yn clywed geiriau yr addewid, ac yn gyfrannogion o'r arwyddion oddi allan yn y *Sacrament bendigedic*.

Yr ail, ſef yr undeb Sacramentaidd nid iw angen na Chyſylltiad yſprydol rhwng yr arwyddion daiarol, y rhai ydŷnt *Gorph* a *gwaed Chriſt* wrth ei derbyn.

O hyn y digwydd, pryd y bo'r Derbyniwr teilwng yn bwytta a'i enau corphorol fara a Gwin yr Arglwydd, ei fôd ef hefyd ar yr un amſer, yn bwytta a genau ei

ffydd

ffydd wîr gorph a gwaed Criſt. Nid o ran ſôd Chriſt yn dyfôd i lawr o'r nefoedd ir ſan hon attom, eithr o ran bôd yr yſpryd glân trwy y *Sacrament* yn derchafu ein meddyliau at Griſt ar y deheulaw yn y nefoedd, nid trwy gyfnewidiad lleawl, eithr trwy ſerch defoſionawl. Megis yngolwg ein ffydd yr ydym y pryd hynny yn breſennol gyda Chriſt, & Chriſt gyda ninneu. Ac fel hyn gan fyfyrio a chredu, a croeshoelio corph Chriſt, a thywallt ei werthfawr-occaf waed er maddeuant o'n pechodau, ac er mwyn cymmodi ein heneidiau a Duw, y mae ein heneidiau wrth hyn yn cael eu maethu yn ffrwythlonach a diogelwch o fywyd tragwyddol, nac a eill y bara a'r gwin borthi ein cyrph i fywyd amſerol.

Wrth hyn y deellir pa beth iw *Porthi Eneidiau*, nid amgen, cryfhau ein ffydd yn-ghriſt: Porthi 'r corph iw ei gryfhau a fluniaeth; Porthi 'r enaid chwanegu ffydd, ac amlhau pôb rhâd yſprydol.

Dyma 'r modd i ni fyned yn gryfion mewn ffydd, trwy fynych *gofio* a *myfyrio* ar werthfawr bris ein prynedigaeth. I hyn yr ordeiniodd yr Arglwydd ei Swpper bendigedic, i ddwyn ar gôf i *Griſtianogion* yn oeſtadol yr aberth fywiol yr hon a offrymmodd Criſt unwaith am y cwbl, trwy ei farwolaeth ar y Groes i'n cymmodi ni a Duw. *Gwnewch hyn* (medd Criſt) *er coffâd amdana fi.*

dana ſi. Luc. 22. 19. Ac y mae yr *Apoſtol* hefyd yn dywedyd, *Cynnifer gwaith bynnac y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yſoch y Cwppan hwn y dangoſwch farwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo,* 1. *Cor.* 11. 26. Ac y mae efe yn dywedyd ym mhellach, mai trwy y Sacrament hwn, a phregethiad y gair y darfuaſei portreio Jeſu Griſt o flaen llygaid y Galatiaid. *Gal.* 3. 1. Canys y mae 'r gwbl weithred yn dangos marwolaeth Criſt; Torriad y bara, croeshoeliad ei gorph, bwrw allan y gwin, tywalltiad ei waed. Un waith yr aberthodd Criſt ei hun yn gorphorol: Eithr cyn fynyched ac y cyſſegrir y Sacrament Bendigedig hwn, cynfynyched a hynny yr aberthir ef i'r ffyddloniaid yn yſprydol.

Nid oes fôdd fanylach yn y byd na'r coffa hwn i gadarnhau ffydd ynom. Canys y mae Duw wrth y Sacrament yn arwyddoccau, ac yn ſelio i ni o'r nef, mai yn ôl yr addewid a'r cyfammod newydd a wnaeth efe a nyni ynghriſt, y derbyn efe iw râd a'i drugaredd yr hóll ddynion credadwy edifeiriol, ac a dderbynio ei Sacrament ſanctaidd yn ddyledus: Ac er mwyn marwolaeth a dioddefaint Criſt, efe a faddau iddŷnt eu hóll bechodau mor ddiammau, ac y maent yn gyfrannogion o'r arwyddion y bara a'r gwin a roddir iddŷnt.

A pharth nid bychan o'n cryfdwr yſprydol ydyw ein gobaith a'r diogelrwydd o'r

bywyd tragwyddol yr ydym yn ei gael trwy'r bara Sacramentaidd. Oh! pa beth ſydd fwy dymunol na *bywyd*? A pha beth y mae yr holl ddynion yn naturiol iw ofni, neu iw gaſâu yn fwy na *marwolaeth*? Etto nid iw y farwolaeth gyntaf yma ddim i ſôn am dani wrth ei chyffelybu i'r ail farwolaeth; ac ni thâl y bywyd yma ddim chwaith o herwydd ei gyſtadlu a'r bywyd ſydd a'r ddyfod. Os dymuni di gan hynny fôd yn ddiogel o'r bywyd tragwyddol, ymbarattô, dy hun i fôd yn dderbyniwr teilwng, a ffyddlawn o'r *bara Sacramentaidd*. Canys y wae ein iachawdr yn ein ſiccrhau ni, *Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a ffydd buw yn dragywydd*, &c. Ac mewn gwirionedd dymma bûr *bren y bywyd, yr hwn a blannodd Duw yn-ghanol Paradwys yr Eglwys*. Datc. 2. 7. Ac o'r hwn y mae ef yn addaw rhoi i bôb gorchfygwr iw fwytta.

A'r pren hwn o'r bywyd mewn aneirif raddau ſydd yn rhagori ar bren y bywyd oedd yn tyfu ym mharadwys Eden. Canys yr oedd hwnnw a'i wreiddin o'r ddaiar, hwn o'r nefoedd: Hwnnw ni roddai ond bywyd i'r corph, hwn a rydd fywyd ir Enaid: Nid oedd hwnnw ond ymddiffyn, neu gynnal bywyd y rhai buw, y mae hwn yn adferu bywyd ir rhai meirwon.

Dymma 'r pren Datc. 22. 2. *bôb mîs yn rhoddi ei ffrwyth: Dail yr hwn a iachâ y Cenhedloedd*, ac

ac a'i portha i fywyd tragwyddol. Oh, bendigedic ydŷnt y rhai ſydd o ddydd i ddydd yn bwytta yn deilwng y bara bendigedic hwn; o amſer i amſer yn archwaethu o newydd, o'r ffrwyth adnewyddedig yr hwn a barattoôdd Chriſt ini ar ei fwrdd ei hun, yr hwn iw ei gorph ei hun, i iachau ein gwendid, ac i gryfhau ein crediniaeth i fywyd tragwyddol.

O Arglwydd trugarog, a daionus, mawr ddiolchwn i ti am dy fawr drugaredd yn ein porthi hyd yn hyn a'th *ſanctaidd Sacramentau*; Na chymmer, (nyni a attolygwn iti) dy fendigedic ordinhadau oddi wrthym: Dyro i ni o ddydd i ddydd ein *bara beunyddiol*, yn yſprydol i'n cryfhau fwyfwy mewn ffydd a gobaith, a chariad perffaith, a diogelrwydd o'r bywyd tragwyddol yr hwn a addewaiſt, ac a ordeiniaiſt i ni yn dŷ Fâb Jeſu Griſt, *&c.*

Preg. XIII.

A'r ail ar y geiriau: ---- *Bara beunyddiol.*

ERaill a fynnent ddwyn Επιούσιον o ἐπειμι, yr hwn a arwyddoccá. *Dyneſſu, dyfôd at beth*, fel pe bai fara damweiniol yn myned

yn dyfôd beunydd. *Quem non ſufficit ſemel acceпiſſe*, Yr hwn ni weſnyth i ni moi gael un waith: Am nád iw yn parhau. Ac wrth hynny rhaid i ni fôd beunydd, a phób amſer yn ei ofyn ac yn ei dderbyn; Fyth yn dyfód oddiwrth Dduw in cynnal. Gwir iw hyn, Ac fe'n dyſcir wrth hynny. 1. I fôd yn feddylgar, mai ein Tâd nefawl ſydd yn gofalu troſom, yn rhoi i ddyn ei wala, a phób amſer yn ei ddiwallu.

2. Na ddylem ni mor ymffroſtio, na gorfoleddu yn ein nerth a'n llafur ein hunain, fel pe gallem haeddu, neu ynnill ein bara; ond bód yn ddiolchgar, i Dduw ſydd beunydd yn tywallt ei fendithion arnom.

3. Nâd iw y bara hwn ddim or pethau goreu a weddiem amdanynt, ond Ἐπιούσιον, a ddelo att hynny yn y chwaneg; A'r ôl cyngor ein iachawdr. *Nac o felwch am eich bywyd, pa beth a fwyttaoch, neu pa beth a yfoch*, &c. *Eithr yn gyntaf ceiſiwch Deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r hôll bethau hyn a roddir i chwi yn y chwaneg.* Matth. 6. 31. 33.

Cywirach i rai eraill ddwyn y gair hwn Ἐπιούσιον, oddiwrth οὐσία; hynny iw, *Hanfod*, neu *ddeffnydd*, o'r hyn y gwneir peth. I'r hyn y mae ein bara yn anghen-rheidiol i gynnal ein ſylwedd, ac i'n cadw yn fyw.

Ond weithiau y'r ſcrythur Lân a gymer οὐσία yn lle *golud*, *cyfoeth* neu *dda bydoll*. Megis

ac

acy dywedodd y mâb afradlon wrth ei dâd. *Luc.* 15. 12. Δός μοι τὸ ἐπιβάλλον μέρος τῆς οὐσίας. *Fy Nhâd, Dyro i mi y rhan a ddigwydd o'r Dâ.* Ac o hyn Πατέρα a elwir Rhyw Dryſſor gwerth fawr dewiſedig: Ac yn y gwrth-wyneb Ἐπίσκοπος, cymmaint o dda 'r bŷd ac a ſo arferol iw gael, cynnefinol, ddigonol.

Ac fel hyn y bydd y deiſyfiad hwn yn gyttûn a gweddi Salomon. *Dihar.* 30. 8. *Na ddyro i mi na thlodi, na chyfoeth: Portha fi a'm digonedd o fara.* Neu, Dôd cymmaint, ac a ſo raid i mi wrtho.

3. Η μοῖρα. *Ein bara ni*, ein eiddo. Nid fel pe bai i ni fraint, neu hawl yn y bŷd ynddo. Ond. 1. Am fôd ei eiſieu arnom. Ni allwn ni mor byw, nac mor bòd hebddo.

2. Am ei fôd wedi ei gymmedroli, a'i gymheſuro i bòb un ar ól ei gyflwr, i bòb dŷn ei ddigon ei hun: Ei rhan o fara, cymmaint ac a waſanaethai yn òl ordeinhâd Duw i gadarnhau calon dŷn ar òl ei cryfdwr naturiol priodol.

3. Ein eiddo trwy ynnilliad cyffreithlawn: Canys trwy lafur ac helbul yr ydym yn ei ynnill, a'i haeddu megis cyflog yn y bŷd. Cyſiawnder Duw ydyw ar òl pechu o ddyn, farnu o honaw, *na fwyttaei ddyn mo'i fara, ond trwy chwŷs ei wyneb*: Gen. 3. 19. Ond yn hyn y mae ei ddaioni yn ymddangos, gan ei fôd yn addaw, ac yn parattoi

bara

b ara i bôb un a gymero boen amdano, fel y gallei efe fwytta, gwedi iddo lafurio, a chwyſſu er mwyn ei gael.

4. Ein heiddo *wrth ei drin a'i feddiannu.* Ein Tâd y piau 'r bara, ond i ni y mae efe yn ei roddi. Nyni y piau hefyd trwy rôdd ei law haelionus ef. Eithr yn hyn nid ym yn ceiſio nac yn dymnno, ar i Dduw gymmeryd dim oddi-wrth néb arall, a'i roddi i ni. Canys y mae ganddo ddigon iddynt hwy, ac i ninneu hefyd. Ond y peth a ddarfu iddo yn ei ragluniaeth ddaionus, ai ragddarbod appointio i bôb un o honom, yn naillttuol yn ôl ei ſtâd a'i gyflwr.

Ac fel hyn y mae 'r bara yn myned ac yn bód yn eiddom ni nid yn unig, wrth y braint y mae Duw yn ei roddi i ni ynghriſt yn y creaduriaid óll, yn yr hwn yn unig y ſancteiddir bób rhyw creadur i ni; Yr hyn yw Braint o *Râs* yngwydd yr Hollalluog; Eithr y mae i ni fraint arall ynddo o flaen Dynion, pan fóm gwedi cael meddiant trwy foddion oneſt a chyfreithlawn, ynnill, pwrcas, llafur, etifeddaeth, neu 'r cyffelyb.

A'r hyn, ſef, yr eiddo ti, a'r eiddo finneu, gadel i bawb ei eiddo, y mae holl lywodraethau y bŷd yn ſefyll: A'r llywodraethau hyn i gyd, *gan Dduw y maent wedi eu hordeinio.* Rhuf. 13. 1. Pe bai pób peth yn gyffredin, ni allai neb ddywedyd, fôd dim

dim ar a feddei, yn eiddo ei hunan. Eithr y mae Duw trwy 'r Apoſtol yn peri i bób dŷn *fwytta ei fara ei hun, a'i ynnill er mwyn hynny.* 2. Theſſ. 3. 12. *Ond i'r cyfryw,* (ſef i'r afreolus, rhodresgar) *gorchymmyn yr ydym,* au *hannog trwy ein harglwydd Jeſu Criſt,* ar *iddynt weithio trwy lonyddwch, a bwytta eu bara eu hunain.*

4. Nid ydym yn ceiſio bara neu luniaeth, tros ſis, neu flwyddyn, neu einioes ond καθ' ἡμέραν, o ddydd i ddydd Pob dydd ei ran a'i ddogn.

5. Nid i ni ein hunain chwaith, ond i'n brodyr hefyd, ἡμῖν I bob dyn y faint a drefno Duw o'i ddaioni iddo. Mor gariadus a dylem ni fòd, pan weddiom, heb na digter na dadl, na chenfigen yn erbyn neb, heb falchder, heb anghariadoldeb, yn ddiyſtyr gennym neb o'n brodyr.

6. *Dyro Di,* ſef, ein Tâd nefawl; Ni ddylem na gweddio, na ddiſgwil ar law neb arall y lleiaf peth, a fo 'n rhaid wrtho. Fel y mae efe yn *Dád* i ni, o'i fawr doſturi, mae efe yn ewyllys-gar ac yn barod i'n porthi: Fel y mae efe yn y nefoedd, mae efe yn alluog, yn gallu ein porthi yn òl ein hanghen. Ni ddichon neb ar y ddaiar o hono ei hun roddi i ni ddim; ac ni ddichon neb yn y nefoedd chwaith na Seintiau, nac angelion; ond ein Tâd yn unig. Arno ef yn unig y mae i ni weddio; Ar ei law ef yn

unig

unig y mae i ni dderbyn bara a phòb peth cyfreidiol i ni.

7. Ac yn ddiwaethaf, O ródd y mae i ni ddisgwil beth bynnac a gaffom gantho. Nid ydym yn haeddu dim ar ei law: Nid iw Duw Ddyledwr i néb. Pe's gwnai efe a nyni yn ôl ein haeddiant, annedwydd, anobeithiol fyddei ein cyflwr, truanaf fyddem o'r creaduriaid, *Os creffi, ar Anwiredd, Arglwydd; O Arglwydd pwy a ſaif?* Pſal. 130. 3.

Yr awr hon wrth iawn ddeall, ac yſtyried y pethau hyn, i'n dyſcir, pan fóm ar fedr dywedyd y weddi ſanctaidd hon, feddylied.

1. Fôd ein hanfod a'n bywyd yn dibynnu ar Fara, lluniaeth corphorol, a bendithion amſerol. Gwir iw, megis ac y ſcrifenwyd, *Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn.* Matt 4. 4. Deut. 8. 3. Ac etto ni's gall efe mor byw, heb fara. Pa faint mwy ammhoſſibl i ni feddiannu, a mwynhau y bywyd tragwyddol heb râs ysbyſawl, heb roddiad y gwir fara yſprydol a ddeſcynnodd o'r nefoedd: Wrth hyn gwelwn mo'r gyfreidiol iw y rhan hon o'r weddi. Ni chynhelir neb heb fara, ac ni cheir mor bara heb ei ofyn.

2. Fôd y pethau oddi allan perthynaſol i'r bywyd a'r bŷd preſennol, cyfoeth, a nerth, a llwyddiant teyrnaſodd, teuluoedd gorchwylion, dynion yn dibynnu, nid ar ddoeth-

ddoethnieb bydól, cynghorion y call, dyfalwch y cywiraint, neu 'r cyffelyb, ond ar Dduw yn unig, yr hwn ſydd yn trefnu teuluoedd, teyrnaſoedd, doſparthu i bób grâdd, ac i bób dyn yn ôl ei ewyllys ei hun. A hyn hefyd a bair i ni weddio, ac i gyfarwyddo ein deiſyfiadau, at wir ffynnon pob daioni, beth bynnac a ddymunem. *Canys pob rhoddiad ddaionus, a phôb rhodd berffaith oddi uchod y mae yn diſcyn oddi-wrth Dad y goleuni.* Jac. 1. 17.

13. Megis ac ni cheir dim o'r pethau hyn i gyd, ond trwy roddiad ar law Duw, felly ar ôl eu cael nid ydynt na da, na digonol i ni, oni rydd Duw ei ſendith arnynt yn y chwaneg. Gweddiwn gan hynny ar i'n Tâd nefol dywallt ei roddion arnom yn ſendithion, nid er barnedigaeth. (Fel y rhoddes efe i'r Iſraeliaid gynt gig, a bara, a brenin yn ei ddigllonedd.) Yn ei nerth a'i rym ef yr ydym yn llafurio, Oi *ddaioni* yr ydym yn derbyn ffrwyth ein llafur; Yn ei râs ef, a thrwy ei ſendith y cawn ni gwinffódd, a bodlonrwydd yn y ffrwythau a dderbyniom.

4. Dyſcwn weddio, nid am olud, helaethrwyd, a melyſfwyd i oſod allan ein balchder, a'n chwantau cnawdol, ond y pethau a welo Duw yn ddâ er ein lles, am bethau anghen-rheidiol, a chymmedrol, cymmheſur i'n ſtâd a'n cyflwr. Gweddiwn, fel y

gwnaeth y gŵr doeth, yn gyſtal rhag cyſoeth a thlodi. *Na ddyro i mi na thlodi, na chyſoeth. Rhag i mi ymlenwi, ath wadu di, a dywedyd Pwy yw 'r Arglwydd?* a *rhag i mi fyned yn dlawd, a lledratta, a chymeryd enw ſy Nuw yn ofer.* Dihar. 30. 9. Digon iw yr unig fendith: A hynny a fydd lle bo bodlonrwydd. Hyn a'n cyfarwydda beth, a pha fôdd y dylem ni weddio amdanynt o'r pethau perthynas i'r bŷd hwn.

5. Dyſcwn wrth hyn fôd ein Tâd nefawl bób amſer, ddydd a nos, awr ac ennyd yn gofalu troſom; A llygad ei raglunaeth yn cadw y *wiliad-wriaeth* uwch ben pób un o honom: Och, na bai llygaid y creaduriaid mor wiliadwrys, i edrych i fynu yn ddiolchgar, ac yn ddefoſionól ar ei law ef; ac y mae ei law a'i lygad bób amſer yn agoryd, i edrych ar ein cyfreidiau, ac i dywallt i lawr, a'n diwallu a'i tendithion.

Duw ei hun ſydd yn gofalu troſom: Nid rhaid i ni, ac ni ddylem chwaith fôd yn ofalus troſom ein hunain am y pethau bydol hyn, bwyd a diod a dillad; na thryſtiori mwy nac a fo ddigon i waſanaethu 'r tro, ac i fwrw 'r amſer: Pa faint llai y dylem orfoleddu, ac ymddiried yn ein *rhagddarpar* ffôl ein hunain.

Os cynnydda golud na rôddwch eich calon arno. Pſal. 62. 10. Pan fo Duw gwedi rhoi llwyddiant, ac i chwi gaſclu tan ei law, yn amlach

lach na neb arall, mwy nac a weſnyth i'r dydd heddyw, na thybyga, na bydd rhaid iti mor gweddio y foru, am fôd gennit euſys, fara tros lawer o ddyddiau? Pa rhaid i mi geiſio mwy, hyd oni ddarffo hynny? Ymogelwn ddywedyd hyn (ty mrodyr) yn ein calonnau, Amryfuſedd y dŷn ffôl yn yr *Efengyl*, yr hwn a ddywedei yn ei lwyddiant wrth ei enaid. *Fy enaid, y mae gennit dda lawer wedi eu rhoi i gadw tros lawer o flynyddoedd, Gorphywys, bwytta, ŷf, bŷdd lawen.*

Eithr Duw a ddywedodd wrtho, *O Ynfyd, y nos hon y gofynnant dy enaid oddi-wrthit, ac eiddo pwy fydd y pethau a baratoaiſt? Felly y mae r' hwn ſydd yn tryſſori iddo ei hun, ag nid iw gyfoethog tuag at Dduw.* Luc. 12. 19. 20. 21.

Ond conſideriwn po mwyaf a dderbyniaſom, mwyaf iw ein dyled, a mwyaf a ddylei ein *eidduned* a'n *defoſiwn* fôd, i ſanctеiddio trwy weddi, a moliant y ſtôr a roddes ein graſuſol Dâd i ni, i geiſio bendith yn chwaneg arno, fel y gallo fôd yn wîr fara i'n cynnal, yn gynhysgaeth i'n cyfoethogi, ac i lawenychu yn dduwiol ynddo. Heb y fendith hon yn diſcyn beunydd arnom fel y gwlith o'r nef, nid iw na chyfoeth, na ſynwyr, na chryfdwr, na dim o'r pethau y mae 'r bŷd yn gorfoleddu yn ddynt ond oferedd. A hyn hefyd a ddylei ein chynhyrfu i weddio yn oeſtadol, ymddiried yn Nuw yn unig am ymborth a chynhaliaeth.

Arnat ti, o Dduw, yr ydym yn bwrw ein beichiau: Cymmer di, ni a attolygwn iti, ofal troſtom. Cynnal ein eneidiau a'n cyrph: Dyro i ni o ddyd i ddydd bob peth anghen-rheidiol i gymmaint ac ſydd yn ól i ni o'n bywyd trangcedig hwn, fel y gallom dy waſanaethu a'th foliannu beunydd trwy nerth y bara nefol, a roddaiſt i ni, Jeſu Ghriſt *&c.*

Preg. XIV.

A'r ddiweddaf ar y deyſyfiad: *Doro i ni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol.*

Nid rhaid i mi mor atgofio y pethau a yſpyſais i chwi o'r blaen. Ond yn hyttrach myned rhagom i ddangos (fel y gwneuthum yn y deiſyfiadau o'r blaen.)

1. Pa bethau *da* yr ydym yn eu ceiſio yn y rhan hon o'r weddi.

2. Pa bethau *drwg* a weddiom rhag-ddynt.

3. Mor *ddiolchgar* a ddylem ni fòd i Dduw am yr holl ddaioni a dderbyniom wrth weddio fel hyn.

4. *Dyled-ſwydd naillttuol* pòb dŷn, nid amgen,

gen, holi eu gydwybòd eu hun, od ydyw yn byw ar òl ei ddymuniad.

Gwedi i ni roi i Dduw ei eiddo yn ól ei Enw, ei Deyrnaſiad a'i ewyllys, yr ydym yn troi bellach attom ein hunain, i geiſio 'r pethau bydòl, a fo rhaid i ni wrthynt. Canys gan fód y bŷd y gyd yn eiddo Duw, pam na ddymunem, ac na ddisgwiliem ar ei law ef, pa bethau bynnac yn y bŷd a allent fòd yn fuddiol i ni? A hyn i gyd ſydd wedi ei gynnwys yma tan un gair o *Fara*, O herwydd fód bara yn arwyddoccâu pób peth cyfreidiol i'n cynhaliaeth, heb law y pethau y ſonniaſom amdanynt.

1. Wrth hyn gan hynny y gweddiwn. 1. Am iechyd corphorol fel y gallom lafurio a thrwy lafur, a chwys ein wynebau ynnill ein bara, a'i fwynhau: Yr hyn beth, nid iw na'r gwan, na'r clwyfûs yn gallu mo'i wneuthur. *Dyro i ni fara*, hynny iw, Dyro i ni iechyd, a chryfdwr, a phob dawn anghen-rheidiol i bob dyn yn ei alwedigaeth, modd y gallo fyw ynddi yn ddigonol, a chael ei gynnal a'i borthi trwy ei waith a'i lafur ei hun.

2. Wrth hyn hefyd y gweddiwn am hiroes i'n rhieni, a'r i Dduw (awdr y bywyd) hwyhâu ei heinioes iddŷnt. Canys y *teuluoedd* y mae Duw yn fodlon iddŷnt, yn ewyllys-gar ei bendithio, y mae efe yn gadel eu tâdau i fyw yn hir, ac yn eu dwyn

iw

iw beddau mewn heddwch yn oedrannus. Canys i'r cyfryw rai y perthyn yr addewid. Pſal. 128. 6. *A thi a gei weled plant dy blant, a thangneddyf ar Iſrael*; Fel hyn y mae Duw yn bendithio y rhai a'i hofnant ef.

3. Yr ydym yn gweddio tros frenhinoedd, a phenſwyddogion y gwledydd, tros bawb ſy mewn goruchafiaeth, *fel y gallom ni fyw yn llonydd, ac yn heddychol mewn pob duwioldeb a goneſtrwydd.* 1. Tim. 2. 2. Fel y gallo bob un fwytta ei fara ei hun yn òl ei lefur yn ei alwedigaeth. Tra fo rhyfel ac ymlladdau yn ein myſc, ni bŷdd dim gennym yn ddiogel: Y da, y dillad, y bara a ddygir oddi arnom; ie, oddi rhwng ein dannedd, pan fóm yn tybied ein bòd yn ſiwr o hono, a'r fedr ei fwynhau.

4. Yr ydym yn gweddio gyda *Salomon.* 1. Brenh. 8. 36. am hinoedd a thymmhorau, amſerol, fel y derbyniom ffrwythau 'r ddaiar yn eu hamſer; Ac am fendith hefyd ar y pethau hyn i gyd, fel y gallom yn ddyledus eu mwynhau.

2. Y Drygau a weddiom rhagddynt, y rhai yr ydym yn attolwg na's gwneler i ni, ydŷnt.

1. Gwendid, a chlefydad corphorol yn lleſtur i ni lafurio, ac i ynnill ein bara; Anghydfód, amrafaelion, ymlåddau, rhyfel, yn dwyn ein bara oddi arnom.

2. Cybydd-dod, a chinnilwch, yn caſglu

glu llawer o dda ynghyd, ac yn ei roi i gadw tros lawer o flynyddoedd, y bara i lwydo, yr airan, a'r aur, i rydu, a Chriſt yn dyſgu i ni weddio, ond tros y dŷdd preſennol, *Dyro i ni heddiw*, nid y foru, a threnydd, a thra pharhao 'r bŷd; a Duw ei hun yn gwahardd i ni wneuthur hynny. *Na ofelwch tros drannoeth. Canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun: Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.* Matth. 6. 34.

3. Gormodedd, anghymmedrolder, a fradlonrwydd, cam-arfer a'r Creaduriaid: yn gwarrio dogn yr holl ddydd mewn munyd awr, ac wrth hynny yn ein gwneuthur ein hunain yn ammharod, ac anghymmwys i weithredodd y dydd.

4. Anghariadoldeb, cenfigen, *grwgnach* yn erbyn eraill, y rhai a welom yn well ei cyflwr. Nid ŷm yn gweddio troſom ein hunain yn unig, ond tros y brodyr, tros bawb òll. *Dyro i Ni*, nid i mi ar fy mhen fy hun, fy mara beunyddiol.

5. Gwan-gred, ac anhyder yn rhugaredd Dduw. Canys y peth y mae *Criſt* ei hun yn peri i ni ofyn, efe a dderpyr i ni, ac a'i rhŷdd yn ddiammau, ac yn ddiattrec.

6. Pob ymarfer o foddion anghyfraithlon i ynnill cyfoeth a golud, chwareyddiaeth, twyll, *clortannau anwir, a'r god o gerrig twyllodrus.* Mic. 6. 11. Dichellion, cynllwynion,

nion, cydfwriadau &c. Ni ddylem ni geiſio, ond ein eiddom, a hynny trwy rôdd yn unig o law ein Tâd nefol, fel y gwêl efe yn dda ei roddi i ni.

7. A chan fôd llawer o rhan dilyn, a chwennychu y pethau bydól hyn, yn colli y bywyd tragwyddol, gweddiwn rhac i hyn hefyd ddigwydd i ninnau. *Canys nid iw bywyd neb yn ſefyll ar amlder y pethau ſydd ganddo.* Lu. 12. 15.

3. Yn drydydd, Pan ſo Duw gwedi rhoi y pethau yr ydym yn gweddio fel hyn am danynt, gwedi *tywallt* arnom ei fendithion, ar bób un ei wala, a'i ddigon o *fara*; oni ddylem ni fôd yn ddiolchgar, a thalu moliant i Dduw amdano? Pa ſawl un ſydd yn ein myſc, yſcatfeydd, nid fel y gŵr hwnw yn yr Efengyl, a fuaſei *glaf namyn dwy flynedd deugain.* Joan. 5. 5, etto mewn hir wendid, ac afiechyd? Pa ſawl plentyn yn ymddifad, gwedi ei fwrw ar y bŷd iw faethu? Pa nifer o Griſtianogion ſydd tan lywodraeth-wyr anghyweithas; y rhai a gippiant oddi-wrthynt nid y pethau bydól hyn yn unig, ond y bara yſprydol hefyd *Gair Duw*, a'i *Sacramentau*? Od ydwyt ti gan hynny yn cael dy iechyd yn ſafadwy; Dy rieni yn fyw i achub dy gyfreidiau: Od wyt ti yn byw tan ryw *foſtiah*, tan ryw *frenin duwiol*, rhad-lawn cyweithas: Dyro ddiolch i Dduw am ei drugareddau

gareddau hyn, rhac iddo eu dwyn oddiarnat yn ei gyfiawnder, ac iti wybod wrth eu heiſieu, pa faint o ddaioni a oeddit yn ei gael, o'r blaen, heb ei gydnabod.

4. Holed pòb dyn ei gydwybod ei hun, yſtyried ei weithredoedd a'i gyflwr, galwed ei fuchedd at y rheol hon, a ydyw efe yn byw yn ôl ei *weddi*. Ond iw yn hytrach yn ymoſod yn erbyn ei gorph ei hun, yn cyrchu afiechyd iddo trwy feddwdod, cyfeddach, godineb, putteindra? &c. Onid wyt ti, fel y máb gwarſyth hwnnw: Deuter. 21. 20. *yn gyndyn, ac yn anufydd, heb wrando ar lais dy rieni*, yn peri gofid a blinder iddŷnt, ac yn byrrhau eu ddyddiau? Onid wyt yn ddiachos yn cythruddo ac yn digio y *blaenoriaid*, yn peri dig ir rhai ſy'n gwilio troſot? Onid wyt yn tyrru bara i ti dy hun dros lawer o ddyddiau, tros fiſoedd, a blynyddoedd, neu megis ac yn ei gippio o law yr Arglwydd trwy uſuriaeth, trawſedd, attafaela, yn erbyn ei ewyllys? Od wyt yn gweled fôd y beiau hyn neu'r cyfryw arnat, cyffeſſa dy gamweddau, dyro dy brŷd a'th amcan ar wellhau dy fuchedd, ac ar ganlyn yr hòll rinweddau da y mae defnydd, a chynhwyſiad y *weddi* yn dy gyfarwyddo ynddŷnt.

1. Diolch-garwch, am yr hòll ddaioni a dderbyniaiſt trwy dy holl fywyd. Canys pa beth ydyw dy gynhaliaeth, a'th iechyd

ond rhodd beunyddiol, gwedi ei hadnewyddu i ti o ddydd i ddydd?

2. Bodlon-rwydd ith ſtâd, a'th gyflwr; A hynny.

1. O rân y peth a geiſiem, Pob rhoddiad ddaionus yn deſcyn oddi uchod megis Bara ydyw., i'n nerthu, ac i'n cryfhau.

2. O rân bód i ninnau ryw fâth a'r fraint ynddo; Ein heiddo, Ein bara ni, *Dyro i ni.* Felly y mae Duw yn ei Ddaioni a'i raglunaeth yn cymmeſuro i bòb un ei ddogn, i bòb dyn cymmaint ac a ſo ddigonol iddo.

3. O rân yr amſer, Nid ym yn ei geiſio ond i'r dydd preſennol, O ddydd i ddydd; a'r rhodd yn cyfatteb a'n cyfreidiau, Ac wrth hyn y deellwch, fôd gwîr fodlon-rwydd, a thair o raddau arni. 1. Rhaid i bób un o honom fôd yn fodlon a'i gyflwr neu ei ſtâd ei hun, Ein bara; Pòb dyn a i fara ei hun. 2. Rhaid iddo fôd yn fodlon ai gyflwr preſennol, ei ſtâd y mae efe heddiw ynddi, *Dyro i ni heddyw.* 3. Rhaid iddo fôd yn fodlon a phob ſtâd, y cyflwr a drefno Duw o'i ddaioni a'i ragddarbod iddo. Canys o'i roddiad ef y mae pob cyflwr.

3. Cymmedrolder, ſobrwydd, a chymmeſurwydd ym mhób rhodd a gaffom, bwyd a diod a dillad, a phob peth *perthynaſol* i'n bywyd: Fel y gallom, *pa un bynnac*, *a i*

a'i yfed, a'i beth bynnag a wnelom, wneuthur pob peth er gogoniant i Dduw. 1. Cor. 10. 31.

4. Cariad Perffaith. Canys nid ydym yn gweddio trosom ein hunain, ond tros ein brodyr hefyd. *Dyro i Ni*, Nid i *mi fy* hûn, gan gydnabod mai ein dyled-ſwydd iw, eu cynnorthwyo hwynt, ddwyn cymmorth yddŷnt, a Duw gwedi rhoi i ni helaethrwydd, a bwrw eiſieu a thlodi arnynt hwythau gan feddylied, mai er hyn, er cymmorth iddŷnt hwy y rhodd-wyd y llownder hynny i ni. Fel pe bai ryw Dâd Daiarol i ddangos y rhagor rhwng eu feibion, ac iw profi hwynt i gyd, yn gadel yr ôll etifeddiaeth tan law 'r hynaf, a gorchymmyn iddo ef gadw ei frodyr. Ond oes ir tlodion *hawl*, yn llownder y cyfoethogion?

5. Goſtyngeiddrwydd, am nad oes gennym ddim yn y bŷd, nad ydym yn ei feggio, neu yn ei gerdotta: Yn gweddio am ein *bara*; Ni chawn ni mono heb ymbil. Ac er ei fôd yn eiddom er bòd i ni ryw fath ar fraint ynddo, etto nid ydym ni yn cael mono, ond drwy roddiad yn unig, wedi ei gymmeſûro i bób un ar ôl ei ſtâd a'i eiſieu.

6. Diwydrwydd, a Dyfalwch: Megis ac y gorchymmynodd yr Apoſtol. 1. Theſſ. 4. 11. *Roddi o honoch eich brŷd, ar fôd yn llonydd, a gwneuthur eich goruchwilion eich hunain a gweithio*

a'ch dwylo eich hunain, heb eſceulusdra, heb oferedd. Canys ni ddylei neb fwytta, ond ei fara ei hun, yr hwn y mae yn ei ynnill: Nid ydyw na 'charferedig gerdotta, na'ch lledratta yn ddibechod. Gwrandewch gan hynny ar yr Apoſtol. 2. Theſſ. 3. 10. *Pan oeddym hefyd gida chwi hyn a orchymmynaſom i chwi, os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwytta chwaith.* v. 11: *Canys yr ydym yn clywed fôd rhai yn rhodio yn eich plith chwi yn afreolus* [allan o drefn] *heb weithio dim, ond bod yn rhdresgar.* v. 12: *Ond i'r cyfryw gorchymmyn yr ydym, a'u hannog trwy ein harglwydd Jeſu Criſt, ar iddynt weithio 'rwy lonyddwch, a bwŷtta eu bara eu hunain.*

7. Hyfder ar Dduw, ei ragluniaeth, a'i ddaioni. Heb ffydd ac ymddiried yn Nuw, nid iw ein rhagddarbod ein hunain, tros y cnawd, neu troſom ein hunain ond pechod a ffolineb. *Pob rhoddiad ddaionus, a phob rhodd berffaith oddi uchod y mae, yn diſcyn oddiwrth Dâd y Goleuni.* Jac. 1. 17. Oddi-wrth bwy y disgwiliwn roddiad yn y bŷd ond oddi-wrtho ef yn unig? At bwy r edrychwn, ond atto ef? I bwy 'r ymddiriedwn, ond i'r Arglwydd goruchel, yr hwn ſydd yn peri ei fendithion ddiscyn arnom fel y gwlith o'r nefoedd?

8. Gofal cymhedrol am ein da, a'n hiechyd, fel y gallom trwyddynt, wneuthur y cyfryw waſanaeth i Dduw, ac y mae efe yn ei ddisgwil. Canys yr rhai hyn iw arfau ein

ein milwriaeth yn y bŷd; Hebddŷnt hwy nis gallwn wneuthur na llês na daioni, na chymmwynas i'n brodyr, na'n cymodogion.

9. Ymarfer gwaſtadol o weddi a phob duwioldeb, gan weddio beunydd am y pethau bydól hyn: Pa faint mwy am fendithion yſprydol, i borthi ein heneidiau.

Gweddiwn ynteu ar ein Tâd nefol, ar iddo dywallt ei fendithion hyn arnom, gadw oddi-wrthym yr ôll ddrygau yr ydym yn gweddio rhagddynt; Ar iddo felly ein digoni a'i fara corphorol yn y bŷd, fel y caffom rhag llaw fwynhau y bara nefol, yr hwn iw ein Harglwydd Jeſu Griſt, *&c.*

o

Preg. XV.

Luc. 11. 4: *A maddeu i ni ein pechodau.*

RHaid iw yſtyried, gyntaf dim, yn y deiſyfiad hwn. 1. Ei Drefn. 2. A'i Ddefnydd. Y módd, a'r peth yr ydys yn ei geiſio.

1. Hŷd yn hyn yn yr hôll ddeiſyfiadau o'r blaen, fe 'n dyisgwyd i weddio am bethau da ym mhób ryw fôdd yn gyſtal er lles y corph

corph a'r enaid. Yma,yr ydym yn dechreu, ac o hyn allan yn myned rhagom, i weddio rhag y drygau y rhai y mae eu hofn au harſwyd arnom. A hynny nid yn ddireſwm, ddiachos: Yn gymmaint, a thra byddom yn y cnawd, nid iw boſſibl i ni gyrhaeddyd na mwynhau cyflwr perffaith na diogel yn y bŷd: Mor llawn ydym o ammherfeith-rwydd a diffygion, ac wedi ein hamgylchn a pheryglon aneirif.

Y pethau mwyaf yn ein drygu, *ein Pechodau*, ein dyledion i Dduw ydŷnt. Dyna 'r gwraidd, a ffynnon yr holl ddrygau, ſy 'n digwydd i'r Creaduriad. Oni bai pechod, ni fuaſei ddrwg arall yn y bŷd: O hwn, y mae 'r drygau ôll yn deilliaw.

Ein pechodau, meddaf, ſy 'n gwahanu rhyngom a'n Duw, yn ynnyn ei lid, yn cyffroi ei ddigo-faint i'n herbyn, ac yn peri iddo ein coſpi yn ei gyfiawnder, a'i amryw farnedigaethau.

O herwydd hynny y mae ein iachawdr Chriſt, yn ein dyſcu ni yn gyntaf dim geiſio tynny y rhain, a'u ſymmud oddi ar y ffordd, ac i Dduw, ein tâd nefol bellhau ein *camweddau* oddi-wrthym. Pe's gallem fôd yn rhydd oddi-wrth ein dyledion hyn, ni fyddei raid i ni mor ofni na chyſtudd, na thrueni, na drwg, na blinder yn y bŷd.

Cweſt: Ond fe a ddywed rhyw un, Oni ddylaſei hwn ynteu fôd yn gyntaf ûn o'r deiſyfiadau

fiadau yn y weddi? Canys, fel y dywaid y Prophwyd, nid o rân Duw y mae 'r rhwyſtr, *Wele ni ſyrhâwyd llaw 'r Arglwydd fel na allo achub, ac ni thrymhâodd ei gluſt ef, fel na allo glywed, Eithr eich anwireddau chwi a yſcarodd rhyngoch chwi ach Duw a'ch pechodau a guddiaſant ei wyneb oddi-wrthych, fel na chlywo.* Eſai. 59. 1. 2.

O herwydd hynny o rân y gelyniaeth ſydd rhyngom a'n Creawdr o achos ein pechodau nis gallwn na gofyn na derbyn dim daioni yn y bŷd ar ei law, oni chymmoder ni a'n Duw. Dyma 'r peth y mae Duw ei hun yn ei ddeiſyf arnom ni yn gyntaf; 2. *Cor.* 5. 20. Oni ddylem ninneu o flaen dim geiſio 'r un cymmod gantho ynteu?

Att: Gwir iw, nad iw 'r weddi hon, weddi gelynion Duw, ond erfynion ei blant, ſydd tan gymmod ag ef, gwedi iddo adferu cyſſur a ffafor iddŷnt, ynghriſt Jeſu.

Ond y mae i ni ddyfódfa at ein Duw, ac yr ydŷm yn gweddio arno nid yn unig o rân *Mabwyſiad*, fel yr ym yn blant iddo ond o rân ein *gwendid naturiol* hefyd, fel troſſeddwyr annheilwng, a pechaduriaid truain, beunydd yn dyfód yn ôl, yn myned yn ôl llaw yn ein dyledion iddo, ac yn parhâu mewn pechod, tra 'r eſtynner ein dyddiau a'n heinioes i ni.

Ac ar hyn y mae rhill, a trefn y deiſyfiadau hyn yn ſefyll. Yn y *pedwar cyntaf* yr ydym

yn

yn dangos ein hyfder ar ein mabwyſiad, ac yn deiſyf megis plant i Dduw, ar iddo gyflawni ein holl eiſiau yn gyſtal er lles y corph a'r Enaid. Yn y *lleill*, *yn canlyn*, yr ydym yn dangos (fel y dylem,) ein anhyder arnom ein hunain o rân ein llygredigaeth, gan ddeiſyf amddiffynfa, a rhyddid oddi-wrth y cyfryw ddrygau, ac y mae ein bywyd preſennol hwn yn gynnefin iddŷnt.

Y Drygau hyn a ddigwydd i ni oddimewn, ac oddi-allan. *Oddi-mewn*, Gwyniau, chwantau cnawdol, deiſyfiadau llygredig. *Oddi-allan*, peryglon oddi-wrth y bŷd a'r cythraul, pob aflwydd, blinder, adfyd yn digwydd oddi-allan megis heppil pechod. a gwenidogion angeu.

Fel hyn megis yn y bendithion a ddyſgodd ein iachawdr Chriſt i ni weddio amdanynt, yn cyntaf yr *yſprydol*, gwedi hynny y rhai *corphorol*; Felly hefyd yn y Drygau yr ydym wrth yr un ddyſceidiaeth yn gweddio rhagddŷnt, yr ydym yn ymoſod yn gyntaf yn erbyn, y rhai a ryfelant, yn erbyn yr enaid yn bennaf; ein pechodau, ac wedi hynny yn gweddio rhag y lleill a ddigwyddont ir corph, neu ynghŷd ir corph a'r enaid.

Ond wrth weddio fel hyn rhag y Drygau, yr ydym yn cyd-ddeiſyf y bendithion cyfattebol iddŷnt, yn gyſtal yſprydol a chorphorol

chorphorol. Canys Maddeuant Pechodau, Nerth a chadernid yn erbyn profedigaeth, rhydd-did oddiwrth beryglon, a maglau y cythral, y drwg hwnnw, ai weinidogion, prif-radau, bendithion arbennig nefol ydŷnt.

, Am hynny (*medd. Mr. Perkin*) nid iw 'r , deiſyfiad o'r blaen am fara beunyddiol, , ddim angen, na gris, neu gam i godi ein , meddyliau hŷd at y gofynniad hwn o fa- , ddeuant ein pechodau. Canys y néb a roddo ei bwys ar yr Arglwydd am gynhaliaeth corphorol, a fydd barottach i bwyſo ar yr un Duw am feddeuant a thrugaredd er iechydwriaeth ei enaid. Ond y néb ni fo ddiammeu ganddo, y rhydd Duw fara iddo, pa fódd y geill efe fôd yn ddiogel, neu berſwadio eu hûn, y rhydd Duw faddeuant iddo?

Ac wrth hyn y mae Criſt megis yn dwyn ar góf i ni pa fódd y dylem ni ymarfer y bendithion bydól hynny, bwyd a, diod a dillad, iechyd, helaethrwydd, cyfoeth; nid amgen, megis cynnor thwyon i'n *cyfiawnhâd*, i'n cyfarwyddo at ein Duw, ac i beri i ni bwyſo ar ei drugareddâu ynghriſt Jeſu. Canys y bendithion amſerol hyn a dderbynir gennym, megis gwyſtlon ydŷnt a thyſtiolaethau o bethau gwell a ordeiniodd efe i ni.

Ar hyn yma megis ar ſail a adeiladaá

Jacob ei wîr grefydd, a'i wasanaeth i Dduw. *Yna yr addunodd* Jacob *adduned, gan ddywedyd, Os Duw fydd gyda myfi, ac am ceidw yn y ffordd, ymma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdedd, a rhoddi i mi fara iw fwytta, a dillad iw gwisco? a Dychwelyd o honof mewn heddwch i dy fy nhâd, Yna y bŷdd yr Arglwydd yn Dduw i mi.* Gen. 28. 20. 21.

Fel pe bai efe yn ammodi a Duw ac yn cymmeryd y bendithion *amserol* hyn, bwyd a dillad, a dychweliad mewn heddwch, a chadwraeth ar hyd y ffordd megis yn wyftlon o'i ffafor, yn ernes cyflog o'i wasanaeth.

Wrth hyn yr oedd yn ddiammau, yn ddiogel gan y Prophwyd *Dafydd* fôd ei Dduw yn ei garu. *Wrth hyn y gwn,* (medd efe) *hoffi o honot fi, am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn.* Pfal. 41. 11. Y pethau da hyn oddiallan pa beth ŷnt amgen, nag arwyddion o râs a ffafor Duw tuag at ei weifion.

Yn y geiriau y mae i ni yftyried.
1. Y Gofynniad, *Maddeu i ni ein pechodau.*
2. Yr Ammod, tan yr hwn yr ŷm yn gofyn, *Canys yr ydym ninnau yn maddeu,* &c.

Yn y cyntaf, y *gofynniad,* y mae Cyffes yn gynhwyfol, Canys yr ydym wrth ofyn maddeuant yn cyfaddef ein bód ni i gyd yn bechaduriaid.

Yn yr ail, *yr Ammod,* y mae addewid, neu

neu adduned, yn ymrwymo ein hunain i faddeu i'n brodyr.

Ni eill y cyntaf fôd yn wîr ac yn ddiragrith heb ffydd; Na'r llall mo'i gwbl-háu heb gariad perffaith.

Yn y Gofynniad mae i ni yſtyried ym mhellach ac yn naill-tuol.

1. Y Golygyn, yr hwn yr ydym yn edrych arno, a ni yn gweddio fel hyn.
2. Y weithred o drugaredd a ddymunem, *Maddeu.*
3. Y Perſonau. 1. Gan bwy y ceiſiem hyn, *Ein Tád* &c. 2. I bwy neu tros bwy y ceiſiem *I ni.*

1. Y Golygyn, Ἁμαρτίας, *pechodau*, yn y fan hon; Ὀφειλήματα, *dyledion*, Matt. 6. 12. Παραπτώματα, *cwympau, camweddau*, Matt. 6. 14. Yr hon amrywiaeth yn *nhadogaeth* y geiriau, a wnaeth i rai dybied fôd anghyttundeb rhwng yr Efengyl-wyr, neu o'r lleiaf, fôd rhagor rhwng y pechodau yr ydys yn gweddio rhagddynt. Fel pe bai

1. Παράπτωμα, ddim ond *Peccatum Incogitantiæ, Pechod o Anyſtyriaeth neu Anfeddylgarwch*, y peth a wnae dyn yn ddiyſtyr, neu yn anfeddylgar.

2. Ἁμαρτία, Peccatum malitiæ: *Pechod rhyfygus,*

fygus, yr hwn a wnae dŷn o'i wîr fôdd, er ei fôd yn gwybod mai drwg ydyw.

Ond nid iw Criſt ei hùn yn gwneuthur mor fath ragor rhyngthynt, ond yn uwſio 'r geiriau yn gyffredin, pób ûn i ddatcan, neu arwydoccâu pòb math ar bechodau.

Er hynny yr amryw henwau hyn ar bechod a gymmerir o rân amryw edrychiad arno.

Ἁμαρτία, *Pechod* y gelwir, fel y mae yn gyfeilorn, yn myned ar ddidro oddi-wrth reol y gyfraith.

Παράπτωμα, *Camwedd*, o rân ein ymarweddiad, neu gwrs y bŷd a'n bywyd, yn llithro, ac yn cwympo oddi ar lwybrau cyſiawnder.

Ὀφείλημα, *Dylêd*, gan edrych at Dduw, i'r hwn yr ydym yn ddyledwyr, megis o ufuddddod yn naturiol, felly o goſpedigaeth, gwedi i ni ffaelio, a dyfôd yn fyrr o wneuthur yr hyn a ddylem o rân ein creadigaeth.

Pechod a elwir yn *ddylêd* drwy gyffelybiaeth; ar ôl dull dynol yn bargeinio ac yn ammodi a'u gilydd: O rân fôd gwir Ammod rhyngom ni a'n *Duw*: Duw ei hûn yn gyffelyb i'r coeliwr, neu i'r perchen Dlêd, A ninneu i'r Dyledwyr; Y gyfraith, i'r rhwymedigaeth, A Phechod i'r Ddlêd,

am

am yr hwn yr ydym ni tan fforffeit o goſpedigaeth a'r ôl y gyfraith.

Yr ydym yn ddyledwyr i Dduw trwy bechod, nid fel pe bóm yn dylu pechod iddo, neu yn dlyledus i bechu: (Ie, yr ydym yn rwymedig drwy 'r *gyfraith*, yn y gwrthwyneb i dalu ufudd-dod iddo.) Ond o herwydd yn niffyg ufudd-dod, neu daledigaeth yn ôl y rhymedigaeth gyntaf, yr hon a fu rhyngom o'r dechreuad, yr ydym ni trwy bechu yn euog o goſpedigaeth neu farn, megis ail ddlêd iddo.

Pwy nis gwyr arfer y bŷd yn bargeinio? Yn gweled dynion beunydd yn ymrwymo tan ffin, neu ſwm o arian er cyflawni eu cyfammod. Os torrir y cyfammod, y mae y rhwymedigaeth yn myned yn fforffed, a'r ſwm ynddi yn ddlêd i'w pherchen. Ac yn gyfattebol i hyn.

Ein dlêd cyntaf i Dduw, yr hyn oeddym yn dylu iddo o'r dechreuad, ydyw *ufudd-dod gwbl-berffaith i'r gyfraith*: I'r hyn yr oeddym yn rhwymedig wrth gyfammod gweithredoedd tan goſp o farwolaeth dragwyddol. Quo die comederis *&c. Yn y dydd y bwyteych o honaw, gan farw y bŷddi farw.* Gen. 2. 17. Eithr yn niffyg cyflawni y cyfammod, yr ydym yn rhwym i'r fforffedd, hynny iw, coſpedigaeth dragwyddol. Dyma ein dlêd ni yr awr hon. Ond pechod a elwir yn ddlêd, o herwydd ei tôd yn achos o'r goſpedigaeth

pedigaeth hon. Pechod a wnaeth hyn o ddlêd neu fforffed.

2. *Madden.* Y maddeuant yr ydys yn ceiſio, ydyw llawn rydd-did a gollyngdod oddi-wrth y rhymedigaeth a'r ddlêd hon, ſef, *Euogrwydd Pechod*, a'r coſpedigaeth y mae yn haeddu. A hyn y mae Duw yn ei wneuthur erom trwy Griſt Jeſu, gan gymmeryd ei angeu ei ufudd-dod, a i ddioddefaint ef yn iawn troſom, heb gyfrif ein *pechodau* i ni, yn cyfrif ein drwg weithredoedd ni fel pe baent heb eu gwneuthur, yn anghofio ein euogrwydd ac yn maddeu y goſpedigaeth, yn ein gollwng yn rhydd oddi-wrthi.

Tri pheth ſydd ym mhòb pechod i ddâl ſulw arnynt, neu i'w hyſtyried.

1. *Y weithred*, yn yr hwn y gwneir y Pechod.

2. Yr *euogrwydd*, brŷch, halogiad, a edy'r weithred yn yr enaid ar ei hól.

3. Y *coſp a'r dialedd*, y mae'r halogiad, a'r drwg weithred yn eu haeddu.

Actus tranſit, macula manet, pœna debetur.

, Y weithred yn paſſio, y brŷchni yn trigo, a'r goſp yn ddyledus.

Wrth ofyn maddeuant yr ydym yn gweddio yn erbyn *y tri* hyn ynghyd, yn erbyn pòb ûn o'r *tri* ar unwaith. Y mae Duw yn maddeu Pechod.

1. *Quando Actum habet eo loco, ac ſi non fuiſſet;*

, Pan fo efe yn anghofio y weithred, yn ei

, chyfrif

, chyfrif, fol pe bai heb ei gwneuthur. A't hyn y mae 'r ymadroddion hyn yn tueddu. *Ti a deflaiſt fy hôll hechodau o'r tu ôl i'th gefn.* Eſa. 38. 17. Hezekiah wrth alaru. *Efe a ddychwel, efe a drugarhá wrthym, efe a ddaroſtwng ein hanwireddau, a thi a defli eu hôll hechodau i ddyfnderoedd y mór.* Micah. 7. 12. *Na chofia Arglwydd ein hanwired* &c.

2. *Quando maculam, reſtituto ſuo nitori atque integritati animo, eluit.* Pan fo efe yn golchi ym-, maith y brych ar brwntni a adawyd yn ôl, ;ac yn dwyn yr enaid yn ôl i'w chyflwr a'i glendid cyntaf. At hyn y mae 'r Prophwyd Dafydd yn fynych yn edrych gan weddio, *Golch fi yn llwyr-ddwys oddi-wrth fy anwiredd, a glanhâ fi ag hyſſop, a mi a lanheir; Golch fi, a byddaf wynnach na'r eira.* v. 7. *Crea galon lân ynof, o Dduw; ac adnewydda yſpryd uniawn o' mmewn.* v. 10.

3. *Quando Pœnam debitam remittit.* Pan fo , efe yn maddeu y goſp, y mae 'r ddrwg-, weithredd yn ei haeddu.

Ac o rân hyn, y mae 'r Prophwyd yn gweddio, *Na cherydda fi yn dy lidiaw-grwydd, ac na choſpa fi yn dy lid.* Pſal. 6. 1. *Illud omne hic o-, ramus.* Am hyn ôll y gweddiwn wrth ddywedyd hyn, *Maddeu i ni* &c. Gweddiwn a'r i Dduw. 1. Anghofio ein ddrwg-weithredoedd, eu taflu o'r tu ôl iw gefn, eu bwrw ymmaith, a'i cyfirf, fel pe na's buaſent. 2. Ar iddo olchi ein eneidiau, yn

gwael

gwaed Criſt, a'u *glânhau yn llwyr-ddwys*, fel y goſodei efe bób aelod o'i Eglwys yn ogoneddus iddo ei hûn, *heb arno na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond fel y byddei yn ſanctaidd ac yn ddifeius.* Eph. 5. 27. 3. Ac yn ddiwaethaf ar iddo dynny ymmaith y goſpedigaeth, fel na ddelo hi byth arnom.

3. A hyn ôll yr ydym yn eu ceiſio gan Dduw. Canys *pwy a ddichon faddeu pechodau, onid Duw y unig?* Efe yn unig a ddichon gyfiawn'háu 'r anghyfiawn, Lânhau y galon lygredig, fwrw ymmaith anwiredd, a throi heibio ei lidiawgrwydd.

Ac nid ydym yn gweddio troſom ein hunain yn unig ond tros ein brodyr hefyd. Yn yr hyn, megis ac nid ydyw yn ein *cyfiawnhâu* ein hunain, telly nid ym yn eu *condemnio* hwy chwaeth. Ond fel yr oedd Job yn arfer tros ei feibion, telly offrymmwm ninneu offrymmau tros ein brodyr, gan ddywedyd yn wîr ofalus ac yn garedigol, *Fy meibion, fy mrodyr, ond odid a bechaſant ac y felldithiaſant Dduw yn eu calonnau; Maddeu yddŷnt o Dduw*, ac i ninnau, a dyro i ni rás i fôd yn wîr edifeiriol, ac i fwrw ein baich ar ein cyfryngwr, yr hwn a ddioddefódd troſom Jeſu Criſt ein Harglwydd, i'r Hwn &c.

PREG.

Preg. XVI.

A'r ail ar y teſtyn: Luc. 11. 4.

A maddeu i ni ein pechodau, Canys nyni hefyd yddim yn maddeu ei bob un ſydd ddyledwr i ni.

CHwchi a glywſoch, fôd yn y geiriau Ddáu beth arbennig iw hyſtyried.

1. Y Gofynniad, O faddeuant gan Dduw.

2. Yr Ammod, tan yr hwn y Gofynna ein fôd yn y cyntaf, *Gyffes* yn gynnhwyſol. Am ein bód wrth ofyn Maddeuant, yn cyfaddef ein bòd ni i gyd yn bechaduriaid: Yn yr ail Addewid, neu Addúned i'n hymrwymo ein hunain i faddeu i'n brodyr.

Gwaith ffydd iw'r *un*, a'r *llall* trwy Gariad perffaith y cwbl-heir.

Fel y dywedais o'r blaen am ddyledion, fôd y ſcrythur Lán yn galw ein pechodau felly drwy gyffelybiaeth: Felly yr awr hon am Ddyledwyr, nid amgen Pechaduriaid:

Y Dyledwyr y mae ſón amdanynt yn y weddi, ydŷnt, Nid y rhai wrth farchnatta a bargenio ſy yn ól llaw a'u cymydogion,

ac arnynt dalu iddŷnt arian, ŷd, anifeiliaid neu 'r cyffelyb: Ond y rhai a wnelont gam neu rwyſtr iddŷnt. Canys nid oes ûn dŷn yn y bŷd, cynddrwg ei ſtâd, cyn-waeled ei gyflwr, yr hwn ni roddes Duw iddo ar ól ei radd, a'i feſur, lawer o bethau dâ, ni ddylid mo'i dwyn oddi-wrtho: *Bywyd, Enw da* &c.

A'r neb a ddifenwo, neu a rwyſtro ei gymydog mewn dim yn y bŷd a berthyn iddo, ſydd *ddyledwr* iddo, am iddo bechu yn ei erbyn: A'r ddlêd a erys y 'ngwydd yr Hollalluog, hyd oni wnelo 'r troſeddwr hwnnw fodloniad i Dduw, ac i'w gymydog, i Dduw trwy edifeirwch, a thrwy daliad iawn iw gymydog.

Ie heb law y niweid, drwg, neu rwyſtr a wnelir i néb ar air neu weithred, Rhaid i ni feddylied, mai pwy bynnac a eſceuluſa ei ddyled-ſwydd tuag at ei frawd, dyledwr yw. Yn gymmaint ac iddo beidio a'i achub pan allaſai, hynny a gyfrifir yn bechod, yn ddlêd arno yngwydd yr Hollalluog.

Yr ydym ninnau yn maddeu i bób un ſydd yn ein Dlêd: hynny iw. yr ydym yn maeddeu i bób dŷn ſy 'n gwneuthur cam a ni, yn pechu mewn módd yn y bŷd i'n herbyn; pa ùn bynnag ai wrth wneuthur y peth ni ddylei, i'n drygu, a'i gan eſceuluſo ei ddyledus garedigrwydd, a gadel heb wneuthur

wneuthur y weithred ddâ a allaſei, i'n cynnorthwyo.

Cweſt: Ond fe a ddywed rhyw un, os felly, o rân ein pechodau yr ydym fel hyn yr ddyledwyr i gilydd, pa fôdd y maddeuwn ni; Canys *ni ddichon neb faddeu pechodau onid Duw ei hûn yn unig.* Mar. 2. 7.

Attebaf: Ym mhôb pechod neu gamweithred y mae dau beth iw yſtyried. 1. Y rhwyſtr, niweid, colled, trwy'r hyn y drygir néb yn ei gorph, neu ei ddâ. 2. Yr anfodlonedd, a'r ſarhâad i Dduw wrth droſſeddu ei orchymmyn.

Dyn a ddichon roi maddeuant o'r hyn a berthyn iddo ei hûn, y niweid, colled, rhwyſtr: Duw ſy'n maddeu'r peth a berthyn iddo ynteu, yr anufudd-dod iw ewyllys ef, a'r ammharch iddo oddi-wrth ei greadur ei hûn yn ddiyſtyr gantho gyfraith a gorchymmyn ei wneuthurwr.

Megis pan fô neb yn cael ei ſclandrio, gan ddynion anwir yn ei ddifenwi, yn dywedyd yn ddrwg am dano yn gelwyddoc, yr hyn ſy' bechod yn golwg Duw a dŷn: Y Dyn a ddywedir yn ddrwg am dano a ddichon, ac a ddyleu faddeu, cyn belled ac y mae yn berthynaſol iddo, hynny iw, yr enllib, y drygair a'r ammharch y mae efe yn i gael oddi-wrtho; Ond am droſſeddiad y gyfraith, *Na ddwg gam dyſtoliaeth*, &c. I

Dduw yn unig y perthyn rhoi maddeuant i'r goganwr.

Yn y cyfryw bechodau neu gamweddau y mae tri pheth megis ynglŷn, a ſo rhaid iddŷnt wrth faddeuant. 1. Cerydd. 2. Dial. 3. Coſpedigaeth.

1. Coſpi pechaduriaid a berthyn i'r néb a ſo mewn goruchafiaeth, i'r Swyddogion, nid i'r rhai di-ſwydd, ac heb awdurdod ganthynt. Ond nid iw rydd iddŷnt hwy chwaith *faddeu* i'r néb a fynnent ar ôl eu hewyllys eu hunain, eithr taeru neu laccâu ar y goſpedigaeth ar ôl rheol y gyfraith a chydwybod Ddâ. Ac yn hyn y mae 'n berthynas i'r wladwriaeth, neu i'r llês gyffredin.

2. Am gerydd, y mae ein iachawdr yn ein hyfforddi ni, ac yn dangos pa fôdd y dylem ymddwyn tuag at ein brodyr yn pechu yn ein herbyn. A hynny mewn tair o raddáu.

1. Yn naillduol, *Os pecha dy frawd i'th erbyn, dôs ac argyoedda ef rhyngot ti ac ef ei hûn, os efe a wrendy arnat, ti a enillaiſt dy frawd.* Matth. 18. 15.

2. Yn gyhoedd, o flaen tyſtion, oni weſnyth y râdd gyntaf, *Ac os efe ni wrendy, cymmer gyda thi etto ûn neu ddâu fel yngenau dâu neu dri o dyſtion y byddo pob gair yn ſafadwy.* v. 16.

3. Yn gyffredinol, megis yn eſampl i eraill. *Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed i'r Eglwys*

wys, ac os efe ni wrendy ar yr Eglwys chwaith, bydded iti megis yr Ethnic a Rublican. v. 17. Hynny iw, yn yſcymmyn beth, yn ddyn ffiaidd, annheilwng o'th gymydeithas, megis pechadur gwrthnyſſig, anedifeiriol anghymmwys i fyw ym mysc Criſtianogion.

Am gerydd ynteu rhaid i ti ei maddeu, ei rhoi heibio; nid gwiw mo'i chynnig pan weli dy frawd yn edifeiriol. Canys i'r pwrpas hwn yn unig yr argyoeddir y néb a bechǫ, nid amgen, wrth ddangos iddo ei fai, i beri iddo ei weled ai gydnabod, ac wrth hynny edifarháu: A cherydd nid iw gymmwys i'r edifeiriol, ond yn hyttrach, Cyſſur.

2. Am y Dial, Er ei fôd yn berthynas i Dduw yn unig, megis ac y mae efe ei hûn yn dywedyd. *I mi y mae dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd.* Rhuf. 12. 19. Deuter. 32. 35. *I mi y perthyn dial, a thalu y pwyth* &c. Etto y mae i ninnau fódd i faddeu hwnnw; Nid amgen, Pan fo neb o gariad diragrith, a diniweidrwydd calon yn dymuno ar Dduw, na chymmerai ddial am y pechod a wnaeth i frawd iw erbyn.

Fel hyn y maddeuwch chwithau gyda Duw y dial y mae pechod yn ei haeddu: Gan fwrw heibio lid, a chenfigen a digter: na thelwch ddrwg am ddrwg, ac na ddymunwch chwaith. Canys pechod iw

i chwi

i chwi ddymuno drwg neu niweid yn y bŷd i néb er iddo ef wneuthur cam. *Na chaſâ dy frawd yn dy galon, Na ddiala, ac na chadw lid i feibion dy bobl. Ond câr dy gymydog megis ti di hûn: Yr Arglwydd ydwyf i.* Levit. 19. 17. 18. Gwna hyn, ac f'ai cyfrifir yn faddeuant, ac yn ufudd-dod.

Fel pe baim yn dywedyd fel hyn Anghofia, Arglwydd, ein anwireddau fel pe na's buaſeut ac na chyfrif i ni ein drwg-weithredoedd, fel pe's buaſem heb eu gwneuthur, dileua 'r euogrwydd ſydd yn ein pechodau, a thrô oddi-wrthym y goſp y maent yn ei haeddu, na ddyro ddial i ni amdanynt: Canŷs nid oes gennym na llid, na chenfigen, nac ewyllys drwg i neb a wnelo gam a ninnau: Yr ydym yn gweddio troſtynt hwythau ſef ein gelynion, ar i ti, O Arglwydd Dduw, anghofia eu camweddau, a'u harbed, a maddeu iddŷnt, yr ûn módd, ac ydd ŷm yn erfyn troſom ein hunain.

Fel hyn y gwelwch ſód yn y rhan gyntaf, Gyffes; Yn y llall Broffes, neu addewid. O'r ddwy ynghŷd y mae i ni ddyſcu.

1. I gydnabod ein cyflwr gwael y'n gwendid, a'n traeni. Canys wrth hyn hyſpys iw, ein bód ni beunydd yn troſeddu am i'n iachawdr ein dyſcu i weddio beunydd am faddeuant.

2. Pa beth a ddylem ei wneuthur o rân ein

ein gogwyddiad at bechod, ein parodrwydd i droſſeddu, Nid amgen, Nád orweddom yn ein brwnti, na thrigem yn waſtad mewn pechod; Eithr adnewyddu o honom ein cyflwr trwy wîr oſtyngeiddrwydd ac edifeirwch. Canys yn y tri pheth hyn y mae gwîr edifeirwch yn ſefyll.

1. Galw arnom ein hunain am gyfrif o'n dyled i Dduw drwy bechu yn ei erbyn.
2. Cyfaddef ein rhwymedigaeth iddo, gan yn hymroi ein hunain i'w drugaredd.
3. Daroſtwng ein eneidiau ger ei fron, a gofyn maddeuant er mwyn Criſt Jeſu.

3. I bwy, ac ar pa beth yr ymddiriedwn, ac ymſefydlwn ein calonnau ym mhób cyffwr, blinder, cyſtudd, &c. ar *drugaredd* ein Tâd nefol yn ei fab Jeſu Griſt er maddeuant o'n pechodau.

4. Yn gymmaint a bód hón yn weddi i'r etholedigion, ar ffyddloniaid, ac yn anghen-rheidiol iddŷnt, nyni a ddyſcwn nad iw 'r cyfiawnaf yn ein myſc yn cyflawni 'r gyfraith. *Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro.* Jac. 3. 2.

A chan wybod fód Criſt yn goſod y weddi hon i bawb, a bód i'r gwaethaf, i'r dŷn mwyaf ei bechod hawl ynddi iw harfer mewn ffŷdd er llês iw enaid, yn hyn y mae i ni gyſſur, a megis cyfaredd yn erbyn Anobaith, yr hwn ſy yn fynych yn dyfód

dyfôd yn erbyn llawer ûn yn pechu yn ddirfawr, neu yn fynych. Canys y mae ein iachawdr yn peri i ni ofyn maddeuant am ein pechodau, pa faint, neu nifer bynnac a fo arnynt. Ac yn ddiammau yr hwn a barodd i *Petr* ac i ninnau faddeu i eraill, nid hyd *ſaith waith*, onid hyd *ddengwaith a thrugain ſeith waith*, pa faint mwy y maddeu efe ei hûn i'r edifeiriol.

5. Y dylem ni yſtyried, fôd Criſt yn rhoi y rheſwn on blaen, *Canys &c.* megis yn ymoſod yn erbyn rhagrith ein calannau llygredig, y rhai ydym yn gofyn, ac a fynnem gael maddeuant gan Dduw, ac etto yn anewyllys-gar i *faddeu* i'n brodyr, neu ymadel a'n pechodau. Eithr yn yr ammod hwn y cynhwyſir yr addewid a ſoniais i amdano o'r blaen: Nid amgen, Ein bód yn addaw, fel y dylem, fôd yn drugarogion i'n brodyr, os disgwiliwn drugaredd a maddeuant gan Dduw.

6. Lle y mae Duw yn rhoi maddeuant, y mae efe hefyd yn rhoi *grâs* i edifarháu: Nid iw efe ûn amſer yn dangos ei drugaredd i nêb gan faddeu ei bechodáu, ond tan ammod o *edifeirwch*. Yn gymmaint gan hynny ac iddo beri i ni weddio o ddŷdd i ddŷdd am faddeuant in edifeirwch: Onid ê, ni fydd i ni na budd, na llês o'n hòll weddiau.

7. Fôd i ni yn hyn dyſtiolaeth naillduol yn

yn ein cydwybodáu, ein bód ni tan Râs, ac wedi ein cyfiawnháu, Os gwelwn fôd ynom *y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd ynghrift Jeſu*; Phil. 2. 5. ſef, *ein bod yn ewyllys-gar i faddau in gelynion*, ac i weddio troſtynt, nyni a allwn fôd yn hyderus ac yn ddiammau gennym y maddeu Duw i ninnau er dioddefaint ei Fâb Jeſu.

8. Ymogelwn wrth hyn, rhag i ni ddyfôd un amſer i weddio a chalonnau *anghariadus*. Nid gweddio yn iawn y mae'r llidiog a'r cenfigennus wrth ddywedyd y geiriau hyn, ond *rhegu* yn hytrach yn lle gweddio. Canys wrth ddeiſyf dial iw elynion, y mae efe yn cyrchu dial ar ei ben ei hûn: Fel pe bai efe yn dywedyd. O Dduw. Na faddeu i mi, ac nid wyf yn ceiſio gennit faddeuant o'm pechodau: Canys ni faddeuaf i bŷth i'r gŵr ar gŵr ſy'n fy nylêd, nes gweled Dial arno.

O fy mrodyr, na themptiwn ein Tâd nefol, na ryfyged néb o honom ddyfôd o'i flaen, a dywedyd y geiriau hyn heb gariad yn ei galon rhag iddo bentyrru dial iddo ei hûn, wrth ei dymuno i arall, a dywedyd cabledd yn lle gweddi.

Yn ddiweddaf ôll, rhown y parthau hyn ynghŷd, ac wrth iawn arfer a'r deiſyfiad hwn o'r weddi mae i ni fódd a ffordd i gynnal heddwch tuag at Dduw. 1. Trwy weddio arno beunydd am faddeuant. 2. Trwy

ddilyn heddwch a phawb, gan faddeu iddŷnt hwy yn garedigol. Yn yr un deiſyfiad ymma yr ydys yn ceiſio maddeuant, ac yn ei addaw. Na fydded ein ymarfer yn anghyſſon a'n gweddiau, na'n gweddiau yn anghyttûn a'n ymarweddiad: Edrychwn felly ar ein brodyr, megis ac y dymunem ni i Dduw edrych arnom ninnau, *&c.*

Preg. XVII.

Luc. 11. 4: *Ac nac arwain ni i profedigaeth.*

Y Deiſyfiad diwaethaf òll, yn yr hwn y mae i ni yſtyried. 1. Y Cy-ſrwym, neu 'r cyſſylltiad, yn y gair cyntaf. *Ac*, yr hwn ſy 'n cydglymmu 'r dymuniad hwn a'r lleill o'r blaen. 2. Y Deiſyfiad ei hûn, a'i Ddefnydd, y Peth yr ydys yn ei geiſio.

1. Am y cyntaf, yn gymmaint a bód hwn yn ddiweddaf peth o'r hyn a geiſiem gan Dduw yn y weddi hon, A r gair *Ac*, megis yn Ddiwedd-glo arno, ac yn cyd-rwymmo 'r cwbl, yr ydym ni wrth hynny yn cyfrif, mai trwy hyn y cyflawnid y weddi ac yn gweled mo'r anghen-rheidiol yw 'r ymwared

ymwared hwn, i gynnal, ac i amddeffin 'r hóll radau eraill, a weddiaſom amdanynt yn y deiſyfiadau o'r blaen: Ac wrth hynny nyni a ddyſgwn.

1. Fôd Duw yn diſgwil parháu o honom yn ddiysgog yn yr ôll radau, a'r gweithredoedd dâ, trwy yr hyn y ſanctteiddir ei Enw, yr helaethir ac y gogoneddir ei Deyrnas, y cwplheir ei ewyllys, y cyfaddefir, ac yr ymddiriedir ar ei ragddarbod, a'i drugaredd. Canys pe bai i neb gael yr hóll fendithion hyn, y mae efe yn eu ceiſio yn y *deiſyfiâdau* o'r blaen, etto oni pharháo ynddŷnt hŷd y diwedd, os bŷdd iddo gael ei lwyr orchfygu a phrofedigaethau, a myned ar ôl ei chwantau llygredig a throi heibio i wneuthur drwg, pa leshâd a wna 'r hóll fendithion hynny iddo? * *Nid y neb a ddywaid Arglwydd. Arglwydd, a â i mewn i deyrnas nefoedd. Eithr y neb a barhâo hyd y diwedd hwnnw a fydd cadwedig.* Matt. 24. 13.

Gwrandewch gan hynny beth y mae 'r yſpryd yn ei ddywedyd wrth angel Eglwys Epheſus. Datc: 2. 2, 3, 4. *Mi a adwaen dy weithredoedd dâ, a'th lafur a'th ammynedd, ac na elli oddef y rhai drwg, a phroſi o honot y rhai ſŷ'n dywedyd eu bod yn Apoſtolion, ac nid ydŷnt, a chael o honot hwynt yn gelwyddog.*

A thi a oddefaiſt, ac y mae ymmynedd gennit, ac a gymmeraiſt boen er mwyn fy enw i, ac ni ddiffygiaiſt, Eithr y mae gennif beth yn dy erbyn, am i ti

a'th gariad cyntaf. Cofia gan hynny o ba le y ſyrthiaſt ac edifarhâ. -- Er maint ei ddoniau a'i ganmoliaeth, am iddo fód yn hyn yn ôl, nid oeddynt ddim lleshâd iddo heb parhâd ac edifeirwch.

Yr un peth y mae 'r Arglwydd yn ei ddywedyd trwy 'r Prophwyd, Ezech. 18. 24. *Pan ddychwelo y cyfiawn oddi-wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a gwneuthur yn ôl yr hôll ffieidd-dra, a wnelo 'r annuwiol, a fydd efe byw? Ni chofir yr hôll gyfiawnderau a wnaeth efe; Yn ei gamwedd yr hwn a wnaeth, ac yn ei bechod, ynddŷnt y lŷdd efe marw.*

2. Meddyliwch wrth hyn a bydded cof gennych, pa rai ydŷnt y mae profedigaetháu fwyaf yn eu canlyn, ac yn eu herlid. Nid amgen, y rhai a ymoſodent i geiſio teyrnas Dduw, a'i gyfiawnder, *ſancteiddio ei Enw, gwneuthur ei ewyllys, ymddiried yn ei raglunieath, a gorfoleddu yn ei drugaredd* &c. Y rhai goreu, ſy'n gweddio fel hyn yn ddyledus, ac yn ymarfer a phób duwioldeb, a rhinweddau dâ, y mae 'r cythrael yn eu cenfigennu, ac wrth hynny yn eu herlid, ac yn ymoſod yn eu herbyn ag amryw brofedigaetháu.

O herwydd, hyn ſy'n digio, ac yn cynneu llid y *llew rhyadwy* yn erbyn y cyfiawn, am eu bód gwedi diangc allan o'i fagl, a'i gaethiwed, trwy ſaddeuant o'u pechodáu, ſanctteiddiad yr yſpryd, a'u hufudd-dod i ewyllys

ewyllys Duw: O herwydd hyn y mae efe yn ymoſod a'i hóll egni iw dwyn hwynt eil-waith tan ei rwyd a'i balfáu.

Nid ellir mwynhau bendithion Duw, na chael grâs na ffafor gantho, heb genfigen, a llid, ac erlid gan *ddiafol.* Am hynny rheittiaf dim i ni weddio fel hyn, megis yn orphen i'n holl ddeiſyfiadau, *Ac nag arwain* &c.

3. Yſtyriwch pa fódd y mae'r dymuniad yma yn canlyn yn ebrwydd ar ól gofyn maddeuant, ac megis gwedi ei gydrwymo i ddangos, fód profedigaetháu cryfion megis ynglŷn wrth gyfiawnhâd, a maddeuant pechodáu. A'r achos yw, yr un ac a glywſoch o'r blaen, ſef cenfigen a llidiawgrwydd y gelyn.

Canys fel y mae llawenydd yngwydd Angylion Duw; ſef yn y nefoedd am bòb pechadur a edifarhao, megis y mae yn eglur wrth ddammhegion y ddafad, a'r darn arian a gollaſid, a'r máb afradlon a ddychwelodd. *Luc.* 15. Felly yn y gwrth-wyneb y mae galar, ac wylofain, a chydfradwriaeth yſtrywus yn uffern am bòb pechadur a ddiango oddi tan gaethiwed y tywyllwch, Diafol a'i angylion yn bwriadu, ac yn ymegnio ym mhób módd i'w ddwyn eilwaith tan eu rhwydau, yn ei *arwain i brofedigaeth.*

Oddi-wrth wybod, ac yſtyried hyn yn ddyfal

ddyfal, y bŷdd cyſſur nid bychan i gynnal y wan galon, yr hon ſydd mewn perigl er ei bwrw i lawr hyd anobaith trwy brofedigaetháu. Canys profedigaeth ſydd yn ddilynol i râs Duw, a'n corphoraethiad ynghriſt Jeſu. A chyd ag a parhâo néb yn y cyflwr bendigedig hwnnw, rhaid iddo ddisgwil dioddefiadau. *Je, a phawb a'r ſy'n ewyllyſio byw yn ddiuwiol ynghriſt Jeſu a erlidir.* 2. Tim 3. 12. Eithr Duw ei hûn a rydd y chwaneg o râs a nerth i ddioddef oni ddeffygiwn, *ac ni âd ein temptio uwch law yr hyn a allom, eithr a wna ynghyd a'r temptaſiwn ddiangfa hefyd fel y gallom ei ddwyn.* 1. Cor. 10. 13.

Pe byddem ni fodlon i ymadel a'n braint ynghriſt a'n gwaſanaeth i Dduw nyni a allem fôd yn llonydd heb fôd yr ûn o'r drygau hyn yn digwydd i ni.

A hyn a ddylent hwy yſtyried hefyd, y rhai ydŷnt yn tybied ynddŷnt ei hunain ei bód yn ddiogel, heb ganfôd yn eu calonnau, llithiadau pechod, drwg feddyliau, a'r dychymygion y mae Satan yn eu cyffroi ynddŷnt. Y rhai hyn yn ddiau ydŷnt bób amſer yn yr annuwiol, ond megis wrth eu bodd, ac yn ddifyrrwch iddŷnt, yn ymarfer o'u hanwiredd; nid profedigaetháu ynddŷnt hwy, lle nid oes na chais, nac ewyllys iw gwrth-wynebu. Ond i'r ffyddloniaid, i'r rhai duwiol, rhuthrau nerthol

ydŷnt

ydŷnt yn erbyn eu ffydd, a'u hymddiried ynghriſt Jeſu.

Ymmhellach yr ydys yn cydglymmu ein dymuniad yn erbyn profedigaethâu, a'r weddi am faddeuant o'n pechodau i ddangos, ac i yſpyſu i bawb ei ddyled-ſwydd, hynny iw. I fôd yn wiliadwrûs i ochelyd pòb achlyſur pechod o hyn allan, fel yr ydys yn o ofalus i ofyn maddeuant a thrugaredd am yr hyn aeth heibio, ac a ſydd yn pwyſo euſys ar ei gydwybod. Megis ac y dymunem i Dduw anghofio ein hên bechodau, felly y dylem ninnau gofio ein gwendid a'n breuolder ein hunain, a bòd yn ofalus, i ymarfer a phòb módd i ddirynmu nerth pechod, fel na chotto eil waith ynom; A'r unig mòdd i gyflawni hyn iw, ceiſio nerth, ag amddeffynfa ag ymwared gan ein tâd nefol, gan ddywedyd, *Nac arwain ni* &c.

Yr ail rhan.

2.

AM y peth ei hûn, neu ddefnydd y rhan hon o'r weddi, nid gwaeth pa ûn a wnelom o'r geiriau a'i un, ai dâu o ddeiſyfidan. Os un ydyw, mae dwy rhan o honaw (a'r mawr llês yn ddau ddyblyg) yr ydys yn gweddio amdano, ſef, Nawdd, neu amddeffin ag ymwared: neu o'r lleiaf

dim

dim,dáu fath a'r ymwared, oddi-wrth brofedigaethau a phòb drwg arall.

Petimus ne tentemur ; Si vero tentemur , ut liberemur. Paræ : in Matth. , Gweddio yddŷm , , na ddelo profedigaeth neu ddrwg yn y , bŷd yn agos attom ; neu o's Duw a'i mynn, , fôd iddo ddyfód, a phwyfo arnom, ar iddo , ef roddi i ni ymwared amſerol oddi-wr- , tho.

Yn y râu gyntaf o'r deiſyfiad yr ydym yn gweddio yn erbyn temtaſiwnau pechod , yn ein cyffroi a'n hannog i bechu ; y rhai ydŷnt *Mala interna cum quibus filiis Dei eſt luctа continua* ; , Drygau oddi fewn yn er- , byn y rhain y gerfydd i blant y deyrnas , ymdrechu yn oeſtadol.

Yn yr ail y gweddiwn rhag drygau oddiallan, cyſtuddiau, anghenion, cyfyngderau, yn digwydd i bawb tra bont yn y babell, neu r corph llygredig hwn.

Dáu fath ſydd ar *Brofedigaeth* , ynghrybwyll yn y'n ſcrythur Lân , Dâ , a Drwg , un oddi-wrth Dduw , a r llall oddi-wrth y Drwg hwnnw , ſef , y Cythrael , Y Dâ er Profiad,y Drwg yn tueddu at farnedigaeth, i Ddeſtryw.

Y cyntaf o Dduw ei hûn y mae , i brofi dyn , a'i chwilio fel y gwnelo ef yn hyſpys iddo ef ei hûn ag i eraill , pa beth ſydd yn ei galon. Canys Duw ei hûn a wyr cyn chwiſio, cyn iddo ei brofi. Profiad ein ffydd,

a'n

a'n ammynedd tuag at Dduw. *Tum ut ea quâ præditi ſumus, manifeſta evadat virtus, tum ut amplior illa & ampliori digna præmio reddatur. L. B.* , I amlygu y rhâdau, a'r rhinweddau dâ, ſydd ynom, a'u gwneuthur i gynnyddu, twyfwy, a chael eu gobrwyo yn helaeth-, ach.

Am y fath yma y dywaid St. Jaco. p. 1. 2. *Cyfrifwch yn bôb llawenydd, fy mrodyr, pan ſyrthioch mewn amryw brofedigaethau. Gan wybod fôd profiad eich ffydd yn gweithredu ammynedd.* &c. Fel hyn y profodd Duw Abraham. Gen. 22. 1. *Gwedi y pethau hyn y bu i Dduw brofi Abraham, i aberthu ei fâb:* ut fides ejus & obedientia illuſtrior redderetur; iw gwneuthur yn eglur ac yn eſampl i bawb ôll.

Fel hyn y *profodd* Duw yr Iſraeliaid *yn Maſſah gan gynnhennu a hwynt wrth ddyfroedd Meribah.* Deut. 33. 8. I ddangos eu cyndynrwydd. A'r un módd y profodd efe hwynt trwy *gau Prophwydi.* Deut. 13. 3. A'r rhai hyn i gŷd profedigaethau dâ ydŷnt, canys oddi-wrth Awdr dâ, o Dduw y maent, ag i bwrpas Dâ. Er lleshâd iw weiſion, ag eglurhâd ei ogoniant ei hûn.

Y Drwg ydyw Cyffroad oddi-fewn, neu oddi-allan, i ryw weithred anghyfiawn, bechadurûs. Cynnyrfiad meddwl, hûd, neu annog, trwy'r hyn y tywyſir dyn i bechu.

Am y fâth ymma hefyd y dywaid yr un

Apoſtol ; Jac. 1. 13. *Na ddyweded neb, pan demptier ef, Gan Dduw i'm temptir. Canys Duw nis gêllir ei demptio a drygau, ac nid iw efe yn temptio neb. Canys yna y temptir pob un, pan y tynner ef ag y llithier gan ei chwant ei hûn.* v. 14. Πειράζω, *utrobique.*

Yn y módd ymma y profódd, neu y temptiodd *Satan* ein iachawdwr, *ad diffidentiam, contemptum Dei, & Idololatriam.* Matth. 4. , I anymddyried, dirmyg ar Dduw, ac eilun-addoliath. Fel hyn y mae efe yn ein temptio ninnau, cyn belled ac y mae Duw yn rhoi cennad iddo : Ei waith a'i orchwyl priodol yw, o achos pa un y gelwir efe. ὁ πειράζων, *y temptiwr.*

Y cyntaf, meddaf, ſydd o Dduw, a'r ail oddi-wrth y gelyn. Ac etto yn yr un gwaith fe ddichon Duw gael ei brofedigaeth, a'r Drwg hwnnw ei demtafiwn, Megis yngyflwr *Job.* Yn ei gyſtudd a'i aflwydd llawer módd, a llawer gwaith y cynhyrfwyd ei yſpryd i anoddaf, anymddiried, a grwgnach yn erbyn Duw : Ac o râu hynny y mae efe ei hûn yn dywedyd ; *Efe a edwyn fy ffordd, ac wedi iddo fy mhroſi, myſi a ddeuaf allan fel yr aûr.* Job 23. 10.

Duw a roeſei gennad i Satan wneuthur hyn iddo er ei broſi, er nád oedd y cyffro oddiwrth Dduw, ond oddiwrth y gelyn. Y rhai hyn ydŷnt y profedigaethau yr ydys yn y geiriau hyn yn gweddio rhagddŷnt.

Fe

Fe 'n temptir ni mewn amryw foddion. {1. Oddi-fewn. 2. Oddi-allan.}

Nunc rerum proſperarum dulcedine, nunc adverſarum moleſtiâ. , Weithiau trwy felyſwedd , hawdd-fyd , weithiau trwy flinder adfyd.

Oddi-allan i'n temptir gan y temptiwr ei hûn, 1. *Theſſ.* 3. 5. a'i weinidogion, dynion anwir : Dynion anhywaidd a drygionus, am y rhai y mae ſôn. 2. *Theſſ.* 3. 2.

Oddi-fewn, *Tna y temptir pob un* (medd St. Iaco. 1. 14.) pan *y tynner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hûn.* Ond y neb ſydd a meddiant ganddo ar ei ewyllys ei hûn, ac yn gallu gorchfygu y gelyn o'i fewn, ſef ei chwant, nid rhaid iddo mor ofni, y dichon na'r bŷd, na'i dywyſog, ei ddrygu.

Canys oddi-eithr i'n chwantau ein hunain ein hûdo, yr ydym yn ddiogel ; Ac hawdd a fydd ymgadw oddi-wrth y gelynion eraill oddi-allan. A'r neb ni faglwyd', ac ni thywyſwyd i bechu, ac anghofio Duw yn ei hawddfyd, ac helaethrwydd, anhawdd y gorchfygir trwy adfyd, a chyſtuddiau.

Non id oramus, ne tentemur ; , Nid hyn ydd-, ŷm yn gweddio na 'n temptier fyth. (Gormod diotalwch fyddei : ac nid ŷm yn gobeithio mo hynny tra bôm yn y bŷd hwn. Ni chymmerth 'ein *iachawdr* gymmaint a hynny arno ef ei hûn, *wedi ei demptio ŷm mhôb peth yr un ffunydd a ninneu etto heb bechod.*

Hebr. 4. 15.) *Sed ut non tradamur non inferamur, non ſuperemur. Aug* : , Ond gweddiwn fel na 'n traddoder i Satan, na'n gorchfyger yn ein profedigaeth : Hynny yw, rhac i Dduw, ein rhoddi ni i fynu (fel y gwnaeth i'r cenhedloedd gynt) *yn nrhachwantau ein calonnau.* Rhuf. 1. 24. Ie fel y gwnaeth ef i'r Iſraeliaid hefyd. *Yna y gollyngais hwynt ynghyndynrwydd eu calon, aethant wrth eu cyngor eu hunain, medd* Duw eu hûn trwy 'r Prhohwyd. *Pſal.* 81. 12.

Gweddiwn ar Dduw ; fel na adawei ein temptio *uwchlaw yr hyn a allem, eithr ar iddo wneuthur ynghyd a'r temptaſiwn ddiangfa hefyd, fel y gallem ei ddwyn.* 1. Cor. 10. 13.

Fel hyn y mae 'n hiachawdr cyn ei ddioddefaint yn annog ei ddiſcyblion, *Gwiliwch a gweddiwch fel nad eloch i brofedigaeth. ie*, Ne imminens ſcandali tentatio vos ſuperet & dejiciat ; , *Rhag i'r rhwyſtr a'r brofedigaeth oedd, ar ddyfôd arnynt wrth ei ddal ef, a'i arwain ymmaith, eu gorchfygu hwynt, a'n digalonnu.* Megis yn ddiau y rhwyſtrwyd hwynt ôll y noſon honno o'i blegyd, A *Phedr* a'i gwadodd yn llwyr deirgwaith.

Mewn dwy fôdd y gwna Duw, nad elom i brofedigaeth.

1. Yn gyntaf, gan doſturio wrth ein gwendid, nid yw efe yn gadel i Satan ddyfôd yn agos attom, nac i'r brofedigaeth ein cyffwrdd.

2. Yn

2. Yn ail, pan fo'r temptiwr gwedi ein hannog a n cyffroi i bechu, a Duw er amlder ei drugaredd, yn ein hachub o'r fagl, ac yn rhoi grâs a nerth i orchfygu y temptaſiwn.

Fe a ddywaid y ſcrythur Lân fôd Duw *yn ein harwain i brofedigaeth*, nid fel pe bai hynny waith neu ewyllys iddo. *Nid yw Duw yn temptio neb*, nid efe ſy'n peri 'r pechod, na 'r cyffroad, neu 'r llithiad iddo.) Ond o rân nád yw efe yn ei gyfiawn farnedigaeth yn rhoddi grâs a nerth i wrthwynebu, a ſefyll yn erbyn y temptaſiwn. A phan fo Duw yn gwneuthur hynny, yn attal ei law a'i râs i'n cynnal, nid yw boſſibl ma ſyrthiem yn ein gwendid, ac na'n gorchfyger gan y brofedigaeth leiaf. Canys, nid ym ni ddim ynom ein hunain, heb na nerth, na grym, na chryfdwr ynom: Ond ein digonedd ſydd a Dduw. A thrwy ei Râs ef yr ydym, yr hyn ydym.

Gwir yw, allu o ddyn naturiol o hono ei hûn, yscatfeydd, wrth wynebu ryw fáth a'r brofedigaeth, nid amgen, pan fo efe yn hygwyddach, neu barottach i riw bechod arall, ac yn dewis o'r ddâu *ddrwg*, hwnnw ſy hôff, neu well ganddo, ac yn ymwrthod a'r llall. Megis y rhai a ymgadwant rhag godineb, neu 'r cyffelyb, er cael clôd gan ddynion, a thŷb y bŷd eu bód yn ddiwair ac yn oneſt, hynny yw, yn gochelyd

chelyd un, i ſyrthio ar fai arall. Neu pan ſo 'r gŵr ar ryw ddrwg-orchwyl arall, heb gael mor ennyd i ymwrando ar y brofedigaeth.

Ond yn ddiau ac yn hollawl orchfygu temptaſiwn nid yw boſſibl i néb heb briodol râs Duw, ei nerth a'i amddeffynfa.

Fel hyn y dywedir, fôd Duw yn arwaim i brofedigaeth, pan ſo efe yn ei gyfiawn farn yn tynnu yn ôl, ac yn attal ei law a'i râs, trwy 'r hyn yn unig i'n cedwir rhag troſeddu, ac i iechydwriaeth. Megis y neb adawa, ei gydymmaith mewn dyfn-ddwfr, ac ynteu heb fedru nofio, a ddywedir mewn môdd, ei fôd yn achos o'i farwolaeth, e'r iddo ddiangc rhac ei berigl ei hûn.

Peccare qui non impedit cum poteſt, facit. Y neb, ni leſtair bechu, pan ſo efe yn gallu, ſy'n peri. Duw, o rân ei allu a ddichon achub pób rhyw ddŷn, ym mhôb math ar brofedigaeth. Ond o rân ei gyfiawn farn, a doethnieb ei *ragluniaeth* nid yw efe yn gwneuthur hynny, ac ni wna chwaith, Ac am hynny, er nád yw efe yn lleſtair i ni bechu, nid yw, fel dyn yn euog, nac yn achos o'n pechodau.

Pendemus ex naturæ Corruptione, proni ad peccata, ad aſſiduos caſus, & ruinas proclives. Ymddi-, bynnu yddŷm ar lygredigaeth anianol, megis cleddyf trwm ar fain edef yn hy-

gwymp

gwymp, a'n pwys, a'n gogwydd at anwiredd, nôs a dydd, awr ac ennyd ar gwympo. Nid yw bossibl na syrthiem, oddi-eithr i *Dduw* ein cynnal a'i law ei hûn. A'n gwendid yma, y mae ein iachawdr yn coffau i ni yn y rhan hon o'i weddi.

Ond weithiau y mae Duw yn ein harwain ymmhellach i brofedigaeth wrth gospi pechod a phechod, a chyffroi dynion *anhywaidd*, a drygionus, neu angylion drwg i ddrygu drwgweithredwyr.

Pedair grâdd sydd mewn profedigaeth, trwy 'r hyn y mae yn myned ymlaen rhagddo, hyd onid ddycco 'r dŷn i ddestryw; (Oddi-eithr i Dduw ei luddias a'i dorri ymmaith cyn ei perffeithio)

1. *Dychymyb*, pan fo 'r galon yn ymddwyn, ac yn myfyrio rhyw feddwl drwg, naill a'i trwy waith Satan yn ein cynhyrfu, a'i yn codi o hono ei hûn o achos llygredigaeth, a'n gogwyddiad i ddrygioni.

2. *Boddhau*, a'r ddrwg feddwl gwedi ei dderbyn yn y galon yn rhyngu bódd yr ewyllys, ac yn ddigrifwch i'w wyniau.

3. *Cydsynnio*, pan fo'r galon yn ymroi i'r drwg-feddwl ac yn bwriadu oi gwblháu.

4. *Perffeithio neu Cwbl-hau*, pan fo 'r ddrwgweithred trwy fynych bechu yn myned yn arferedig, a'r pechadur wedi gwneuthur *cyngrair* neu gyfammod a marwolaeth, yr hwn hefyd a fydd yn gyflog iddo yn y diwedd.

Yn

Yn y râdd *gyntaf* a'r *ail*, y dywedir i'r dyn gael ei demptio yn unig, heb fôd mor gormod bai arno. Canys er bód y meddylfryd hwnnw, a'r digrifwch ynddo yn ddrwg o honynt eu hunain; Etto lle bônt yn cael eu gwrth-wynebu; a'u gyrru yn ôl trwy gynnorrhwy *grâs Duw*, nid ŷnt yn gadael *halogiad* yn y bŷd yn eu hôl, mwy nag oedd o'r blaen yn y llygredigaeth naturiol. Ond yn y *drydydd*, ſef, wrth gyd-ſynnio y mae'r temptaſiwn yn ymaelyd, ac yn cymmeryd meddiant ynddo; Ac yn y *bedwerydd râdd*, trwy ymarfer a'r ddrwg weithred f'ai dygir ef yn gaeth i berffeithiad pechod,

Fel hyn, gan hynny, y mae Duw yn arwain i brofedigaeth pan fô efe gwedi gadael dyn i'r drwg-feddwl a gódo, neu a fwrir yn ei galon, hyd iddo gŷdſynnied ag ef, a myned rhagddo i ymarfer ag anwiredd.

Y mae 'r brofedigaeth ynom ni yn ſiccr, er i ni ymoſod yn ei herbyn, a'i gwrth-wynebu, a gyrru 'r *cythrael* yn ei ôl: Ond pan fôm gwedi cyd-ſynnio, a bwriadu ar ei wneuthur o hynny allan yr ydŷm ni yn y brofedigaeth, ta'n gaethiwed y temptaſiwn.

I'r hyn y mae geiriau 'r Apoſtol yn gyttûn. 1. Tim. 6. 9. *Y rhai ſydd yn ewyllyſio ymgyfoethogi ſydd yn ſyrthio i brofedigaeth, a magl, a*

llawer

llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai ſy'n boddi dynion i ddiniſtr a cholledigaeth.

Y mae golud a chyfoeth yn dwyn profedigaeth ynddŷnt yn waſtadol; Satan, a thrachwant yn huſtyng beundd cymmaint o ddaioni a geir ei feddiannu mewn helaethrwydd. Am hynny, meddant, bryſſiwch, ceiſiwch mewn pób rhyw fôdd ymgyfoethogi, fel y gallwch ddywedyd gyda r gŵr goludog hwnnw yn yr Efengyl wrth ei Enaid, *Fy enaid, y mae gennit ddâ lawer wedi eu rhoi i gadw tros lawer o flynyddoedd, Gorphwys, bwytta, ŷf bŷdd lawen.* Lu. 12. 19. Pwy ni's gwŷr fôd hyn yn wîr, fôd pob un yn Cael ei demptio fel hyn, ac yn wŷch ac yn ddigrif gan ei galon feddwl am yr eſmwythdra, a'r llawenydd ſydd mewn amlder, a golud; Ond etto hŷd yn hyn, nid yw 'r temptaſiwn ond yn y gŵr yn unig, tra fo efe heb gydſynnied iddo, heb fwriadu, a cheiſio mewn pob ryw fôdd ymgyfoethogi. Eithr gwedi iddo ymroi i hynny, y mae efe bellach gwedi ei arwain i'r brofedigaeth, gwedi di ddal a'i faglau ynddo.

Yr oedd y rhwyd, y fagl gwedi ei oſod yn y cyffroad cyntaf; a'i ddigrifwch yn y lleill; y mae 'r helfa gwedi dyfôd iddo; a'r gŵr a fo gyttun a phechod, ac yn ymbarattoi i'w wneuthur, ſydd euſys yn hollawl tan gaethiwed.

Poteſt quis reſiſtere cuicunque tentationi Diabolicæ, ſi ſimpliciter & purè velit, abſque ullâ admixtione voluntatis. Gul. Pariſ. , Fe a allei dŷn , wrthwynebu pób demptaſiwn diaflig, pe's , mynnei yn llwyr , mewn ſymlrwydd, ca- , lon, heb fôd ynddo ddim o'r ewyllys drwg , yn gymmyſc. Canys ni ddichon neb ymroi neu ufydd-hau i demptaſiwn yn y bŷd yn erbyn ei *ewyllys ei hûn.*

Eithr yr hyn yma, ſef bód i ddŷn bûr ewyllys ac hyder i wrthwynebu profedigaeth, ni ddichon mo'i gael, o hono ei hûn: ond trwy ddawn, a chynnorthwy grâs Duw yn unig.

Prætey Dona Gratiarum & Virtutum, ipſa Dei Protectio & Cuſtodia eſt neceſſaria Sanctis, ut tentationibus reſiſtant. , Ie, heb law Doniau Grâs , a rhinweddau dâ yn gweithio ynom , y , mae 'n rhaid i'r ffyddloniaid wrth nawdd, , ymgeledd, a chadwriaeth Duw, i wrth- , wynebu profedigaeth. Nid yn ddiachos gan hynny y dylem ni ar ôl y ddyſceidiaeth hon *weddio* amdanynt , a bod o'r deiſyfiad hwn yn fynych yn ein genau, yn oeſtadol yn ein calonnau, Bydded dy nawdd *o Dduw*, a'th Gadwraeth beunydd arnom, a'th râs a'th yſpryd ynom fel nad elom i brefedigaeth

Llawer math ar Gynnnorthwyon ſydd gan Dduw i achub ei eiddo rhag iddŷnt fyned i mewn i Brofedigaeth. Eithr yn gymmaint

gymmaint a'u bód hwynt yn aml nid ellwch yr awr hon mo'i dwyn: Disgwiliaf yn hytrach ryw amſer cyfaddas i draethu amdanynt yn helaethach. I'r Duw mawr holltalluog, tragwyddol, y botho gogoniant. *&c.*

Preg. XVIII.

A'r yr unrhiw deſtyn: *Ac nac arwain* &c.

CLywſoch hŷd yn hyn, y fath Brofedigaethau yr ydys yn gweddio rhagddŷnt; Nid y rhai dâ ſy' o Dduw, ond y rhai drwg oddiwrth y Cnawd, y bŷd, ar Cythraul; A'r rheini o bób tŷ, Oddi-fewn, ac oddi-allan; a thrwy bob môdd yn ein hudo, ac yn ein tynnu oddiwrth ein gafael ar Dduw, a pheri i ni bechu yn ei erbyn ef.

Clywſoch hefyd y graddâu trwy 'rhai y mae 'r brofedigaeth yn myned rhagddo, ac yn ein harwain bellach bellach at berffeithiad pechod, hŷd oni ddycco 'r dŷn i ddeſtryw.

Gwrandewch bellach ar y Cynnorthwyon, ſy' gan Dduw i achub ei eiddo, (am y rhain hefyd yr ydym yn gweddio,)

rhag i ni fyned i mewn i Brofedigaeth. Canys amryw Gynnorthwyon ſydd gan Dduw i waredu ei blant rhag ddichellion eu gelynion.

1. Weithiau y mae efe yn lleſtair y gelyn hwnnw, y temptìwr, na ddelo efe yn agos attom: Canys nid oes iddo na nerth, na gallu yn y bŷd (yn erbyn y ffyddloniaid yn Enwedig) ond trwy ganiattâad, Ac nid ydyw Duw bób amſer yn rhoi cennad iddo i ddangos ei falais, a'i genfigen gan weithredu ei amcanion. Ac o herwydd hynny y bû *Job* cyhyd yn esmwyth arno, yn ddiſriw, ac yn ddiogel, a Satan heb allu cymmaint a chyffwrdd a'i gorph, na'i eiddo. Yn hyn y dywedodd y Celwyddog ynteu ddim ond y gwir uniawn; *Oni chaeaiſt o'i amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ, ac ynghylch yr hyn ôll ſydd ciddo oddi amgylch? Ti a fendithiaiſt waith ei ddwy law ef, a'i ddâ ef a gynnyddodd ar y ddaiar*, Medd Satan wrth Dduw, *Job.* 1. 10. Ac o'r un achos y dywaid y Prophwyd. *Pſal.* 34. 7. *Angel yr Arglwydd a gaſtella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'i gwared hwynt.*

2. Weithiau, er i Dduw roi cennad i'r temptiwr i ddyfôd yn agos attom, a'n cyffroi a i brofedigaeth, a'n cyffwrdd a'i ddrygau, etto y mae efe yn ei attal, a'i fâch yn ei ffroenau, ai bawl wedi ei olod, a'i ficcrhau, fel nad elo ddim uwchlaw hynny a ganniadtawyd iddo. Fel y gwelir yn eglur

yn

yn hanes a chyflwr *Iob*, Ni chafodd Satan y tro cyntaf ond awdurdod a'r ei ddâ, ei blant, a'i gyfoeth; a'r ail cais ar ei gorph iw flino a chornwydydd; ond tan ammod na chyrhaeddai efe hŷd at ei hoedl. *Wele ef yn dŷ law di, etto cadw ei hoedl ef*, medd Duw. Job. 2. 6.

3. Ymbellwaith y bŷdd Duw yn rhoddi math a'r gynnorthwy yn y rhith, a'r gosgedd, yn yr hyn y bŷdd Satan yn ymrithio er ein temptio. Y ddelw ddybryd, wrthun y mae yn fynych yn ymddangos ynddi, a ddylei wneuthur i ni ffieiddio ei ymddiddanion a'i wyniau. A mawr na buafai *Efa* yn dychrynnu wrth glywed y farph yn llefaru wrthi hi, ac yn lled-tybiaid rhyw ddichell yn y bwyftfil, ac nid a'i lais ei hûn, nag o i ben ei hën yr oedd efe yn llefaru. Pe's buafei yn yftyried hyn yn ei chalon, (megis ac a gallafei hi yn hawdd) fe fuafei hynny yn gynnorthwy iddi i droi heibio y temptafiwn.

4. Mynych y bŷdd Duw yn ein gwared rhag drwg brofedigaeth, trwy beri i ni edrych yn ddyfal ar y profedigaeth ei hûn. 1. Naill a i pan fydd efe yn ymddangos yn ofnadwy (Megis ac yn ddiammau y dylei pob cyffrô i bechu, ddychrynnu ein heneidiau, a pheri braw iddŷnt) Canys ceidwad gwiliadwrus yw *ofn*, yn cadw gwiliadwraeth tros yr enaid, ac yn ei ymgeleddu.

2. Neu

2. Neu wrth edrych ar y temptaſiwn megis ymherriad y gelyn, yn galw arnom, neu yn ein ſialeneſio i'r ymdrech: hyn a wna i'r yſpryd ymgryfhau ynom, ac a rydd galondid, a gwrolder i wrthwynebu

5. Yn fynuchaf y mae Duw yn ein cynnorthwyo mewn profedigaeth wrth amlháu ei râdau ynom, a'n cryfháu felly yn erbyn ein gelynion; Naill ai trwy roddi grâs o newydd i ymoſod yn erbyn y temptaſiwn hwnnw yn nailltuol, a'i trwy gadernhau, a chwanegu at y rhai oedd ynom or blaen: Fel na bo ir profedigaeth weithredu dim angen ynom, ond cadernhau ein ffydd, a'n gwneuthur yn fwy hyderus, ac i barháu yn ddiysgog hŷd y diwedd.

Fel hyn y bŷdd Duw yn gadael i'r gelyn amlháu ei brofedigaethau, a'i ymgodiad yn ein herbyn, fel y caffo ynteu achlyſur i amlháu ei râdau, ac adnewyddu ei ddoniau yſprydol ynom, i ymoſod yn eu herbyn.

Er mwyn hyn y rhoddwyd i'r Apoſtol Paul y *ſwmbwl* hwnnw *yn y cnawd, Cennad Satan i'm cernodio,* (Medd efe,) *fel na'm tradderchefid.* 2. Cor. 12. 7. A'i gernodio a wnaeth iddo weddio yn daer. *Am y peth hyn mi a attolygais ir Arglwydd.* Ac ar weddio efe a gafodd atteb a chyſſur, *Ac efe a ddywedodd wrthif, Digon i.ti fy ngrâs i: Canys fy nerth i a berffeithir mewn*

gwendid

gwendid. Yn llawen iawn gan hynny yr ymffroſtiaf ſi yn hyttrach yn fy ngwendid, fel y preſwylio nerth Chriſt ynoſi. Am hynny yr wyf fodlawn mewn gwendid, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau er mwyn Chriſt: (Profedigaethau ydŷnt y rhai hyn y gyd) *Canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.* v. 9, 10.

Ac mewn mann arall: *yn y pethau hŷn ôll yr ydym ni yn fwy na chwncwerwyr trwy 'r hwn a'n carodd ni.* Rhuf. 8. 37.

Ac o râu hyn (ſef y môdd hwn a r gynnorthwyo,) y dywaid yr un Apoſtol. 1. *Cor.* 10. 13. *ffyddlon yw Duw, yr hwn ni âd eich temptio uwch law yr hyn a alloch; Eithr a wna ynghŷd â'r temptaſiwn ddiangfa hefyd, fel y galloch ei ddwyn.* Weithiau y mae efe yn rhoi cyſgod ynghanol y gwrês, fel y gwnaeth efe i *Jonah*, a'r cicaion, y palm Criſt hwnnw, yn tyfu uwch ei ben *iw waredu o'i ofid. Jon.* 4. 6. Weithiau ar ôl hîr ymdrech, heddwch, neu amſer i orphwys. Am yr hyn beth y gweddiai *Dafydd*, pan ddywedai, *Paid â mi, fel y cyfbawyf cyn fy myned.* Pſal. 39. 13.

Efe a gyſſura, ac a gadarnhâ y galon drylliedig a gobaith, addewid o Râs, a buddugoliaeth, megis yngyfyngder Paul, y dywedodd ac a cwbl-haodd. Digon iti fyngrâs i. Efe a wna i ni orfoleddu, a llawenychu mewn cyſtuddiau, gan wybod eu bód yn cyd-weithio er ein llês. Efe a ddenfyn gyſtudd a blinder oddi-allan, i ddyſcu

i ni

i ni oddef, *megis milwŷr dà i Jeſu Griſt.* 2. *Tim.* 2. 3. Efe a ddwg ar gôf i ni y pedwar peth diweddaf hynny, Marwolaeth, a Barn, uffern, a Dedwyddwch tragwyddol.

Aneirif foddion i'n hachub ſydd gan Dduw, y rhai ni's gwyddom ddim oddiwrthynt, nes iddŷnt ein gwaredu, i'n achub rhac aneirif ddrygau, heb wybod dim oddiwrthynt byth, neu eu bód ar ddyfôd arnom.

Difficile admodum vincere tentationes, &c. Anhawdd iawn i ddŷn orchfygu profedigaeth; O herwydd nad oes neb yn gwbl ôll yn ymdrechu yn erbyn un temptaſiwn: y ddwy blaid ym mhôb un o honom, y Cnawd, a'r yſpryd, ac ymdrech iddo ynddo ei hûn, o râu, yn erbyn, o râu, gyda'r brofedigaeth.

Y gŵr ffyddlawn ei hûn ynteu mewn profedigaeth tebyg ydyw i deyrnas gwedi ymrannu yn ei herbyn ei hûn, ni allei efe ſefyll, oni bai fôd Duw a'i râs, a'i gynnorthwy yn ei gynnal: Tebyg i ŵr yn marchogaeth ar geffyl rhuſiog, gwingog, ar bób tro mewn perigl o'i gwympo yn ddiſymmwth ddiarwybod: Tebyg i Dŷ teg wedi ei adeiladu yn gelfyddol, ond ar ſail wan tywodlyd; yr hwn ni allei fyth oddef nerth y gwyntoedd, a'r llif-ddyfroedd, oni bai fôd Duw yn gysgod, ac yn rag-fûr cadarn iddo: Tebyg i filwr dâ mawrfrydig

yn

yn ſefyll i ymladd ar le llithrig &c. Llawer o ddichellion ſy gan ddiafol yn ein temptio; Am hynny nid afraid i ni lawer math o gynnorthwyon.

1. Hir barha yn y brofedigaeth, yn blino 'r wan galon drwy hir ymdrech; a thrwy hyn y mae efe yn peri i lawer un, nid yn unig adel y maes iddo ef, ond iw orchfygu hefyd ag anobaith; fel pe bai gwedi ei lwyr adel gan Dduw, heb ddisgwil am gynnorthwy. Saeth erchyll ydyw hon gweddiwn rhagddi.

2. *Extranietas tentationis.* Pan fodŷn yn edrych ar y temptaſiwn megis peth anghynnefinol, neu fel y dywaid St. Peter, am y profiad tanllyd, *fel pe bai beth dieithr yn digwydd iddo.* 1. *Pet.* 4. 12. O hyn y daw i ddŷn dybied nad yw yn perthyn i etholedigaeth Grâs, am nad yw yn gweled eraill yn cael ei profi yr un môdd. Saeth danllyd, erchyll yw hon hefyd, gweddiwn ar Dduw rhagddi, a meddyliwn eiriau 'r Apoſtol, *Nid ymaflodd ynoch demtaſiwn, onid un Dynol.* 1. *Cor.* 10. 13. Nid yw yn digwydd i chwi mwy nac i rai eraill. Gweddiwn yn gyttûn rhag-ddynt ôll *Nac arwain ni i Brofedigaeth.*

3. O wîr ganfigen i r rhai a fo efe yn gweled yn eſmwyth arnynt, mae efe yn eu hannog i anfodlonrwydd, ac i newid eu cyflwr, a'u ſtâd preſennol yn ddâ ac yn ddiogel Fel y gwelwch chwi byſcod, ac

Adar yn cael ei codi o'u llocheſau, au llechſannoedd, lle y gallaſent fôd yn ddiofn er maint y trwſt, a'r cynnwrf y mae 'r heliwr yn ei wneuthur, a'i gyrru ſelly i'r rhwydau. Yn erbyn hyn gweddiwn am waſtadrydd, a bodlonrwydd.

4. Llawer un y mae efe yn ei annog i ymgais at bethau uchel uwch law eu gallu. Cofiwn yn erbyn hyn gyngor yr *Apoſtol.* Rhuf. 12. 3. *Yr wyf yn dywedyd trwy y grâs a roddwydd i mi wrth bob un ſydd yn eich plith, na byddo i neb uchel-ſynied, yn amgen nag y dylid ſynied eithr ſynied i ſobrwydd, fel y rhamodd Duw i bob un feſur ffydd.*

5. Fel y mae Satan ei hun yn ymrithio yn *Angel goleuni*, ſelly y bydd efe yn goſod o'n blaen ninnau y drwg yn rhith y dâ, perigl ynghosgedd diogelwch. Yn erbyn hyn hefyd gweddiwn, ar i Dduw roddi i ni iawn farn ym mhób peth.

6. A phan ſo efe yn gweled dim arall yn tyccio, y mae efe yn maglu llawer un trwy heddwch, a pheidio a'u temptio hwynt tros amſer, wrth hynny yn gweithredu ynddŷnt yn eu gwynfyd a llonydd wch, Esgeulusdra, diofalwch, balchder, dirmyg ar eraill, caledrwydd calon a'r cyffelyb.

Temtaſiwn a wrth-wynebir mewn tri môdd.

1. Y neb ni ſo yn cydſynnio ſydd yn gwrth-

gwrth-wynebu; Gorchfygir y temptiwr; pan na fo yn gorchfygu: Heb fôd ar y goreu, bydd wrth hynny ar y gwaetha.

2. Y néb a ffô oddiwrth demtaſiwn ſydd yn ei wrth-wynebu.

3. Gwrth-wynebu y mae y néb a darawo y dyrnod yn ei ól, Nid amgen, pan fo'r temptiwr yn peri i mi wneuthur hyn a hyn am ei fôd wrth fy môdd, a minnau yn ei atteb. Am hynny na ddylwn mo'i wneuthur, am fôd fy ewyllys a'm calon lygredig yn ei leicio. Ni ddylem ni foddhâu ein hunain, onid Duw.

Wrth ddywedydd hyn, *Nac arwain*, yr ydym yn gweddio am yr ôll gynnorthwyon, a'r hôll râdau hyn, i'n amddiffyn a'n ymgeleddu, rhag i'r gelyn un amſer gael y llaw uchaf arnom. Canniad taed yr Arglwydd ein Tâd nefol i ni hyn, er mwyn ei fâb Jeſu Ghriſt *&c.*

Preg. XIX.

Luc. 11. 4: *Eithr gwared ni rhag drwg.*

Y Diwaethaf peth a ddymunem gan Dduw yn y weddi: Nid gwaeth pa

un a wnelom, a'i gymmeryd yn ddeiſyfiad naillduol a'r ei ben ei hun, ai yn ddarn neu rân o'r hwn a fu o'r blaen, megis ac o rân y clywſoch o'r blaen.

Ynddo y mae i ni yſtyried. 1. Y Drwg. 2. Ar ymwared oddiwrtho.

Y drwg ſydd ynom o bechod pan orphenner, gweddiaſom rhagddo yn y bummed deiſyfiad, *Maddeu i ni ein pechodau*, &c. Y drwg feddyliau a ddeuant i'n calonnau oddi-allan, neu oddi-fewn, oddiwrth y cnawd, neu'r bŷd, neu'r cythraul, cynnyrfiadau, neu annogion i bechu, pob math a'r demtaſiwn, gweddiwn yn eu herbyn yn y geiriau neſau o'r blaen: *Ag nag arwain ni* &c. Y *drwg* yma, rhyw beth amgen yw, yr hwn ni chymmerir gan bawb chwaith i arwyddoccáu yr un peth.

Chryſoſtom a fynnei i ni ddeall, Y drwg hwnnw, awdwr a Thâd pob temtaſiwn, a drwg Brofedigaeth, ſef, y Cythraul. Κατ' ἐξοχὴν ἵνα ἐκεῖνον καλέσῃ διὰ τὴν ὑπερβολὴν τῆς κακίας, καὶ ἐπειδὰν μηδὲν παρ' ἡμῶν ἀδικηθεὶς ἄσπονδον πρὸς ἡμᾶς ἔχει τὸν πόλεμον. Hom. 19. in Matth. Felly y gelwir efe, o rân gormod dryganiaeth ynddo: A nyni heb wneuthur na cham, nag anghymwynas yn y bŷd iddo, ac ynteu o'r dechreuad yn dal gelyniaeth digymmod yn ein herbyn. Yr henw hwn y mae St Joan yn ei roddi iddo. 1. Joh. 2. 13. *Scrifennu yr wyf attoch chwi, wŷr ieuainge,*

am

am orchfygu o honoch yr un Drwg. A'n iachawdr ei hûn yn yr un módd. Matth. 13. 19. *Pan glywo neb air y Deyrnas, ac heb ei ddeall, y mae y Drwg yn dyfôd, ac yn cippio 'r hyn a hauwyd yn ei galon ef.*

Rheſwm i ni weddio yn erbyn y Drwg, y gelyn hwnnw, ac erchi i Dduw, gael o honom ein gwaredu oddiwrtho; megis ac yr ydys o râu yn y rhan gyntaf o'r Deiſyfiad.

Cyprian a fynnei yn hytrach amgyffred yn y gair hwn bob math a'r ddrygau, *Cuncta adverſa*, Aflwydd, blinder cyſtudd, clefyd, trwbl, yr hyn y mae y gelyn yn ceiſio beunydd eu dwyn arnom, tan yr hyn nid yw boſſibl i ni na ddeffygiem, oni bai i Dduw ei hûn a'i nerth ein cynnal, ac o'i fawr drugaredd ein gwaredu.

A rheſwm i ni weddio yn erbyn yr aneirif ddrygau hyn hefyd bob amſer yn ein hamgylchu: *Nunc ad peccatum ſollicitantia, nunc boni impeditiva; Semper naturæ Inſtitutioni, & ei quam expectat reparationi adverſa.* 'Weithiau yn 'ein cynhyrfu, ac yn ein hudo ei bechod, 'i wneuthur y Drwg ni fynnem, ac yn ſiccr 'ni ddylem: Weithiau yn lluddias y dâ a 'fyddem yn ei fwriadu; Pob amſer yn er'byn ein anianol berfeithrwydd, a'r ad'newyddiad ogoneddus yr ydys yn ei ddisgwil.

Ac o hyn yma, ſef o weddio rhag yr hóll ddrygau

ddrygau hynny y mae i ni yn y ſcrythur Lân, Orchymmyn, a ſiampl.

Onid hyn y mae Duw yn ei orchymmyn? Pſal. 60. 15. *Galw arnaf yn nŷdd trallod; mi a'th waredaf.* Galw am ba beth? Am ymwared o'th drallod. Ac o hyn y mae i ni ſiampl yn yr Iſraeliaid. *Llefaſant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder ac efe a'i gwaredodd o'i gorthrymderau.* Pſal. 107. 6. A'r Prophwyd ei hûn, *Yn fynghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd ac y gwaeddais ar fy Nuw* &c. Pſal. 18. 6. A'n iachawdr hefyd a weddiod yn daer rhag y *Cwppan hwnnw* o'i ddioddefaint ar y Groes.

Rhai eraill a ddeallent y *Drwg* hwn yn helaethach, gan amgyffred ynddo ein hóll elynion yſprydol. Canys yn gyntaf Nid yw 'r henw hwn yn briodol i'r Cythraul yn unig. Ond Drwg a elwir Pechod ynteu. Αποσυγξντες τὸ πονηρὸν, *Caſewch y Drwg.* Rhuf. 12. 9.

A'r Bŷd a elwir yn Ddrwg. *Yrhwn a'i rhoddes ei hûn tros ein pechodau, fel i'n gwaredei ni oddiwrth y Bŷd drwg preſennol.* Gal. 1. 4. Y mae 'r hôll fŷd yn gorwedd, medd St. Joan. 1. Ep. 5. 19. Ε'ν πονηρῷ, *yn y Drwg*, neu mewn drygioni, Eithr ſe a allei hwnnw fôd naill a'i pechod, a'i 'r Cythraul, yr hwn y mae efe yn ſôn amdano yn yr adnod o'r blaen Ο' πονηρὸς ἅπτεται αὐτῦ. *A'r Drwg hwnnw nid yw yn cyffwrdd ag ef.*

A Drwg y gelwir y Cnawd hitheu, ſef,

Llygre-

Llygredigaeth naturiol, *tryſſir Drwg y galon.* Matth. 12. 35. Trachwant.

2. Yn ail, y ſantes y mae Diafol y (Drwg hwnnw) yn ei gael yn erbyn dynion, ſy'n dyfôd iddo trwy waith y cnawd, a'r bŷd, a Phechod: Ac am hyn gyda'r Drwg hwnnw yn y weddi rheſwm i ni amgyffred, a deall, a ſynnied ei weiſion, offerau, a pheiriannau.

Fieri poteſt &c. *L. B.* Tebyg iawn; ie, pam, na thebygem, mai meddwl ein iachawdr, ydoedd, dyſcu i ni yn y gair hwn weddio, rhag yr hôll ddrygau hyn, a cheiſio ymwared cyſamſerol oddiwrth bob rhai, a, phób un o honynt. *Neque enim fruſtra. dubio aliquo ſermone uſus eſt*; Canys ni ddaeth eri, oed o'i enau bendigedic ef air petrûs yn ddiachos, neu yn ofer.

Am hynny wrth ddywedyd hyn, gweddiwn.

1. *Inprimis liberari petimus à peccato*; Am ymwared oddiwrth Bechod, y gwaethaf dim o'r hóll bethau yn ein drygu: Ar i Dduw ein rhagflaenu, ein cynnal, amddeffyn, a'n cynnorthwyo a'i râs yſpuſol, rhag i ni ſyrthio mewn un phechod, neu gydſynnied a'r brofedigaeth.

2. Am nodded, ac amddeffynfa oddiwrth y Cythraul: Nid yn unig rhag iddo ein gorchfygu, a'n caethiwo, eithr hefyd gael cennad in dygnflino a'n gormeſu. Ei gymydogaeth

dogaeth yn y bŷd hwn, nis gellir mo'r cilio oddiwrthi, ag efe yn dywyſog yn y bŷd, ac yn traarglywyddiaethu yn ei eiddo: Ag yn ddiau ped ymddangoſei efe yn ei rîth ei hûn, ni ddylei hynny, a Duw ei hûn o'n plaid, fôd mor ofnadwy. O herwydd hynny nid ydym yn gweddio ar i Dduw ei dynny ef allan o'r bŷd, ond yn unig ar iddo roddi i ni râs i ochelyd y dichellion, a'r maglau y mae y Drwg hwnnw yn ei goſod i bawb óll, ond yn enwedig i'r etholedigion, plant y Deyrnas.

3. Gweddiwn rhag ein trachwant ein hunain yn ein hudo, ac yn ein llithio, ag hynny, nid yn unig, nad elom ar ei hól, eithr hefyd ei marwhau, a'i thynny hi yn llwyr oddiwrthym. Er na's gallwn ddisgwil fód mor gwbl-berffaith a hynny, nes i Dduw ein cymmeryd atto ei hûn, i fód yn y nef yn oeſtadol gyda'r Arglwydd.

4. Gweddiwn am ymwared oddiwrth drallod, adfyd, aflwydd, ing, Cyfyngder, a'r hóll ddrygau a allent ddigwydd i bob un o honom oddi-fewn, ac oddi-allan, yn gyſtal i'r corph a'r enaid; Pób peth yn ein blino oddi-allan, yn ein llithio i wneuthur drwg, yn ein lluddias ac yn ein rhwyſtro ymmhôb gorchwyl daionus

Ond yn ddiau nid ydym yn cael mo hyn, er i ni geiſio, fód yn ddiogel, heb ddioddef dim o'r drygau hyn, tra fóm yn y Babell hon.

hon. (Canys ni a wyddom mai gwîr y mae 'r Apoſtol yn ei ddywedyd. 2. Tim. 3. 12. *Ie, a phawb ar ſy'n ewyllyſio byw yn Dduwiol yng hriſt Jeſu a erlidir.*) Eithr yr ydym yn gweddio ar ein Tâd nefawl, ar iddo ein gwaredu o'r lleiaf dim o ran yn y bŷd hwn, tra fôm yn y cnawd, hynny yw, cyn belled ag y gwel efe yn dda er ein llês, ond gwedi hyn yn hollawl oddiwrth bób drwg, yn enwedig oddiwrth y Drwg diwaethaf hwnnw tân uffern, a phoenau tragwyddol. Ceiſiŵn ddiangc rhac *y pŷſ, nid yw yn marw, ar tân nid yw yn diffôdd*, ac er i ni farw yn y bŷd, diogel fyddwn.

5. Yn ddiwaethaf, yn gymmaint a bód bywyd dŷn, ie a'r hóll fŷd yn debyg i ffeneſtri gwyder, gwedi eu tacclu mewn un man, yn cael eu torri mewn man arall: Gweddiwn i'n Tâd nefol, ar iddo ein cadw, nid yn unig trwy ein hóll fywyd, ymmhób lle a phób amſer, rhag i greadur yn y bŷd ddrygu gormod arnom, ond yn enwedig ar iddo ein gwaredu yn y diwedd a bod yn drugarog wrthym yn awr angeu. Marwolaeth dduwiol yw diwedd yr hóll ddrygau hyn a oddefir yn y bŷd, a Dechreuad Dedwyddfŷd tragwyddol.

Ond tan weddir fel hyn, meddyliwn fôd yn ddiolchgar i Dduw am ein hóll ymwared a'u diogelwch hŷd yn hyn, am nad adawodd efe i'r gelyn gael y llaw uchaf ar-

nom, a'n gyrru i ddiniſtr, a'n dal yn ei fagl wrth ei ewyllys ei hûn; Am nad adawodd eſe i angeu deiſyfyd yn cippio yn ddiſymmwth, ac yn ammharod: Am iddo beidio a'n rhoi i fynu i drachwantau ein calonnau, i wneuthur y pethau ſy anfodlon ganddo.

Meddyliwn ymmhellech fôd yn wiliadwrus er ymgadw oddiwrth Ddrwg, rhag i ni ein bwrw ein hunain yn ddiyſtyr bendramwnwgl iddo, fel y rhai a *dynnant anwiredd a rheffynnau oferedd, a phechod megis a rhaffau menn.* Eſa. 5. 18. *Gwae i'r rhai hynny*, medd y Prophwyd.

A hyn ôll a ellir ei wneuthur yn well wrth yſtyried trefn a graddau 'r deiſyfiadau yn y weddi. Pan fo'r galon gwedi cydſynnio a'i chwant, a phechod gwedi ei orphen. Yna y dywedwn fel i'n dyſcir, Maddeu i ni ein pechodau. *Adhibentes remedium in opere miſericordiæ cum addimus, Sicut* &c. Gan addaw rhyw fath ar iawn am y drwg a wnaethom wrth ddywedyd, *Megis ac y maddeuwn ninnau* &c.

Wedi gofyn a chael maddeuant am yr hyn a aeth heibio, ymoſodwn yn erbyn y Drwg ſydd o'n blaen, gweddiwn na chydſynniem o hyn allan a'n chwantau pechadurus, a'r i Dduw ein cynnorthwyo ai râs, nad elom fyth rhagllaw i Brofedigaeth.

Ac yn ddiwaethat ôll, megis yn ymeſtyn at berffeithiad, a'r cyflwr bendigedig hwnnw

hwnnw, pan fydd y *llygredig hwn wedi gwiſco anllygredigaeth*, *a'r marwol hwn wedi gwiſco anfarwoldeb*, Gweddiwn am ymwared oddiwrth bób rhyw Ddrwg, a thragwyddol ddiogelwch. Yno ni bydd na diafol, i'n hudo, na thrachwant in llithio, na gwag ogoniant i beri i ni ymchwyddo; Onid Duw ei hûn a fydd ôll yn ôll.

Addas hefyd i ddal ſulw ac yſtyried, pa fôdd y mae 'r weddi ſanctaidd hon yn dechreu a Diwedd ein hôll Ddeiſyfiadau, ac yn diweddu a'r cyntaf peth a ddylem ni ddymuno

Canys rheittiaf dim tuag at berffeithiad yw ymwared oddiwrth Ddrwg; A diben ein ôll ddymuniadau, yw Gogoniant y goruchaf trwy *ſancteiddio ei Enw*.

Ac i'n harwain, a'n dwyn hŷd at y perffeithrwydd hyn, y Cam cyntaf yw. Ceiſio cael ein gwaredu rhag y Drygau a gildynnant ein meddyliau oddiwrth radau a gorchwylion yſprydol; Yr ail cais, yw, cael grâs a chynnorthwy i ochelyd achlyſur pechod, a phób math ar Brofedigaeth yn annog iddo. Y trydydd, bód yn gariadus ag yn gymmwynasgar, gan faddeu iw gilydd, fel y gallwn fôd yn addas i dderbyn maddeuant gan ein Tâd nefawl, a dywedyd wrtho yn hyderus, *Maddeu i ni ein pechodau* &c. 4. Gwedi cael maddeuant awn rhagom yn gyſſurus, i ofyn Bara gan ein

Tâd grafuſol, yr hwn ni rydd garreg i un o'i feibion. 5. A nyni yn cael ein porthi a'n cynnal fel hyn a phethau da anghen-rheidiol i ni, yr ydym yn rhwymedig i wneuthur ei ewyllys ef, yr hwn ſydd yn rhoi i ni beunydd, borthiant a chynnaliaeth. 6. Y rhai a wnânt ei ewyllys, ydŷnt euſys gwedi eu derbyn iw deyrnas, a rhan o'r etifeddiaeth; Yn yr hon nid oes, ac ni bydd i ni na gwaith na gorchwyl, ond ſancteiddio ei Enw, ei foliannu a'i ogoneddu yn dragywydd. Dyro i ni râs i yſtyried hyn yn ddyfal, ag i weddio yn ddefoſionol, fel y gallom fyw yn Dduwiol, ac yn y diwedd fwynhau y bywyd tragwyddol trwy Jeſu Ghriſt *&c.*

Preg. XX.

Matth. *6.* 13: *Canys eiddot ti yw 'r Deyrnas*, &c.

ER ei St. Luc. adel y geiriau hyn heibio yn ddigrybwyll, ni ddylem ni mo'i eſceuluſo, na myned troſtynt yn ddiyſtyr. Canys diammau gennym eu bód yn perthyn i'r weddi, ac yn bart o ddyſceidiaeth ein

ein iachawdr yn ei bregeth enwog ar y mynydd; i'r hon yr oedd *St. Matthew* yn wrandawr Cotus. A'r hyn a glywodd, ac a ddyſcodd gan yr Arglwydd, efe a ſcrifennodd er dyſceidiaeth i ninnau.

Ac nid gwaith ofer iw hymarfer, (fel y mae rhai yn tybied) o'r hyn y mae i ni ſiampl yn *St. Paul*, Canys y mae ynteu yn bwrw y byrr ymadrodd gorphen hyn or weddi ynghŷd a'r deiſyfiad diwaethaf. *Mi a waredwyd* (medd efe) *o enau y llew; A'r Arglwydd a'm gwared i rhag pob gweithred ddrwg ac a'm ceidw i'w deyrnas nefol: I'r hwn y byddo gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.* 2. Tim. 4, 18. *&c.*

Fel hyn ar ôl tywallt ein calonnau a'u deiſyfiadau o flaen Duw, y mae ein iachawdr yn ein dyſcu i ddiweddu 'r weddi, gan roddi clôd, a moliant i'n Tâd defol. Wrth yr hyn y bydd y diwedd yn gyſſon a'r Dechreuad.

Canys ni fynnei ein iachawdr i ni ddiangc yn ebrwydd ac yn ymgwrth ar ôl ymbilio, heb na diolch, na defoſiwn: Eithr y mae efe yn goſod hwn o'n blaen megis yn ſail neu brif-achos o'r hôll weddi. Canys oni bai i ni ſynnied fel hyn am Dduw, *ma'i eiddo ef yw 'r Deyrnas, y nerth, a'r gogoniant* ni fyddei i ni na hyfder nac ewyllys i weddio, nac i un gorchwyl duwiol arall yn y bŷd.

Pulchrè hæc clauſula orationem ipſam concludit; Têg y mae y diwedd-glo hwn yn cau ar y dei-

deiſyfiadau. O herwydd 1. Y mae megis yn dwyn ar gôf i Dduw ei addewid, a'i ran ynteu i gyflawni y pethau yr ydym yn eu dymuno, gan fynegi'r achos ſy'n peri i ni fód mor hŷf, a dyfód fel hyn i geiſio dim ar ei law, a gobeithio y cawn ni dderbyn, *Canys eiddot ti yw'r* &c. 2. Yn dwyn ar gôf i ninnau ein dyled-ſwydd, yn ein hannog ar ól i ni weddio, i edrych ar ein hól, pa fódd y gweddiaſom, ai mor barchedig, ac mor ddefoſionol ac y dylem, a nyni yn ymddiddan a'r Duw mawr, ofnadwy, yr hwn y piau'r *deyrnas, y nerth, ar gogoniant yn oes oeſoedd.* Ac os gwelwn ddarfôd i ni ffaelio mewn un modd, i'r tafód redeg o flaen y meddwl, i'r genau lefaru megis yn ddiwybod i'r galon, ac heb yſtyried beth a ddywedent, atgyweiriwn y gweddiau hynny, ymwrandawn yn well ar ein calonnau ein hunain, a dygwn yn eu hôl y dyfal yſtyriadau y mae ein Tâd nefawl yn eu diſgwil oddiwrthym yn ei wîr waſanaeth *&c.*

Wrth ddywedyd hyn, a chofio Teyrnas Dduw, deallwn.

1. *Ei Oll ddigonoldeb*; Duw ſy'n ddigonol o hono ei hûn i wneuthur pob peth, heb arno eiſieu dim, ac heb raid iddo wrth yr un o'r Creaduriaid, nac offer, na pheiriant yn y bŷd ond ei ewyllys ei hûn. *Myfi yw El Sadai. Gen.* 7. 14.

2. *Ei Hawl, a'i Fraint yn yr ôll Creaduriaid*; Yr un módd

módd ac y mae i Frenin (ac yn gyfiawnach o lawer) yn yr ôll perthynaſeu iw Lywodraeth. Ie, efe a'i gwnaeth hwynt ôll a'i eiddo ydŷnt. - *Y bŷd a'i gyflawnder ſydd eiddo fi.* Pſa. 50, 12.

3. *Ei Awdurdod a'i Lywodraeth ar bob peth*, yn trefnu, yn ordeinio, lluniaethu pob peth wrth ei ewyllys ei hûn.

Dywedaſom o'r blaen fôd i'r Drindod fendigedig dri math o Deyrnaſoedd. 1. Teyrnas ei Allu. 2. Ei Râs. 3. Ei ogoniant.

1. Y gyntaf a elwir *Brenhiniaeth ei Raglunaeth*; trwy ba un y mae Duw yn Arglwyddiaethu ar bethau yn y nef, a'r ddaiar, a than y Ddaiar. Am yr hon y dywaid y Prophwyd. *Yr Arglwydd a barattôodd ei orſeddfaingc yn y nefoedd, a'i frenhiniaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bob peth.* Pſal. 103. 19. *Dy frenhiniaeth di ſydd frenhiniaeth tragwyddol, a'th lywodraeth a bery yn oes oeſoedd.* Pſal. 145, 13. Yr hyn yr ydym ninnau yn y fan yma yn cyfaddef yn arbennig.

2. Teyrnas Grâs Duw, ai Ogoniant nid 'ynt yn ddiau Deyrnaſoedd nailltuol, gwedi eu hymrannu yn erbyn eu gilydd, ond dwy rân yn hyttrach o'r un frenhiniaeth, yn ddechreuedig yn y gyntaf, yn gwblberffaith yn y llall, un yn y bŷd yma, a r llall yn y bŷd ſydd ar ddyfôd. *Eiddot ti.* Cyfaddef yr ŷm mai Duw piau 'r Deyrnas.

1. O-

1. Oblegit Awdwr a ffynnon pob Llywodraeth, ac Awdyrdod yw efe. *Nid oes awdurdod, onid oddiwrth Dduw: Ar awdurdodau ſydd, gan Dduw y maent wedi ei hordeinio.* Rhuf. 13, 1. Ond Duw ſydd yn llywodraethu o hono ei hûn.

2. O râu dangos y rhagor ſy rhwng Teyrnas Dduw a Brenhiniaeth, Emerodraethau bydol. Brenhininoedd, a Phennaethiaid y bŷd ſy a rhyw fath ar allu, mawrhydi, Gogoniant, Teyrnas: Eithr nid y Nerth a'r Gallu, y Deyrnas a'r Mawrhydi, ſydd hollawl ac o honynt eu hunain. Yr hyn ſydd ganddynt, o Dduw y mae i gyd.

3. Nerth Duw ydyw wrth ba un y mae efe yn gallu ac yn gwneuthur yr hyn y mae yn ei ewyllyſio. Nid yw efe yn unig yn nerthol, ac yn gadernaf, eithr yn wîr nerth, yn wîr gadernid ei hûn, o'i ſylwedd ei hunan: Efe hefyd yw 'r hwn ſydd yn rhoddi nerth, a gallu i'r hôll Creaduriaid eraill. Am hynny y gelwir Chriſt. Eſ. 9,6. *El gibbor.* Y Duw Cadarn. Nag ofned Plant Duw gryfdereu gelynion, Canys eiddo Duw yw 'r nerth; Efe ſydd cryfach na hwynt ôll.

Nerth ac ewyllys Duw, yr un peth ydŷnt: Nid oes na rhagor na gwahaniaeth rhyngddŷnt. Y peth a fynn Duw a fydd, efe a'i gwna? Pwy, neu pa beth a wrthwynebei ei ewyllys ef? Nid felly y cadernaf o ddynion

nion, yr hwn a fydd a'i ewyllys ar lawer peth, heb allu byth mo'i ddwyn i ben. Ond yr hyn y mae Duw yn ei ewyllysio, y mae efe hefyd yn ei wneuthur; A'r hyn ni ddichon moi wneuthur, ni ddichon moi ewyllysio chwaith.

Ond chwi a ddywedwch yscatfyedd, A oes dim, na ddichon Duw wneuthur? *Myfi a attâbaf*, y mae'r ſcrythur lân yn crybwyll am rai Pethau, ni ddichon Duw moi gwneuthur, nid o ran gwendid neu ddiffŷg yn y byd, ond o ran rhagoriaeth nerth, a gallu, a Pherffeithiad: Ammhoſſibl i Dduw fod yn gelwyddog, ei wadu ei hun, ammhoſſibl iddo farw *&c.* O wendid y mae'r pethau hyn i gyd yn dèilliaw, ac yn dyfod, ac am hynny ni ddichon yr un ór pethau hyn gydſefyll a godidawgrwydd, nerth, a gallu'r Hoalluog Dduw.

Gogoniant ó briodolder nid yw ddim amgen, na'r diſcleirdèb a welir mewn dim. *Glorificari idem oſt quod clarificari* Aug. Gogoneddu, yw gwneuthur yn gyhoedd y diſcleirdeb a'r rhagoriath ſydd yn neb ryw beth

Defnydd Gogoniant ydyw rhyw berffeithrwydd, neu ragoriaeth, yr hyn ni ddichon na bod yn gymeradwy, ac yn ganmoledig gan bawb wrth hyn y mae peth yn ogoneddus ynddo ei hun; Ond trwy eglurhau y perfeithiad

perffeithiad hynny i eraill, ei ganmol ai gyfaddef, y gwneir efe yn ogoneddus i eraill hefyd; Ac ó herwydd hyn. Gogoniant Duw ydyw bod ei hanfod ai briodoliaethau bendigedig yn difcleirio, yn hyſpys ac yn gydnabyddus y ngweithredoedd y Creaduriaid

Yn Nuw yn vnig y mae Defnydd a ſail yr oll Ogoniant, ſef, gwir Berffeithrwydd, rhagoriaeth, godidawgrwydd; Ac iddo y mae yn dychwelyd yn ei ddull, ai osgedd wrth ei eglurhâd, gwedi gwneuthur yn hyſpys nad oes na gogoniant, na pherffeithrwydd, ond yn Nuw, ac o Dduw yn unig. Oherwydd paham y dylei pob dyn gyfaddef gida'r Prophwyd, *I ti Arglwydd y perthyn cyfiawnder a nerth, a gogoniant, ond i ni gywilydd wynebau megis heddyw. Arglwydd, y mae cywilydd wynebau i ni, i'n brenhinoedd, in tywyſogion, ac in Tadau, o herwydd i ni* bechu it'h erbyn. Dan. 9. 7. 8.

Mor hyſpus yw hyn i bawb nid rhaid moi draethu ddim ymmhellach; Oddieithr dwyn ar gôf i chwi yr amryw ddyſceidiaeth ſydd i ni i gael oddi wrtho.

1. O hyn yma y mae i ni ſylfaen diſigl dianwadal o hyder, a gwir obaîth yn Nuw *Fiducia exauditionis*, ficcrwydd o gael ein gwrando pan weddiem. a dim blinder arnon, Canys y mae i ni Dâd yn y nefoedd, ac iddo ef yr ym yn attolwg, yr hwn y piau'r *Deyrnas, a'r nerth. ar gogoniant.* wrth yſtyried ei

ei allu, diammau gennym y dichon efe ein hachub; wrth yſtyried ei Deyrnas, meddyliwn mai ei ddeiſiaid ydym, Ac am hynny ni ddichon na bô yn ewyllyſgar, ac yn barod ì amddeffyn, a chynnorthwyo ei eiddo. Ei ogoniant ſydd beunydd yn cael ei egluro, ac yn ymddangos yn ei drugareddau tuag at ai bobl. *Galwarnafi yn nyddtrallod, mi ath waredaf, a thi a'm gogoneddi.* Pſal. 50. 15.

2. Dyſcwn wrth hyn, y dylei canu mawl, a rhoddi Diolch i Dduw am ei holl Ddaioni gydgerdded, neu ſyned ynghyd ân gweddiau megis rhan on gwaſanaeth iddo: Magis ac y mae'r Apoſtol yn eu cwplyſu Phil: 4. 6. *Na ofelwch am Ddim: Either ymmhob peth mewn gweddi, ag ymbil gyda diolchgarwch gwneler eich deiſyfiadau chwi yn hyſpys ger bron Duw.* Fe'n dyſcir yn y deiſyfiadau or blaen ì ymbil ac ì weddio am bob peth anghenrheidiol yn gyſtal ar les y corph, a'r enaid: yma wrth ddiweddu ì dalu diolch, a pha fôdd y gwnawn, gan ddywedyd, *canys eiddot ti yw'r Deyrnas, y nerth* &c.

3. Dyſcwn wrth hyn, pan fôm gwedi derbyn y bendithion yddym yn gweddio amdanynt, ì ba ddiben y cyfeiriwn hwynt. Ceiſio yr ydym gan weddio, ſara beunydd iol Maddeuant o'n pechodau, ymwared oddiwrth bob drŵg a themptaſiwn. Gwedi ì ni gael y pethau hyn: Pa fôdd yr arferwn hwynt. Nid ì drachwant y cnawd, onder

ymattal wrth ein ymarweddiad yn y nef, y ddinas fraint a bwrcaſodd Chriſt ì ni yn nheyrnas ei Dâd, yn gyſtal ei Râs, ai ogoniant yn oes oesodd. Meddyliwn, pa bethau bynnag, a gaffom, eu harfer er gogoniant, ein Tâd nefol ſy 'n eu rhoddi ini: A thalwn iddo ddiolch, a moliant, a gogoniant amdanynt. Meddyliwn hefyd am y pethau nid ym yn eu cael, er i ni eu gofyn, mai er ein lles y mae efe yn attal ei law, ac yn peidio aï rhoddi ini, ac er gogoniant iddo ei hun. Beth bynnag gan hynny a wnawn ai derbyn y rhôdd, a geiſiem, ai bod heb ddi, rhaid i ni fawrhau enw gogoneddus ein Tàd nefol, a dibennu ein gweddiau oll fal hyn, *Ty di piau'r Deyrnas, a'r nerth*, &c.

Dymma'r modd î ni gael ein gwrando, pan weddiem, ſef, drwy gydnabod ein annheilyngdod, gan gymmeryd gwarth a chywilydd ì ni ein hunain, a rhoddi mawl a gogoniant ì Dduw yn unig *Ty di piau'r deyrnas* &c.

PREG. XXI.

Matth: 6. 13. *Amen.*

Un o eiriau'r Arglwydd yw hwn hefyd, nid yn ofer yn dibennu y ſendigedic weddi hon,

hon, na mwy na rhaid chwaith mewn un weddi arall. *Nef a daiar a ant heibio, either fy ngeiriau i nid ànt heibio ddim.* Matth: 24. 35. *Nid a'un iot, nac un tippyn ôr gyfraith heibio.* Matth: 5. 18. Nac o'r efengyl chwaith. Na atto Duw ì ninnau adel y tippyn yma, yr *Amen* heibio, a myned trosto yn ddiystyr fel pe na bai berthynasol i'n gweddiau.

Dau beth ſydd ini ì ymgais ynddo

1 *Ei, gyfieithiad*, neu pa beth y mae yn arddangos i ni, 2. *Ei vws* y lles, ar mwyniant, ſydd o honaw.

Amen o Dadogaeth gair *Hebracc* ydyw, mo'r briodol ir iaith, honno, ac mor gynhwyſol ynddô ei hun, fel pe na's gallai mo'i gyfieithu, yr ydys yn ei arfer ym mhôb iaith arall. Ei wreiddyn ydyw *Aman*, yn arwyddoccau weithiau, Credu, coelio, ymddiried.

Confirmandi particula, quæ pro loco aut verè exponitur, aut Fiat. Nôt Cadarnhâad, yr hwn 'yn ol y lle y bo ynddo, a gyfieithir, naill ai *yn wir*, ai *fellu bô*.

Amen a geir weithiau ynnhechreu'r ymadrodd, ond yn finychaf yn y diwedd, ac magis yn cau yn y diwedd arno

Cum præponitur confirmat dicenda: cum poſtponitur confirmat præcedentia. Paræ: ar Math: yn 'y dechreu yn ſyccrhau y peth a ddelo 'ar ei ol; yn y diwedd yn cadarnhau, ac yn dwyn tyſtiolaeth i r hyn a aethai ór blaen. Weithiau y ceir *Amen*, yn honni, neu yn

yn taeru yn unig ar hyn a ddywedir. Megis ac y mae ein jachawdr yn ei arfer Matth: 5. 18. Ἀμὴν λέγω. *yn wir meddaf i chwi* A'r Apoſtol. 2 Cor: 1. 20 *Addewidion Duw ynddo ef ydynt iê, ac ynddo ef Amen, er gogoniant i Dduw trwom ni.* (Hynny yw) Geirwir, ffyddlawn, ſiccr, diogel, anghyfnewidiol. *Ni bu ei ymadrodd ef wrthich ie, a Nage v*: 18 fel pe buaſei Duw yn addaw y pethau'ni chwpplaê ddim. Geiriau heb na phwys, na gwirionedd ynddynt. Nid felly *Ond ei ymadrodd iê ydoedd, v*: 19 Olegit holl Addawidion Duw yngriſt *ie* ydynt &c.

wrth gyd oſod yr Efangylwyr ar gyfer ei gilydd, y bydd hawdd cael gwybod beth yw meddwl, neu arwyddocaad y gair. wrth yſpyſu pa beth a ddywede, ein iachawdr am y weddw dlawd yn bwrw ei dwy hatling i r dryſorfa. Gwedi galw ei ddiſcyblion. Ἀμὴν λέγω ὑμῖν medd S. Marc: 12. 43. Ἀληθῶς λέγω ὑμῖν, medd St Luke: 21. 3. *Fwrw, or wraig weddw dlawd hon fwy na hwynt oll.* yr un peth ydyw, ac yr un modd y cyfieithwyd yn y ddau fan, *yn wir meddaf i chwi*, Amen, hynny yw. *yn wir.*

2. Weithiau y mae yn arddangos cydſynniad ir peth a wneir, neu a ſynegir. Magis a *Dafydd* yn erchi Eneinio *Salomon* ei fâb yn frenin ar ei ôl. *Danaiah mab Jehoiada a attebodd*

attebodd y brenin ac a ddywedodd. Amen. yr vn modd y dywedo Arglwydd Dduw ſy Arglwydd frenin. 1 *Brenh*: 1. 36.

Ac wrth dderbyn yr Addewidion nid yw yr *Amen* hwn yn yſbyſu y Cydſynniad yma yn unig, either gyda hynny, Llawn ſicrwydd gobaith, Hebr. 6. 11. a *Llawn hyder ffydd.* Hebr. 10. 22. Felly a Duw yn dwyn ar gôf i *Jeremi* ei Addewid i'w Bobl, Jerem; 11. 45. *Gwneweh yn ol yr hyn oll a orchmynnais i chwi. Felly chwi a fyddwch yn bobl i mi, a minneu a fyddaf yn Dduw i chwithau: Fel y gallwyf gwplau y llw a dyngais wrth eich Tadau, ar roddi iddynt Dir yn llifeirio o laeth a mel, megis y mae heddyw: yna yr attebais,* (medd y Prophwyd,) *ac y dywedais, O Arglwydd, Amen, Felly y byddo.*

3. Weithiau, a hynny yn fynychaf, y bydd yr *Amen* yma yn cynnwyſerch a deiſyfiad y Galon, megis ac yr arferir ef yn ein ymbiliau, bendithion, a thalu Diolch.

Ezra a fendithiodd yr Arglwydd, A'r holl bobl a attebaſant, Amen, Amen, gan dderchafu eu dwylo. Nehem 8. 6. *Ar Angelion, a'r Hennriad, a'r pedwar anifail a ſyrthiaſant ger bron yr orſeddfaingc ar eu hwynebau, ac addolaſant Dduw, Gan Ddywedyd, Amen, y fendith, a'r gogoniant, a'r Doethineb, a'r Diolch, a'r Anrhydedd, a'r gallu a'r nerth a fyddo i'n Duw ni yn oes oeſoedd. Amen. Date.* 7. 11. 12.

Yn y fan hon (megis ac yn niwedd ein holl weddiau) y dodir ef yn ei gyfle, nid, yn

yn unig i ddangos, a gosod allan wir ewyllys ein calonnau, a'u serch ar y pethau yr ydym yn gweddio amdanynt, either heb law hynny, i ddwyn tystiolaeth i'n ffydd, a'n llawn hyder i dderbyn ar ol ein deisyfiadau.

Canys ein iachawdwr yn ein hannog, a'n dysgu, a'n cyfarwyddo fel y dylem, a ddywaid. Mark: 11. 24. *Beth bynnag oll a geisioch wrth weddio, credwch y derbyniwch ac fe fydd i chwi.* Yn yr hyn y mae efe yn ysbysu dau beth priodol i bob gweddi ddefosionol.

1. *Gwir ewyllys*, a deisyf, ám gael y grâs neu'r fendith yr ydys yn ei ofyn: Gwir hanfod gweddi. Canys heb teddwl a dymuno ar gael, nid yw hi weddi ddim.

2. *Ffydd*, a llawn hyder y derbyniwn, y rhydd Duw y pethau yr ydym yn ei deisyf. Heb pa un nid ym ni addas i dderbyn dim gan ein Tâd nefol: A'r pethau a gaffom heb ffydd, nid er ein lles, ond yn hytrach i farnedgaeth yr ydym yn ei derbyn.

Pa bethau a ddylem ni geiso tan weddio, a yspysir i ni yn naillduol yn y deisyfidau o'r blaen: Pa fodd y ceisem, y dengys y gair hwn, megis arwydd ffydd, heb pa un ni cheir, ac ni ddiscyn un rhôdd ddaionus oddiwrth Dâd y goleuni. *O bydd ar neb eisieu gofynned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb; Either gofynned mewn ffydd heb ammeu dim. Canys yr hwn sydd yn ammeu, sydd*

gyffelib

gyffelyb i donn y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt. Canys na feddylied y dyn hwnnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd, Jac. 1, 5, 6, 7.

Amen yn niwedd y weddi nid yw briodol i'r bobl yn vnig, i ddangos eu cydſynniad i eiriau y gwenidog a bod eu meddyliau yn cydgerdded: Eithr rhan o'r weddi hefyd ydyw, yn Perthynu i r gweinidog a'r bobl a weddiant mewn ffydd. Ac yn rhoddi yn y chwaneg at ein deiſyfiadau cymmaint ac y mae hyder ein ffydd yn chwanegu ac yn gwellhau ein deiſyfiadau. *Signaculum Orationis Dominicæ. Hier.* Yſêl ar weddi r Arglwydd: Inſel ein calonnau ninneu, a'r hwn yr ym yn Selio pob un o'r deiſyfiadau, ac yn eu ſiccrhau ynom ein hunain, ein bod ni yn eu gwir-ewyllyſio, ac y cawn ni ei derbyn. Am hynny y dylid ei gyſadddaſu a'i gyſſylltu a phôb un o'r deiſyfiadau. Megis gwedi dywedyd *Sancteiddier dy Enw*, rhoddaf atto yn ychwaneg, *Amen*, fel pe dywedwn Megis ac yr ydwyf yn attolwg ar Dduw roddi i mi, ac i eraill Ras i *Sancteiddio ei Enw*, felly yr ydwyf yn credu ac yn ddiammau gennif, y câf gynnorthwy gan ſy Nhâd, a'm Duw i wneuthur hynny: Ar vnffunyd yn y deiſyfiadau eraill Wrth hyn y deellwch pa beth y mae *Amen* yn Arwyddocaû

2. Am yr addyſc a'r lles, a'r, mwyniant fydd i ni o honaw. *Commune factio eſt*, Cofiaad,

neu rybudd yw, yn dwyn ar gôf ini, yn peri in i at gôfio, ar ol traethu ein deisyfiadau o flaen duw, i holi ein calonnau, pa fôdd y gweddiasom, a pha ffŷdd, a pha ostyngeiddrwydd, a defosiwn, a pha hyder ar Dduw, a pha ddirmyg arnom ein hunain o ran ein cyflwr trwy lygredigaeth.

Ar ol dangos ein anghenrheidiau, a thraethu ein deisyfiadau yn naillduol, pob un ar ei ben ei hun, gedewch i'r enaid yn y diwedd, gynnhwyso, a derchafu ei hunan, i ddanfon i fynu yn gryno un llawn erchiad yn lle'r cwbl gan ddeisyf a phob gwresogrwydd Calon, ar i Dduw ynteu ddywedyd *Amen*, *Bid felly*, wrth bob un o'n deisyfiadau Ar peth a ddywedo Duw a fydd. Ei *Fiat*, ei Amen ef ydyw Cwplau.

2. *Testimonium est*, Tystiolaeth yw o hyder a diogelwch ein ffŷdd, trwy'r hon yn unig y mae jawn-weddio. Nid. yw yn ammeu dim, ond yn bwrw'r cwbl ar Dduw a'i wir addewid: Fal hyn y dylei pob un, megis Abraham fod yn ddiegwan o ffŷdd, *yn gwbl siccr ganddo, am yr hyn a addawsei Duw, ei fod yn abl ac yn ewyllysgar iw wneuthur hefyd.* Rhuf: 4. 21.

Dywedwn ninnau *Amen*; yn niwedd ein gweddiau, o herwydd i Dduw ddywedyd *Amen* yn nhechreu ei addewid. *Amen dico vobis. Quodcunque petieritis &c.*

Heb law hyn, y mae ein ffŷdd wrth hyn yn

yn ei chadarnhau ei hun, yn erbyn pob petrusder ac ammheuaeth gan ddywedyd *Amen*, nid o ddymuniad yn unig (O na wnae Duw, mynnwn pettai,) ond o lawn hyder, a ſicrwydd, fel pabâi gwedi ei gwplau. Felly bydd.

Ac o hyn, ſef, cyſſylltiad yr *Amen*, â'r deiſyfiadau, ie a phob un o honynt yn y weddi, y mae rhai yn dyſcu, y dylei pob plentyn i Dduw fod yn ſiccr, ac yn ddiammau ganddo gael maddeuant e'i bechodau; a phob un, nid yw etto mor ddiogel a hynny, ymegnio ar geiſio a chael yr hyder yma.

3. y tyſtiolacrh hwn o'n ffŷdd, gwedi ei fwrw yn ychwaneg at ein deiſyfiadau. a ddengys y dylei ein defoſionau, a'n ynymbiliau, ein gweddiau i gyd fôd mewn i eithoedd a ddeallow, Onidé pa fodd y geill y galon gydſynnied a hwynt, neu daeru ac hyderu ar y pethau nis gwyr ddim oddi wrthynt yn naillduol?

Ar un ymarfer o'r *Amen* hwn yn eu gweddiau oedd yn yr Eglwys gynt tan y Ddeddf, a Duw ei hun yn peri i'r bobl ddywedyd Amen i weddiau'r offeiriad. *Dyweded yr holl bobl Amen.* Deut: 27. 15. *&c.* Nehem: 5. 13, *&c.* 8. 6. A r Athrawon ym myſc yr *Hebræaid* a gymmeront arnynt iawn ganfod anſawdd y weddi, a'r ymbi-

iwr, wrth glywed yr Amen.

Canys dywedent fod tri math a'r Ddrwg Amen ym myſc y bobl.

1. Y cyntaf a alwent *Fethoma* Amen egwan. Amddifad (wrth feddwl y gair) y cyfryw Amen, nid oes iddo na'r yſpryd glân yn Dâd, na gwirgrefydd, neu dduwi oldeb yn tam. Os Defoſiwn a eſcorodd arno yn y dechreu hi a fu farw yn y man: Nid oes nac yſbryd na bywiowgrwydd yndo i gynnal a'i dderchafu tu a'r nef.

2. Yr ail *Chetupha*. Amen a fo ar frŷs, ac yn bryſur *Surreptitium*, medd y gair, A ddywedir yn lladradaidd, agos heb wybod i'r dŷn: Pan fo'r taſod yn rhedeg o flaen y galon, yn meddwl am ddim yn y weddi ond ei diwedd, ac yn ddâ ganddo ei bod hi gwedi darfod; *Amen* i'r diwedd, nid i'r deiſyfiadau.

3. *Ketugna* Amen Rhannedig muſgrell: y dyn yn cyſgu a'r hyd yr amſer, ond yn dechru ymyſtyn a dylyfu gên wrth ddarfod. y cyfryw rai ni wyddent pa beth y maent yn dywedyd *Amen* iddo, Peth bynnag am danynt hwy, eu duwiolder ſy'n cyſcu. Hawdd fyddei yn yr amſeroedd diwaethaf pechadurus hyn, ddangos i chwi Lawer eraill nid difeius wrth ymwrando a dal ſulw arnynt. Megis yr Anywybodus Amen ſydd gan y *Papiſtiaid*, i ba beth, nis gwyddent.

Eithr

Eithr y mae diwedd y weddi yn debyg ir rhagddarpar: A'r weddi i gyd yn debyg iw ffŷdd anwybodus. Crêd yn unig fel y mae'r Eglwys yn credu, a gweddia fel y mae'r offeiriad yn gweddio; Ond nid yw boſſibl ir annyſcedic wybod, pa beth y mae eu heglwys yn credu, na deall gweddiau eu offeiriaid.

Y rhagrîthûs *Amen* a mwy o ſain yn y genaw, na ſymlrhwydd, ac yſtyr yn y galon, fel y *Phariſæaid* yn gweddio yn yr amlwg, ac yn dywedyd *Amen a llêf uchel, fel yr ymddangoſont i ddynion, ac y cant eu clywed. yn wir meddaf i chwi y maent yn derbyn eu gwobr.* Matth: 6. 5. Ac od oes un rhyw arall; na bo ond ei grybwyll: Ni ddyſcaf i chwi o'm bôdd gam arfer yny byd. Dyſcwn yn hyttrach ochelyd pob Cam arfer yn gyſtal ar yr *Amen*, a'r *weddi*: Ceiſio wneuthr lles i'n eneidiau trwy iawn arfer, o honynt, megis ac yr amcanei ein iachawdr ac y mae yn diſgwil ar ein llaw. Dyſgwn, i yſtyried yn ofalus, a dodi ein calonnau ar y bendithion yſprydol yr ydys yn gweddio amdanynt. 2. Dderchafu ein calonnau mewn llawn hyder ffŷdd yn ein Tâd nefawl A bydded yr *Amen* yn dŷſt ini o hyn i gyd, yn ſêl, ac yn ar wydd ei fod ef yn gwrando arnom, ac y rhydd i ni bob peth anghenrheidiol in cyflwr, a'n ſtâd preſennol. Canniadhâ hyn Arglwydd

yn

yn ddarbodus, fel y gallom dy wasanaethu yn ddyledus er gogoniant ith Enw, a dedwyddfyd i'n heneidiau trwy Jesu Ghrist &c.

Preg. XXII.

Matth: 6. 9.

Am hynny gweddiwch chwi fel hyn.

Am hynny. Gwedi ystyried a mynegi dwys ddefnydd yr holl weddi, trown etto ennyd yn ol i edrych ar yr achos, a barrodd in iachawdr ei gosod yn esampl, neu battrwn, a pha fôdd y mae i ni ei chanlyn, a'i iawn arfer.

Yr achos a ddangosir yn y rhan gyntaf o'r bennod, sef Cam-arfer y *Pharisæaid*, a'r cenhedloedd wrth weddio, y'r rhain yn siaradus, a'r lleill yn ragrithus: Am hynny y mae ein iachawdwr yn peri i ni ochelyd arferon pob un o'r ddau: Na fyddwch debyg iddynt hwy. v. 8. Ac yn dangos pa fôdd y gwnawn ni hynny, gan roddi ini, megis Côf-reser o'r pethau a ddylem, ni weddio amdanynt, a Phattrwm neu esampl o'r sutt a'r môdd, y ceisiem hwynt gan ein Tâd nefol: *Gweddiwch chwi fel hyn. Forma desideriorum: Non licet tibi aliud petere.*

'petere. *Aug*: *Rheol*, a Dull i'n Deisfiadau, Nid yw rŷdd na chyfreithlawn i ni ddeisyf ond yr hyn sydd, gwedi gynnwys ynddi, ac yn y drefn y mae hi yn ysbysu.

Omnium Precationum fundamentum, *Cyprian* 'Sail ein holl weddiau defosionol: Ni saiff un erchiad, ond y rhai a sylfaenir arni hi.

Breviarium totius, *Evangelii*, *et salutaris Doc-* 'rinæ *Compendium Tert.* Byrr-draethawd o'r Efengyl, a chrynodeb o ddysceidiaeth iechydwriaeth Ond mawr ir prîsdadau ei chanmol hi fel hyn yn deilwng, ac yr awrhon yn yr amseroedd diwaethaf hyn, ei bod hi (ysywaeth) yn ddibrîs, ac yn ddirmyg gan bob crefftwr annysgedig, annuwiol?

Eithr pa leshâd a fydd ó'r rheol oni chanlynir? I ba bwrpas y gosodir y sylfaen gan y pen-saer celfydd, oni goruwch-adeledir arno? Ni wneir portreiad gwaith i edrych arno yn unig ond i gyfarwyddo'r saeri yn yr adeiladaeth.

Ar ol ystyried defnydd y weddi, ei dosparthu, a'i chymeryd pob yn ddarn, gyda'r cymmalau, a'u dysceidiaethau naillduol. Gadewch i ni bellach edrych arni yn ei chyflawnder, fel y gosodir hi yn bortreiad perffaieth o Dduwioldeb, ac y gallom lunio ein holl weddiau ar ei hol.

Gweddi'r Arglwydd. Prif-gyfeiriad iw wasaneth yw; yn anghenrheidiol ini ei har-

harfer, nid yn unig, oblegid ei bod hi yn help, ac yn hyfforddiad i drefnu a thraethu ein dymuniadau eithr o ran ein dyledwydd, a'n iachawdwr gwedi gorchymmyn i ni weddio fel, hyn a dywedyd, *Ein ſad yr hwn wyt etc.* Pa ſodd gan hynny'r eſcuſodir y rhai a'i bwriant heibio yn hollawl, megis peth ofer i'r gwaſanaeth, ac yn hawdd ei hebcor? Na atto Duw i ni wneuthur hynny; Na attow Duw i ni eſceuluſo'r geiriau bendigedig a ddyſcodd efe ei hun i ni, er ein lles. Rhŷdd a chymmwys i ni uwſio gweddiau eraill wrth ein angenrheidiau priodol, drwy na bônt yn anghyttûn a'r weddi yma.

1 Prif bwrpas y weddi, a'r mwyaf llès i ni oddiwrthi ydw, er cynnorthwy a chyfeiriad, i'n deiſyfiadau tuag at Dduw bob amſer, ac ar bob achlyſur Eithr yn gymmaint nad oes hayach mor gyſarwydd, a medru hynny, nid amgen, dodi eu cyfreidiau priodol wrth y rheol cyffre dinol, rhai a welant yn dda'ddangos i r annyſcedig yn arbennig y môdd ar ſût y gallont drefnu eu holl ddeiſyfiadau ar ol y cyſarwyddiad hwn. Eu Cyſaddaſu i'r amſeroedd, y boreu'r, hwyr, amſer iechyd, clefyd, hawddfyd, adfyd, *&c* a phôb math ar Achoſion, Negeſeion, blinder, llwyddiant a'r cyffelyb.

Y boreu, cyn dechreu pob un ei orch-

wŷl

wyl yn ei Alwedigaeth, attolyged i Dduw

1. Roddi iddo Râs i geiſio ei anrhydedd ef a'i ogoniant ym mhob peth ar a gymero arno ei wneuthur: Meddylied am gyngor yr Apoſtol, a gwnaed ei oreu drwy geiſio grâs gan dduw iw gyflawni. *Pa un bynnag ai bwytta, a'i yfed. ai beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.* 1 Cor: 10. 31. Hyn ydyw, *Sancteiddier dy Enw.*

2. Ar iddo reoli ei galon drwy Ras, a llywodraethu ynddi, a chyfeirio ei draed i ffordd tangneddyf, a'i feddyliau trwy ei yſpryd glân a'i air bendigedig i bob gwirionedd. Hyn yw, *Deued dy deyrnas.*

3. Ar iddo ei nerthu i wneuthur ewyllys yr Arglwydd gyda phob parodrwydd, ffyddlondeb a llawenydd, ac nid ei ewyllys ei hun un amſer, ymoſynned am ei waith, ac ymoſoded ar ei wneuthur: Ond meddylied nad oes na grym na gallu ynddo, i wneuthur dim, ond a roddo'r Arglwydd iddo: Ceiſied ynteu, a dyweded, gyda'r gwr defoſionol *Domine, fiat voluntas tua in me, et de me.* O Arglwydd gwneler dy ewyllys y nof, a thrwof, ac o honof beunydd.

4. Arched i Dduw, beri iddo ymddiried yn ei ragluniaeth ai ragddarbod ef yn unig, heb fôd yn rhy ofalus am bethau bydol, a berthynant ir bywyd preſennol: Gan feddwl am gyngor a gorchymmyn yr Arglwydd, *Nac oſelwch am eich bywyd, pa beth a fwyttaoch, neu pa beth a yfoch: nac am eich corph*

pa beth3 a wiscoch. Onid yw'r bowyd yn fwy na'r bwyd, a'r corph yn fwy na'r dillad. Matth: 6. 23. Bwriwn ein baich ar yr Arglwydd; efe a wyr fod arnom eifieu yr oll bethau hyn, a chymmerwn yn ddiolchgar yr hyn a roddo efe i ni: A dywedwn yn ddiofal, drwy ffŷdd ac ymddiried yn ei ragluni aeth ai ragddarbod ef *Dyro i ni heddyw* &c.

5. Attolyged iddo, ei wneuthur yn wir oſtyngedig i gydnabod ei gyflwr llygredig, a bod yn edifeiriol am ei holl bechodau; I fôd yn garedigol tuag bawb o'i frodyr; a gallu dywedyd yn ddifrifol ag o eigion ei galon: Maddeu i mi o Dduw trugarog fy mhechodau a dyro i mi râs i fod yn ewyllys gar ac ny barod bob amſer i faddeu i'm cymodogion, gan fwrw ymaith chwerwedd, a llid, a chenfigen, a dig, chabledd, gyda phob drygioni: fel y gallem fyw yn ol c yngor yr Apoſtol *Byddwch gymmwynaſgar a'i gilydd, yn doſturiol, yn maddeu iw gilydd, megis y maddenodd Duw er mwyn Chriſt i chwithau.* Eph: 4. 32.

6. Arched iddo, ei nerthu yn erbyn Profedigaethau, fal na orchfyger ef gan un temtaſiwn, y cnawd, na'r byd, na'r cythraul; gweddiad i Dduw, a'r iddo ledu ei adenydd troſto ai gadw rhag pob drwg, yn enwedig ar iddo gadw ei enaid Fal hyn y gwneir hi yn foreuol weddi.

Pan fyddo hi yn myned yn hwyr, gellir yr un môdd cyfaddaſu'r weddi i'r amſer, a thrwy

thrwy yr unrhiw ddeiſyfiadau orchymmyn eneidiau i Dduw tros y nôs ar ddyfod arnom, gan attolwg iddo.

1. Fendithio ein gorphwyſdra a'n hun i'n cryfhau, i'n gwneuthur yn gymmwys, ac yn ablach i ogoneddu ei Enw.

2. Adel i ni orphwys yn ddiogel tan ei lywodraeth, a chyſcod ei adenydd megis gwir a ffyddlawn ddeiliaid iw deyrnas.

3 Allu o honom gyflawni ei ewyllys ſancteiddiol yn cyſgu ac yn neffro, yn gyſtal wrth orphywys a llafurio, nôs a ddŷdd, yn ddirgel ac ynamlwg, rhyngom a'n hunam, ac yngolwg dynion.

4. Fendithio ein eſmwythdra, a'n cŵſg er cadw ein einioes yn ddilwgr, yn gymmaint ac heb orphywyſdra cyfamſerol, a'i fendith ef ar hynny, ni wna mo'n bara lês i ni, nid yw boſſibl chwaith i ddim a fo gennym dyccio

5. Faddeu i ni gyfeiliorni y dŷdd, fel na'n brawychir a dychryniadau y nôs

6. Ein cadw tra fôm yn huno ac yn gorphywyſo rhag bob math a'r coeg feddyliau, rhag gwyniau annuwiol, a thrarchwantau pechadurus, rhag cynhyrfiadau ac amcanion drwg, yn breuddywdio, ac yn neffro, fel na bôm fyth megis yr annuwiol *Anwiredd a ddychymyg ef ar ei wely; Efe a'i geſyd ei hun ar ffordd, nid yw dda.* Pſal. 36. 4.

Ac yn amſer Clefyd marwol, anghenol ac yn ddiau pa glefyd o hono ei hun nid

yw ddiniſtriol, yn pwyſo at farwolaeth) a'r un môdd yn awr angeu, (canys pwy ni's gwyr, mai cennad angau yw pob dolur, yn dwyn rhybudd o farwolaeth, yſcatfeydd nid yw hi neppell yn ol?) gnuwd a chymmwys i bob un orchymmyn ei enaid a'i gyflwr i Dduw gida phou diddanwd ar ol y deiſyfiadau hyn megis rheol ei weddiau. Ceiſied gan Dduw.

1. Allu o hono fawrhau yn deilwng, a gogoneddu ei Enw ſancteiddiol mewn clefyd, ac angau, yn gyſtal a bywyd, eini oes, iechyd.

2. Deilyngu o hono ddangos rhyfeddol nerth ei ras, yn ei wendid mwyaf: Ei fôd efe ei hun yn llywodraethu yn y galon oddi mewn, pan fo'r dŷn wannaf oddi allan, heb allel ſyflyd neu ymdroi ar ei wely.

3. Allu o hono ufyddhau i w ewyllys hyd y dywedd yn llonn yn yr awrddiwaethaf, pan fo efe yn trengy *Gwneler dy ewyllys megis yn y nef, felly ar y ddaiar hefyd.* *Dyro* i ni ras i fod yn wir oſtyngedig iddo yn y mynudyn hwn, fel y gallwyf gael fy nerbyn ir ſanctaidd gynulleidfa, fydd yn ei wneuthur byth heb draugc na gorphen yn y nefoedd.

4. Deilyngu o hono fendithio'r moddion, y rhai a ddarparodd, ac a drefnodd ei hun iw harfer yn y cyfryw ſtâd a chyflwr, er eſmwythdra, a diddanwch; a pheri iddo

iddo drwy ei rasusol ymweliad ymroi ei hun iw ewyllys bendigedig ef, yn enwedig yn yr awr ddiwaethaf gan yftyried, er bôd marwolaeth yn dychrynnu'r dyn naturiol, nad yw hi ond ymadawiad a bŷd gwaêl, a phorth neu fynediad i mewn i fywyd trarhagorol.

5. Ceified Râs i fôd yn wir edifeiriol am ei bechodau, fel y gallo yn gyffurus ac yn ewyllyfgar ymadel a'r bŷd mewn cariad, a gorchymmyn ei enaid i Dduw ynghrift Jefu, megis i greawdwr ffyddlon, a phryrnnwr haelionus.

6. Gan wybod hyn fód Satan yn bryffuraf yn yr awr ddiwaethaf a'i lid yn fwy, po lleiaf fo ei amfer, yn dal ar ei fantes wrth weled dyn mêwn gwendid, Ceified yr amfer hynny yn arbennig nerth a chynnorthwy yn erbyn profedigaeth, a'i wared rhâg y drwg hwnnw yn y mynyd hwnnw, fel na ddelo efe fyth yn agos atto mwyach.

Yn amfer Rhyfel neu ryw affwydd arall Gweddied pob dŷn.

1. Am Râs i ogoneddu Duw mewn amynedd, gan gydnabod barnedigaethau Duw a'i gyfiawnderau, nad yw efe yn cofpi neb ond ar ol ei haeddiant: Dyweded trofto ei hyn a'i dylwyth, a'i gyfeillion, yngeiriau y *Prophwyd Daniel.* 9. 7. 8. *I ti Arglwydd y perthyn Cyfiawnder, ond i ni gywilidd wynebau megis heddyw, e herwydd i ni bechu i th erbyn.*

2. Gweddied ar i Dduw ddangos ynddo nerth,

nerth, a gallu ei Lywodraeth yſprydol, fel na ymroddo efe ei hun byth i waſanaeth Satan na phechod, paſlinder bynnag a ddelo iddo yn y cyfamſer oddiallan.

3. Ceiſied wir bwrpas, ac ymgais a nerth dianwadal i ddangos ei vfydd-dod i Dduw ai ordainhadau yn ei gyſtydd a'i flinfyd, yn gyſtal a phan fo yn eſmwyth arno, mewn heddwch, llwyddiant, a llony ddwch.

4. Ceiſied brofiad o'i raſuſol ragymwe liad, a thrwy hynny ymddiried, a llawn obaith o oruchafiaeth, ag ymwared amſerol

5. Ar ol cyfaddef ei bechoda, a r gyfiawn farn y maent yn haeddu, ceiſied faddeuant o honynt ynghriſt fel na bo y goſpedigaeth yn hollawl i ddeſtrywio, ond er lleſhâd yn hytrach, i beri iddo wellhau ei fuchedd gan *ymddaroſtwng tan alluog law Duw, fel y derchafer ef mewn amſer cyfaddas.* 1 Pet: 5. 6.

6. Amſer cyfaddas iddo geiſio ymwared rhag y Drwg, ac amddeffyn oddiwrth bob ymgodiad yn ei erbyn, yn gyſtal oddi fewn ac oddiallan. Gweddi priodol y cyſtuddiedig pan fyddo mewn blinder, ac yn tywallt ei gŵyn ger bron yr Arglwydd. Pſal: 102. 1. *Na chuild dy wyneb yn nŷdd fy nghyfyngder, goſtwng dy gluſt. Gogwydda dy gluſt gwared fi ar frŷs.* Pſal: 31. 2. *Achub fi rhag fy holl erlidwyr, a gwared fi.* Pſal: 7. 1.

2. Or weddi ſanctaidd hon y gellir ty nny bortreiad gwr gwir-grefyddol defofionol,

nol, ei lun, neu yſbyſiad o hono wrth ei briodoliaethau, yn dangos pa fath wr ydyw yn bennodol.

1. Gŵr a chanddo ddifrif, a gwir ewyllys ar ogoneddu Duw a ſancteiddio ei enw ymmhôb gorchwyl, bob amſer ac y mhôb peth. A'i *oleuni yn diſcleirio ger bron dynion fel y gwelont ei weithredoedd da, ac yr anrhydeddont ei Dâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.*

2. Gŵr, a ſo bob amſer yn barod ac yn ofalus i ymroi eu hun i waſanaeth Duw, a bod yn oſtyngedig iddo, iwreoli, a'i lywodraethu gan ei air, ei gyfraith, ei râs, ai yſpryd, megis gwir Ddeiliad iw Deyrnas ef a gwas ffyddlon iddo.

3. Gŵr a ymgais, a ymegnia a'i holl nerth, a'i galon i wneuthur ewyllys Duw, gyda pharodrwydd a llawenydd, yn gwneuthur cydwybod o bob peth a dybygei fod yn ddrwg iw ochelyd.

4. Gŵr, a rodia yn berffaith, ac yn ddi eſculus yn ei alwedigaeth, gan ei twrw ei hun ardduw a'i ragddarbod daionus, yn fodlon a'i gyflwr beth bynnag fyddo.

5. Gŵr, a'i enaid beunydd yn ymdda ronſtwng ger bron Duw yn cyfaddef ei bechodau, ac yn gofyn maddeuant, ac heddwch tuag Dduw trwy Jeſu Ghriſt, yn adnewyddu ei edifeirwch o ddydd i ddydd.

6. Gŵr, a wel ac a edwyn yn Dda amryw, ac aml y mgodiadau Satan, a phechod yn ei erbyn, gan ymofidio tros ei wendid,

ac

ac etto yn gyſſurus trwy nerth grâs Duw ynddo; ac wrth hynny yn y diwedd yn myned yn fwy na chwncwerwr.

3. Ond ni wesnyth i ni weddio, oni ymegniwn ar wneuthur yr hyn a fynnem trwy ymbil: Ac felly'r weddi Cyfeiriad yw i'n ymarweddiad Rhaid i ni gan hynny ymddwyn yn waſtad, a byw yn rheol ein gweddiau, gan yſtyried yn dduyſal, ac ym yſtyn yn arbennig at chwech o betha.

1. ddwyn rhyw anrhydedd a gogoniant i Dduw beunydd.

2. I ymroi ein hunain yn hollawl i Lywodraeth ein Tâd nefol,

3. I wneuthur ei ewyllys ym mhôb gorchwyl.

4. I câlyn bôb un ei alwedigaeth ac i fôd yn ddieſceulus ynddi, gan ymddiried yn Nuw am fendith ar a wnelom

5. I ymddaroſtwng tan alluog law Duw, oblegid ein pechodau, yn ceiſio cymmod gan Dduw wrth fôd yn garedigol.

6. I redeg at Dduw bód amſer, a chyſgod ei adenydd, in amddefynfa, nerth ag ymwarad ymmhôb profedigaeth, a drwg &c.

Pa fôdd y gallwn gwplau hyn ond trwy weddio? A pha fodd y gweddiwn, oni wnawn, fel in dyſgwyd gan yr Arglwydd fal hyn. *Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd &c.*

TERFYN.

BIBLIOTHECA BODLEIANA